

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ystyried effaith pandemig COVID-19 ar ddysgwyr yng Nghymru.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Prifysgol Bangor University

Teitl: Ystyried effaith pandemig Covid-19 ar ddysgwyr yng Nghymru.

Is-deitl: Cydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant/Prifysgol Aberystwyth/Prifysgol Bangor.

Awdur(on): Dr Jane Waters-Davies, Prysor Davies, Clive Underwood, Dr Siân Lloyd-Williams, Dr Susan Jones, Sue James, Junnine Thomas-Walters, Catherine Morgan, Dr Alex Southern, Alwyn Ward, Rhodri Aled Evans.

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg/ This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2022 WG43988 ISBN 978 1 80391 794 8

**Tabl cynnwys**

Rhestr o dablau 5
Rhestr o ffigurau 6
Rhestr Termau 7
1. Cyflwyniad/Cefndir 8
Cyflwyniad 8
Cefndir 9
Cwestiwn ymchwil 14
Trosolwg o'r adroddiad hwn 14
2. Methodoleg 15
Trosolwg 15
Samplu 16
Adnoddau ymchwil 19
Cam 1 20
Cam 2 22
Prosesau moesegol 24
Dadansoddi 25
3. Canfyddiadau yn ymwneud â mynediad i dechnoleg 30
Cyflwyniad: 30
Argaeledd caledwedd / dyfeisiau 31
Ysgolion yn darparu caledwedd a stigma 34
Cysylltedd band eang 36
Goblygiadau ariannol dysgu ar-lein gartref 36
Brodyr a chwiorydd - mynediad i bob dysgwr 37
Argaeledd hyfforddiant i rieni ar ddefnyddio TG 38
Arbenigedd staff 39
Cyfleoedd 40
Crynodeb 41

4. Canfyddiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref 42
Cyflwyniad 42
Cymorth gan Rieni 43
Lles rhieni 48
Cyflogaeth rhieni 51
Disgwyliadau rheini 53
Natur y teulu 54
Amgylchedd y cartref 56
Ansefydlogrwydd ariannol cynyddol 59
Mynediad at adnoddau 60
Gweithfan 62
Crynodeb 63
5. Canfyddiadau o ran darpariaeth ysgol 64
Cyflwyniad 64
Cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r amgylchedd dysgu yn y cartref 65
Gwella hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r gallu i'w addasu 67
Ymatebion i'r amrywiaeth o ddeunyddiau addysgol a ddarparwyd a'u hansawdd, gan gynnwys adnoddau digidol a ffisegol 71
Y cymorth bugeiliol a ddarperir i ddisgyblion a theuluoedd / gofalwyr 76
Cymorth a chyfleusterau addysgol a ddarperir ar y safle gan ysgol Hyb dynodedig i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed 78
_Toc89428113Darpariaeth a chymorth i ddisgyblion sy'n pontio rhwng ysgolion neu gyfnodau allweddol yn ystod y cyfyngiadau symud ac wrth ddychwelyd i'r ysgol wedi hynny 81
Darpariaeth a chymorth i ddisgyblion mewn blynyddoedd arholiadau yn ystod y cyfyngiadau symud ac wrth ddychwelyd i'r ysgol wedi hynny 82
Crynodeb 84
6. Canfyddiadau yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol 86
Crynodeb 92
7. Canfyddiadau yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles 94

Cyflwyniad 94
Iechyd meddwl / lles 96
Unigedd cymdeithasol dysgwyr 101
Materion a phryderon yn ymwneud â diogelu 103
Profiadau cadarnhaol o ddysgu yn y gartref 103
Dysgu yn y cartref 107
Crynodeb 107
8. Canfyddiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd 109
Cyflwyniad 109
Effaith ynysu ar ddysgu cymdeithasol 109
Effaith ar ddysgwyr ag ieithoedd ychwanegol 112
Amharodrwydd i ddychwelyd at ddysgu 116
Annibyniaeth 117
Cymhelliant 119
Canolbwyntio 122
Datblygu sgiliau 124
Cyrhaeddiad 125
Dysgu allgyrsiol 127
Crynodeb 132
9. Prif ganfyddiadau 134
Cyflwyniad 134
Mynediad i dechnoleg 135
Amgylchedd dysgu yn y cartref 136
Darpariaeth ysgol 136
Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol 137
Iechyd meddwl a lles 137
Dysgu a chynnydd academaidd 138
10. Argymhellion 140
Mynediad i dechnoleg 140

Amgylchedd dysgu yn y cartref 141
Darpariaeth ysgol 142
Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol 142
Iechyd meddwl a lles 143
Dysgu a chynnydd academaidd 144
Goblygiadau cyffredin ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon yn y dyfodol 144
Atodiad.... 146
Holiadur i rieni / gofalwyr: 146
Holiadur i Athrawon/Staff Cymorth Dysgu 152
Cyfweliad Lled Strwythuredig ar gyfer yr Uwch-dîm Arwain 157
Cyfweliad Strwythuredig ar gyfer Athrawon 162
Cyfweliad Strwythuredig ar gyfer Rhieni 163
Adran gyfeiriadau 164

**Rhestr o dablau**

Tabl 2.1: Trosolwg o'r sampl o ysgolion astudiaeth achos gyda niferoedd ymateb 17

Tabl 2.2: Trosolwg o'r llwyfannau arolygu a ddefnyddiwyd gan bob sefydliad… 21

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 2.1: Amserlen yn nodi digwyddiadau allweddol yn ystod pandemig COVID-19 a'r broses ymchwil. 27
Ffigur 3.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â mynediad i dechnoleg.. 30
Ffigur 3.2: Delwedd yn tynnu sylw at ymateb gan ddysgwr 3, blwyddyn 5, ysgol B. 33
Ffigur 4.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref. 42
Ffigur 4.2: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref. 47
Ffigur 4.3: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref . 51
Ffigur 4.4: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref. 56
Ffigur 5.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â darpariaeth ysgolion. 78
Ffigur 6.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol. 89
Ffigur 7.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles. 94
Ffigur 7.2: Delwedd o ymateb a ddarparwyd gan ddysgwr 2, blwyddyn 5, ysgol B. 102
Ffigur 8.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd. 110
Ffigur 8.2: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd. 112
Ffigur 8.3: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd. 114
Ffigur 8.4: Llun gan Ddysgwr 3, blwyddyn 3, Ysgol B: ‘Y pethau gorau a'r pethau gwaethaf am y cyfyngiadau symud (1): lluniau o chwarae (gorau) y tu mewn a'r tu allan // gweithio (gwaethaf) 'gorfod gwneud llawer o waith', 'mwy o waith' - llun o blentyn â'i riant wrth liniadur, y plentyn â phen / papur.’ 121
Ffigur 8.5: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd. 124

**Rhestr Termau**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CADY | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ASD | Anhwylder Sbectrwm Awtistig |
| SACDA | Prif Swyddog Clinigol Addysg Dynodedig |
| EEF | Y Sefydliad Gwaddol Addysgol |
| eFSM | Cymwys i Gael Prydau Ysgol am Ddim |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| LSA | Cynorthwyydd Cymorth Dysgu |
| SCYA | Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg |
| Rhiant | Gall 'rhiant' gyfeirio at riant neu warcheidwad |
| UDA | Uwch-dîm Arwain |
| UWTSD | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

## Cyflwyniad

**1.1** Comisiynwyd yr astudiaeth hon ym mis Mehefin 2020 tuag at ddiwedd cyfnod cychwynnol cyfyngiadau symud cenedlaethol y coronafeirws a achoswyd gan ledaeniad cynyddol feirws Covid-19. Ar y pryd, ni ddisgwyliwyd cyfnod(au) pellach o gyfyngiadau symud cenedlaethol o ganlyniad i'r pandemig. Mae amserlen ar gyfer yr astudiaeth, ynghyd â dyddiadau allweddol yn ymwneud â mynediad i ysgolion yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021, wedi'i darparu isod er gwybodaeth (ffigur 2.1). Casglodd yr astudiaeth ddata yn ymwneud â phrofiadau dysgu yn ystod cyfnod cychwynnol y cyfyngiadau symud (cyfyngiadau symud 1, mis Mawrth 2020 – mis Mehefin 2020) ac ailagor ysgolion yn raddol (Mehefin - Gorffennaf 2020). I raddau llai, mae'r data hefyd yn berthnasol i'r cyfnod roedd ysgolion ar agor (mis Medi - mis Rhagfyr 2020, pan fu ysgolion yn ynysu dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn ac unigolion o ganlyniad i achos positif o Covid-19), ac ail gyfnod y cyfyngiadau symud cenedlaethol (o fis Ionawr 2021). Roedd y cyfnod casglu data yn ymwneud â newidiadau cyflym mewn darpariaeth ar gyfer dysgu yn ein system addysg. Mae'r data'n darparu cipolwg ar randdeiliaid mewn ysgolion (dysgwyr, rhieni, athrawon ac arweinwyr) sy'n rhoi enghraifft o amrywiaeth eang o brofiadau dysgu yn ystod pandemig Covid-19.

**1.2** Wrth adrodd ar yr astudiaeth, mae'r tîm ymchwil yn ystyried geiriau yn adroddiad terfynol Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (2021):

> ‘Camau cadarnhaol ymlaen: Mae cydnabod effaith Covid-19 ar ein plant a'n pobl ifanc, a sut mae wedi tarfu ar eu bywydau, yn hanfodol. Ond mae cydbwysedd pwysig i'w daro rhwng cydnabod hyn a mynd i'r afael â’r mater, a hyrwyddo negeseuon llawer mwy cadarnhaol am wytnwch plant a phobl ifanc a'u cyfleoedd at y dyfodol. Rhaid defnyddio naratif ac iaith arall fel mater o flaenoriaeth, yn hytrach na sôn am “golli cyfleoedd dysgu” a'r angen i “ddal i fyny” (t.3).

**1.3** Cafodd y farn hon ei hadlewyrchu yng ngeiriau Geoff Barton, ysgrifennydd cyffredinol y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau ym mis Chwefror 2021

mewn erthygl yn y Times Educational Supplement, yn myfyrio ar ddychwelyd i'r 'normal newydd' ar ôl yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol ledled y DU:

> '… in the meantime, I'm not sure that all the catastrophic language about a "damaged generation" or talk of apocalyptic levels of lost learning is doing any of us any good – certainly not our children and young people, who must feel they are about to be consigned to a never-ending hamster wheel of narrowed curriculum and mandatory catch-up clubs' .... 'Instead of fixating on a deficit model of learning, I hope we'll focus on the quality of what young people need, rather than the quantity'.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn nodi felly fod anfanteision ym maes dysgu yn bresennol cyn pandemig Covid-19; nid yw'r syniad o 'anfantais newydd' felly yn fuddiol felly yn ôl pob tebyg. Yr hyn y mae'r prosiect hwn wedi'i wneud yw darparu llwyfan ar gyfer mwy o ymwybyddiaeth o ehangder ac amrywiaeth yr anfantais sy'n bodoli ymhlith ein dysgwyr. Mae rhai o'r anfanteision hyn wedi'u dwysáu gan y pandemig, ac mae ambell un wedi'i lleddfu ganddo. Hoffai'r tîm ymchwil nodi bod y data yn cynnwys llawer iawn o negeseuon cadarnhaol am ysgolion, athrawon a'r cymorth a gynigiwyd ganddynt i'w dysgwyr drwy gydol y pandemig.

**Cefndir**

**1.5** Roedd cau ysgolion i'r boblogaeth gyffredinol o ganlyniad i gyfyngiadau symud Covid-19, o fis Mawrth 2020, wedi arwain at gyfyngu ar gyswllt disgyblion â'u hathrawon, darpariaeth amrywiol o ran y cwricwlwm amrywiol, ansicrwydd ynghylch faint o 'ddysgu yn y cartref' a wnaed, a hyn oll yn ystod cyfnod o aflonyddu personol a chyhoeddus sylweddol. Ceisiodd nifer o astudiaethau yn ystod y misoedd dilynol fesur effaith cau'r ysgolion, symud i ddysgu o bell ar-lein, ac yna ailagor ysgolion i ddisgyblion, yn enwedig y rhaid y nodwyd eu bod yn 'ddifreintiedig'. Er bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau bod dysgu yn gwneud "cynnydd ystyrlon" (Llywodraeth Cymru, 2020b: 8) drwy gydol y cyfnod y bu'r ysgolion ar gau a'r cyfnod roeddent yn ailagor yn raddol, mewn gwirionedd, bu nifer sylweddol o rwystrau i ddisgyblion ac athrawon eu goresgyn. Yn ôl arolwg Comisiynydd Plant Cymru (2020, t.20) a ystyriodd brofiad fwy na 23,700 o blant a phobl ifanc rhwng 3 a 18 oed yng Nghymru dros bythefnos yn ystod y pandemig, roedd heriau i ddysgu yn

ymwneud â 'mynediad at ddyfeisiau electronig a phwysau yn amgylchedd y cartref'. Canfu'r ymchwil fod plant eisiau mwy o gyswllt a chymorth gan yr ysgol mewn cysylltiad â dysgu ar-lein (2020). Nododd plant â dyslecsia (2020) ei bod yn anodd cael mynediad at ddysgu drwy destun, roedd yn anodd i blant ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASD) heb drefn ddyddiol yr ysgol, ac roedd canfyddiad cyffredinol o golli cyfleoedd dysgu a chael eu hynysu oddi wrth eu ffrindiau. Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr hefyd fuddion dysgu sgiliau newydd a rhyddhad o 'anawsterau iechyd meddwl neu fwlio' (2020,t.5). Drwy gydol y cyfyngiadau symud, roedd ysgolion yn dal i weithredu fel hyb i blant gweithwyr allweddol a'r rhai y nodwyd eu bod yn 'agored i niwed', ac roeddent yn hanfodol wrth sicrhau bod teuluoedd y mae eu plant yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn dal i gael y prydau roedd ganddynt yr hawl iddynt, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r haf. Roedd heriau sylweddol ynghlwm wrth gyflawni'r tasgau hyn. I weld enghraifft o hyn, gweler Thomson (2020) am drosolwg o effaith hyn ar ysgolion yn Lloegr.

**1.6** Amcangyfrifir bod y mwyafrif o ddisgyblion ledled y DU wedi colli allan ar tua 12 wythnos (gweler ffigur 1) o ddysgu wyneb yn wyneb yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol (Royal Society DELVE Initiative, 2020; Sharp et al, 2020), er bod llawer wedi treulio amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth ers hynny, oherwydd protocolau ynysu. Canfu arolwg o Benaethiaid a gynhaliwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) fod y rhan fwyaf o athrawon yn addysgu llai o'r cwricwlwm a bod disgyblion yn cwblhau llai o waith nag arfer (Royal Society DELVE Initiative, 2020). Mae athrawon yn Lloegr yn nodi eu bod yn addysgu 66% yn llai o'r cwricwlwm arferol ar gyfartaledd, ac mae 98% yn nodi bod eu disgyblion ar ei hôl hi o gymharu â ble y byddent yn disgwyl iddynt fod fel arfer ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2019-20 (Sharp et al, 2020). Yn yr un modd, roedd yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud yn golygu bod y rhan fwyaf o ysgolion ar gau am 3 mis. Fodd bynnag, â phrofiadau dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol a'r cyfnod dilynol o ailagor ysgolion yn raddol mae'r astudiaeth hon yn ymdrin yn fwyaf uniongyrchol.

**1.7** Dadleuir bod cau ysgolion wedi effeithio'n negyddol ar ddisgyblion a hynny o ran amrywiaeth o faterion, gan gynnwys 'colli cyfleoedd dysgu', datblygiad gwybyddol ac academaidd, iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles (Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF), 2020a; Pensiero et al, 2020; Royal Society DELVE Initiative, 2020; Llywodraeth Cymru (2020c). Canfu astudiaethau y bu'r effeithiau negyddol yn

fwy dwys i ddisgyblion y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu dan anfantais a, dadleuir y bydd hyn wedi dwysáu'r anghydraddoldebau a welir eisoes yn yr ystafell ddosbarth (EEF, 2020a; Royal Society DELVE Initiative, 2020; Llywodraeth Cymru, 2020a; Llywodraeth Cymru, 2020). Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu, yn y DU, fod plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn wynebu mwy o risg o syrthio y tu ôl â'u haddysg o gymharu â'u cymheiriaid (EEF, 2020a; Lucas et al, 2020; Pensiero et al, 2020; Williams, 2020). Mae 61% o athrawon yn nodi bod y bwlch dysgu rhwng disgyblion dan anfantais a'u cymheiriaid wedi ehangu ers y flwyddyn flaenorol (Sharp et al, 2020). Roedd adroddiad interim gan SCYA (Rose et al., 2021, t.1), yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad a lles economaidd-gymdeithasol yng Nghyfnod Allweddol (CA) 1, yn ceisio meintioli'r 'colli cyfleoedd dysgu' cyffredinol o ganlyniad i golli ysgol yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig (gwanwyn a haf 2020). Mae eu canfyddiadau rhagarweiniol (2021), yn yr un modd â chanfyddiadau Renaissance Learning a'r Sefydliad Polisi Addysg ar gyfer yr Adran Addysg (2021), yn tynnu sylw at gyflawniad cyffredinol sylweddol is oherwydd bod ysgolion wedi cau ac yn benodol, fod dysgwyr a oedd eisoes yn wynebu anfantais yn syrthio ymhellach y tu ôl i'w cymheiriaid (Rose et al., 2021). Mae canfyddiadau ymchwil hefyd yn awgrymu bod disgyblion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu anfantais anghymesur o ran cynnydd yn y cwricwlwm yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau (Sharp et al, 2020). Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fwy tebygol o ddioddef anawsterau iechyd meddwl o ganlyniad i gau ysgolion ac ymddengys bod effeithiau iechyd meddwl yn amlycach ymhlith disgyblion uwchradd na disgyblion cynradd (EEF, 2020a; Williams, 2020).

**1.8** Bydd gwahaniaethau rhwng teuluoedd a'u sefyllfaoedd cartref penodol wedi effeithio ymhellach ar allu plant a'u gallu i barhau â'u haddysg yn ystod y cyfyngiadau symud. Bydd profiad byw teuluoedd yn ystod y cyfnod y bu ysgolion ar gau wedi cael effaith fawr ar ddysgu a lles plant, ac mae'n bosibl y bydd manylion penodol y profiad hwnnw wedi arwain at a/neu waethygu anghydraddoldebau (Royal Society DELVE Initiative, 2020). Er enghraifft, mynediad anghyfartal at dechnoleg, dealltwriaeth o'r tasgau a bennwyd gan athrawon, mynediad at adnoddau ychwanegol, a'r gwahaniaethau yn yr amser a oedd ar gael i rieni/gofalwyr i gefnogi dysgu yn y cartref (Royal Society DELVE Initiative, 2020). Mae ymchwil a gynhaliwyd gan yr IFS yn amcangyfrif mai dim ond 50% o rieni a

oedd yn gweithio ym mis Chwefror 2020 oedd yn dal i wneud ei swydd ym mis Mai, tra bod eraill wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, wedi ymddiswyddo neu bellach allan o waith yn barhaol (Andrew et al, 2020). Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu straen a bydd hyn yn effeithio ar les oedolion a phlant.

**1.9** Mae'n werth nodi na all yr effaith negyddol ar ddisgyblion gael ei phriodoli'n gyfan gwbl i gau ysgolion am y bydd mesurau cyfyngiadau symud wedi cael effaith ddilynol. Er enghraifft, ynysu rhag ffrindiau a theulu, gorbryder ynghylch iechyd, cael eu cyfyngu i'r cartref, a lles ac iechyd meddwl rhieni (Williams, 2020). At hyn, mae angen ystyried y cysyniad o 'anfantais' am fod hyn yn aml yn cael ei ddefnyddio fel ffordd llaw fer o ddisgrifio disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (sydd ynddi'i hun yn arwydd o lefelau economaidd-gymdeithasol), disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion o dras Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Mae'n bosibl iawn y bydd effaith y pandemig ar iechyd a lles, a'r ddibyniaeth ar dechnoleg a chymorth rhieni er mwyn i ddisgyblion barhau i ddysgu'r cwricwlwm yn datgelu anfanteision pellach nad ystyriwyd cyn hyn.

**1.10** At hyn, mae ymchwil yn dangos ei bod yn bosibl bod dysgu o bell effeithiol wedi lliniaru rhywfaint o'r dysgu a gollwyd a'r anghydraddoldebau canlyniadol (EEF, 2020b). Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y gall y symud i ddarpariaeth ar-lein fod wedi ehangu'r bwlch ac wedi gwaethygu'r anfantais (Doucet et al, 2020). Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan SCYA er bod athrawon yn poeni am ymgysylltiad eu holl ddisgyblion dan anfantais, eu bod yn poeni'n arbennig am ymgysylltiad isel ymhlith disgyblion heb lawer o fynediad at TG a/neu le i astudio (Lucas et al, 2020).

**1.11** Yn ogystal â materion mynediad, bydd amrywiaeth eang yng nghyfanswm ac ansawdd addysgu o bell a chymorth ar gyfer dysgu yn y cartref (Andrews et al, 2020; Royal Society DELVE Initiative, 2020). Roedd Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth ar Ddysgu o Bell a gynhaliwyd gan yr EEF (2020b) wedi nodi nifer o ddulliau effeithiol o ddysgu o bell a fyddai yn helpu i liniaru'r effeithiau negyddol bosibl ar ddysgwyr yn sgil cau ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod addysgu yn effeithiol ac yn cynnwys esboniad clir, sgaffaldio ac adborth; sicrhau mynediad i dechnoleg, yn enwedig i'r disgyblion hynny y nodwyd eu bod dan anfantais; a hwyluso rhyngweithio rhwng cymheiriaid wrth ddysgu o bell er mwyn gwella cymhelliant a chanlyniadau (EEF, 2020b). Mae'r argymhellion hefyd wedi'u cefnogi

gan ymchwil a gynhaliwyd gan Doucet et al (2020). Fodd bynnag, er bod y datganiadau cryno yn cynnig canllaw defnyddiol, maent yn disgrifio senarios cyffredinol, delfrydol sy'n tybio bod plentyn o oedran a gallu penodol, a sefyllfaoedd cartref/teuluol homogenaidd, ac nad ydynt yn ystyried yr amrywiaeth ddi-ben-draw o sefyllfaoedd unigol. At hyn, fel y mae'r EEF (2020b) yn ei ddadlau yn yr adolygiad hwn, mae disgyblion yn ymateb i wahanol ddulliau gweithredu a chynnwys o ran dysgu o bell. Felly mae'r pwyslais yma ar gefnogi athrawon i ddatblygu ac atgyfnerthu dysgu proffesiynol ynghylch dylunio a darparu cyfleoedd dysgu o bell. Gellid dadlau bod y dysgu o bell a ddarparwyd yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud wedi bod yn fwy rhugl a hyderus na'r hyn a gafwyd yn ystod y cyfnod cychwynnol, a bod y profiadau dysgu cydamseredig wedi bod yn sylweddol yn hyn o beth. Casglodd yr astudiaeth hon y data mwyaf perthnasol i'r profiadau dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf.

**1.12** Yn dilyn y cyfyngiadau symud cychwynnol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mehefin 2020 (gweler ffigur 2.1), rhwng diwedd mis Mehefin a chanol mis Gorffennaf 2020, cynigiodd ysgolion yng Nghymru gyfleoedd i ddysgwyr fynychu sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' (Llywodraeth Cymru, 2020c). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfennau canllaw i ysgolion statudol a oedd yn trafod gweithrediadau (Llywodraeth Cymru, 2020c), dysgu (Llywodraeth Cymru, 2020b), a chymorth penodol i 'ddysgwyr agored i niwed a dan anfantais' (Llywodraeth Cymru, 2020a). O ran dysgu, roedd y pwyslais ar feithrin dull cydgysylltiedig rhwng y cartref a'r ysgol, ac i ysgolion feithrin dealltwriaeth ac iaith gyffredin â rhieni, gofalwyr a dysgwyr; a all helpu i ategu a chefnogi profiadau dysgu (Llywodraeth Cymru, 2020b: 4-5). Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi eirioli o blaid cynnwys rhieni yn y dysgu. Ymddengys fod y gydberthynas hon rhwng y cartref a'r ysgol yn allweddol, fel yr oedd yn ystod y cyfyngiadau symud, ac eto nid yw'r gydberthynas hon wedi ei hystyried hyd yma mewn astudiaethau ymchwil. Mae llawer o'r canfyddiadau a amlinellir uchod yn darparu cyd-destun cyffredinol defnyddiol a data ar lefel y boblogaeth. Nid oes llawer ohonynt yn canolbwyntio yn benodol ar y sefyllfa yng Nghymru. At hyn, ar yr adeg y comisiynwyd yr ymchwil hon, nid oedd unrhyw astudiaethau a oedd yn ystyried profiad disgyblion, rhieni ac athrawon o ran cau ysgolion a'u hailagor yn raddol, ac ni chafwyd ychwaith drafodaeth sylweddol ar natur anfantais yn y cyd-destun hwn. Roedd yr ymchwil hon yn ceisio mynd i'r afael

â'r bylchau hyn a chyfleu'r profiadau o ddysgu yn ystod cyfnodau cychwynnol y pandemig drwy gynhyrchu data yn seiliedig ar brofiad, a fydd yn rhoi mewnwelediad er mwyn llywio darpariaeth yn y dyfodol.

**1.13** Nodau ymchwil yr astudiaeth hon oedd:

- **Ystyried, yng nghyd-destunau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac o safbwyntiau rhanddeiliaid, brofiadau dysgwyr, yn enwedig y rhai yr ystyrir eu bod dan anfantais, pan oedd ysgolion ar gau yn ystod pandemig COVID-19 ac wrth eu hailagor;**
- **Ystyried natur yr anfantais a wynebwyd gan ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn ac unrhyw effeithiau gwahaniaethol canfyddedig ar grwpiau o ddysgwyr;**
- **Ystyried dysgu penodol o'r astudiaeth hon i'w integreiddio i raglenni AGA a'i rannu ymhlith rhwydweithiau partner.**

### Cwestiwn ymchwil

Y cwestiwn ymchwil trosfwaol ar gyfer yr astudiaeth yw:

**Beth fu profiad dysgwyr, yn enwedig y rhai yr ystyrir eu bod dan anfantais, pan oedd ysgolion ar gau yn ystod pandemig COVID-19 ac wrth eu hailagor?**

### Trosolwg o'r adroddiad hwn

**1.14** Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r **Fethodoleg** y cytunwyd arno gan y tri Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a ddatblygwyd yn unol â gofynion yr alwad ymchwil. Dilynir hyn gan adran **Canfyddiadau** sy'n archwilio'r data, a daw i ben gyda chrynodeb sy'n coladu'r data ac yn ymateb i'r cwestiynau ymchwil a bennir. Mae'r adran **Prif Ganfyddiadau** yn nodi canfyddiadau allweddol yr ymchwil. Ar ddiwedd y ddogfen, cyflwynir **argymhellion** i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru, Ysgolion, darparwyr AGA a Chonsortia.

## 2. Methodoleg

### Trosolwg

**2.1** Mabwysiadodd yr astudiaeth hon ddyluniad ymchwil sy'n ymgorffori astudiaethau achos, oedd yn ansoddol ei natur er mwyn sicrhau bod y set ddata yn cynnwys profiadau rhanddeiliaid. Mae hyn yn golygu bod yr un adnoddau ymchwil ar gael ym mhob un o'r achosion, hynny yw, ar gyfer pob ysgol a oedd yn rhan o'r prosiect. Casglwyd y data mewn dau gam. Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r camau gael eu cynnal cyn ac ar ôl cyfnod gwyliau Rhagfyr 2020/Ionawr 2021. Roedd adnoddau ymchwil yng ngham 1 yn cynnwys cyfweliadau ag uwch-arweinwyr, arolygon athrawon a rheini a chwblhau tasgau dysgwyr. Roedd cam 2 yn cynnwys trafodaethau grŵp a chyfweliadau â rhanddeiliaid. Roedd cam 2 hefyd yn cynnwys cydweithredu â chydweithwyr partneriaeth AGA er mwyn ystyried arwyddocâd y canfyddiadau i raglenni AGA. Mae'r amserlen a'r naratif cysylltiedig a nodir isod yn egluro'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn rhoi'r prosiect ar waith o ganlyniad i'r pandemig parhaus a chau ysgolion o fis Ionawr 2021. Cynhaliwyd yr holl broses casglu data ar gyfer y prosiect hwn o bell.

**2.2** Mae dyluniad yr ymchwil yn caniatáu i'r astudiaeth gael ei hatgynhyrchu. Fodd bynnag, oherwydd ei natur ansoddol mae'r tîm ymchwil yn cydnabod bod yr ymatebion yn darparu cipolwg o leisiau rhanddeiliaid, a gofnodwyd ar amser penodol yn ystod cyfnod o newid parhaus a chyflym o ganlyniad i bandemig Covid-19. Er na fyddem yn honni bod y canfyddiadau yn berthnasol yn gyffredinol y tu hwnt i'r ysgolion astudiaeth achos, rydym yn dadlau'n gryf nad oes unrhyw reswm i ddisgwyl y byddai unrhyw un o'r ysgolion hyn yn profi unrhyw beth na chafodd ei brofi mewn rhyw ffordd mewn mannau eraill ym mhob rhan o system addysg Cymru. Byddem yn dadlau felly, fod dilysrwydd i'r canfyddiadau ar yr wyneb, ac y dylent daro tant a theimlo'n gyfarwydd i'r rhai sy'n ymwneud ag addysg ar yr adeg hon. Bwriad y tîm ymchwil wrth fabwysiadu dull astudiaethau achos oedd y byddai hynny'n rhoi llwyfan i brofiadau a lleisiau amrywiol dysgwyr, rheini, gofalwyr, athrawon, staff cymorth ac arweinwyr. Y gobaith oedd y byddai'r astudiaeth hon yn cynnig dealltwriaeth ddyfnach o ddysgu ac anfantais yn ystod y pandemig nag y darperir gan yr ymchwil ansoddol raddfa fwy a nodir uchod. Roeddem am ddod â

phrofiad unigolion yn fyw, ac mae'r egwyddor hon wedi llywio ein dull o ddylunio ymchwil, gweithredu, dadansoddi ac adrodd.

**Samplu**

**2.3** Wrth ddyfeisio'r sampl o ysgolion astudiaeth achos, cytunodd y tîm prosiect y byddai pob prifysgol yn gweithio o fewn ei phartneriaeth AGA cyn belled ag y byddai hyn yn bosibl. Cytunwyd y byddai pob prifysgol yn ceisio recriwtio pedair neu bum ysgol a oedd yn cyd-fynd â phroffil y cytunwyd arno ymlaen llaw. Cafodd y proffil ar gyfer y gyfres o ysgolion astudiaeth achos yn ei chyfanrwydd ei dylunio i adlewyrchu amrywiaeth eang o ysgolion yn ôl daearyddiaeth, iaith cyfarwyddyd, maint a cham. Yn ogystal â'r amrywiaeth hon, gwnaethom geisio sicrhau bod y sampl yn cynnwys nifer anghymesur o ysgolion a oedd yn darparu ar gyfer dysgwyr ag ADY y tu allan i ddarpariaeth brif ffrwd. Roedd hwn yn gam bwriadol a ddyluniwyd i fodloni nodau'r prosiect.

**2.4** Cafodd ysgolion eu nodi drwy broses o samplu pwrpasol, naill ai o'r partneriaethau AGA neu i fodloni'r proffil y cytunwyd arno ar gyfer sampl yr astudiaeth achos (h.y. ysgolion sy'n gysylltiedig â darpariaeth AGA, yn unol â chylch gwaith Llywodraeth Cymru, ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ysgolion Cynradd, ysgolion Uwchradd, ysgolion 3-19 ac ysgolion arbennig). Gwahoddwyd yr ysgolion hyn i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Yn y lle cyntaf, cytunodd 14 o ysgolion i gymryd rhan. Fodd bynnag, tynnodd dwy ohonynt yn ôl cyn i unrhyw ddata gael eu casglu oherwydd pwysau'r pandemig ac effaith gysylltiedig ar amser staff. Arhosodd dwy ysgol arall yn rhan o'r astudiaeth am elfennau penodol o'r broses casglu data, ond ni wnaethant gymryd rhan mewn arolygon rhieni ac athrawon na chyfweliadau/grwpiau ffocws oherwydd pryderon am bwysau a llwythi gwaith ychwanegol ar y grwpiau hyn.

**2.5** Mae'r sampl ganlyniadol wedi'i chrynhoi yn nhabl 2.1:

**Tabl 2.1: Trosolwg o'r sampl o ysgolion astudiaeth achos gyda niferoedd ymateb**

| Cod yn yr adroddiad Ysgol | Daearyddiaeth: | Maint | Cyfrwng yr addysg a ddarperir: | Math o ysgol* | Adnoddau casglu data: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfweliad yr uwch-dîm arwain | Arolwg rhieni | Arolwg athrawon | Tasg dysgwr | Cyfweliad â rhieni | Grŵp ffocws |
| Ysgol A | Trefol | <500 | Memorandwm Esboniadol | Cynradd 3-11 | 1 | 51 | 33 | DD/G | 3 | DD/G |
| Ysgol B | Trefol | >500 | Memorandwm Esboniadol | Cynradd 3-11 gyda STF | 2 | 74 | 54 | 6 | 5 | DD/G |
| Ysgol C | Trefol | >500 | Cymraeg | Ysgol pob oed 3-19 | 1 | DD/G | DD/G | DD/G | DD/G | DD/G |
| Ysgol D | Gwledig | <>100 | Dwyieithog | Arbennig/ADY | 1 | 10 | 22 | 24 | 5 | 6 Athro |
| Ysgol E | Gwledig | <>100 | Dwyieithog | Arbennig/ADY | 1 | 12 | 11 | 18 | 4 | 4 |
| Ysgol F | Trefol | <>100 | Dwyieithog | Arbennig/ADY | 1 | DD/G | DD/G | 18 | DD/G | DD/G |
| Ysgol G | Gwledig | <>100 | Dwyieithog | Arbennig/ADY | 1 | 11 | 25 | 21 | 5 | 2 Athro |
| Ysgol H | Gwledig | >500 | Dwyieithog | Ysgol pob oed 4-18 | 1 | 39 | 16 | 18 | 4 | 4 Athro |
| Ysgol I | Gwledig | <500 | Memorandwm Esboniadol | Cynradd 3-11 | 1 | 6 | 2 | 10 | 1 | 4 Athro |
| Ysgol J | Gwledig | >500 | Dwyieithog | Uwchradd 11-16 | 1 | 16 | 10 | 36 | 4 | Athro (x4) |
| Ysgol K | Gwledig | >500 | Dwyieithog | Ysgol pob oed 4-18 | 1 | 76 | 26 | 25 | 3 | 5 Athro |
| Ysgol L | Gwledig | <500 | Cymraeg | Cynradd 3-11 | 1 | 11 | 5 | 3 | 2 | 3 Athro |

* Arbennig; gyda chyfleuster addysgu arbenigol (STF); Cynradd 3-11; Uwchradd 11-16; Ysgol pob oed 3-19/4-18

2.6 Mae'r tîm ymchwil yn cefnogi canfyddiadau'r ymchwil, gan gydnabod y cyfyngiadau a berir gan natur y sampl ddata, yr amrywiadau yn y gyfradd ymateb rhwng ysgolion, a natur hunan-ddethol ymatebion rhieni.

**Adnoddau ymchwil**

2.7 Cafodd yr adnoddau hyn eu dyfeisio'n gydweithredol gan y tîm ymchwil. Yr egwyddor arweiniol yn nyluniad yr adnoddau ymchwil oedd y nod o gofnodi llais rhanddeiliaid o'r ysgolion astudiaeth achos. Roedd hyn yn golygu ein bod yn chwilio am ddata cyfoethog, cyfrifon naratif gyda manylion disgrifiadol. O ganlyniad, gwnaethom ddefnyddio adnoddau ymchwil ansoddol, wedi'u dylunio i ganiatáu i ymatebwyr nodi eu profiadau a'u canfyddiadau mor agored â phosibl.

2.8 I ddechrau, cafodd cronfa o gwestiynau ei choladu drwy broses ailadroddol o drafod a phrofi gan y tîm prosiect er mwyn sicrhau y byddai data a gasglwyd yn ymateb i'r cwestiwn ymchwil trosfwaol a phob un o is-gwestiynau'r ymchwil. Roedd y gronfa o gwestiynau yn cynnwys yr holl gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn i unrhyw randdeiliad drwy gydol y broses o gasglu data. Cafodd y gronfa gwestiynau ei thablu er mwyn nodi pa gwestiynau fyddai'n cael eu gofyn i ba randdeiliad. Y gronfa o gwestiynau wedi'i thablu a lywiodd datblygiad pob un o'r adnoddau ymchwil.

2.9 Cafodd yr adnoddau ymchwil eu creu i gael eu defnyddio yn gyfan gwbl o bell. Hynny yw, ni wnaethom gynllunio ar gyfer unrhyw brosesau casglu data wyneb yn wyneb. I gychwyn, tasg y dysgwr oedd cynnwys tasg wedi'i chyfryngu gan athro yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau symud 2 (gweler ffigur 1) yn golygu nad oedd hyn yn bosibl ar gyfer y rhan fwyaf o'r ysgolion astudiaeth achos a chafodd y dasg ei hailddylunio i gael ei chyfryngu gan rieni fel rhan o ddysgu yn y cartref. Cytunodd y tîm ymchwil ar brotocol casglu data a'i rannu ymhlith yr ymchwilwyr a oedd yn casglu data. Cafodd yr holl ddata ar gyfer pob ysgol astudiaeth achos eu dal gan y Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a recriwtiodd yr ysgol honno i'r prosiect. Crëwyd arolygon ar adnodd arolygu pob Sefydliad Addysg Uwch, gyda chynnwys wedi'i ailadrodd ym mhob un er cysondeb. Ni luniwyd cytundeb rhannu data ymhlith y Sefydliadau Addysg Uwch fel rhan o'r prosiect hwn.

Cyflogwyd staff dwyieithog i weithio gyda lleoliadau cyfrwng Cymraeg; cafodd yr holl ddata eu cadw yn newis iaith y rhanddeiliaid drwy gydol y broses ddadansoddi ac adrodd er mwyn cofnodi lleisiau'r cyfranogwyr yn uniongyrchol.

**Cam 1**

*Cyfweliadau ag uwch-arweinwyr:*

**2.10** Cafodd yr amserlen cyfweliadau ar gyfer uwch-arweinwyr ei chreu o'r gronfa gwestiynau. Cynhaliwyd gwiriadau synnwyr cyffredin ymhlith y tîm prosiect, yn Gymraeg ac yn Saesneg, cyn cynnal unrhyw gyfweliadau. Bwriadwyd i'r amserlen gyfweliadau gael ei defnyddio fel canllaw, hynny yw, cafodd y cyfweliadau eu strwythuro'n rhannol o gwmpas y 12 cwestiwn a restrwyd a'r promptiau cysylltiedig a ddarparwyd. Cafodd pob cyfweliad ei gynllunio i bara rhwng 45-60 munud.

**2.11** Dyluniwyd y cyfweliad i gael ei gynnal ar-lein drwy feddalwedd Microsoft Teams, ar adeg sy'n gyfleus i aelod o'r Uwch-dîm Arwain. Cafodd pob cyfweliad ei recordio gan ddefnyddio cyfleuster recordio Microsoft Teams a'i drawsgrifio. Cafodd y trawsgrifiad ei gwblhau naill ai â llaw neu drwy gymhwysiad trawsgrifio Microsoft Teams, air am air at ei gilydd. Gallai ymchwilydd benderfynu peidio â thrawsgrifio adran benodol o'r cyfweliad pan oedd y sgwrs wedi crwydro oddi wrth ffocws y cyfweliad. Cafodd y trawsgrifiadau eu gwneud yn iaith y cyfweliad ac ni chawsant eu cyfieithu.

**2.12** Gofynnwyd i bob ysgol astudiaeth achos nodi aelod priodol o'r uwch-dîm arwain ar gyfer y cyfweliad hwn, o gofio bod y ffocws ar brofiadau dysgwyr yn ystod y pandemig; roedd yr unigolion hyn yn cynnwys y pennaeth, y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), y dirprwy a'r penaethiaid cynorthwyol.

*Arolygon athrawon a rhieni:*

**2.13** Cafodd pob arolwg ei greu gan ddefnyddio cwestiynau o'r gronfa gwestiynau. Yn ogystal, casglwyd manylion ymatebwyr anhysbys at ddibenion cynnal dadansoddiad manwl yn y dyfodol. Mae tîm y prosiect yn nodi nad oedd angen data trawstoriadol yn unol â nodweddion ymatebwyr at ddibenion yr adroddiad prosiect hwn, ac nid oedd ychwaith yn ddichonadwy o ystyried cyllideb y prosiect a'r amserlen adrodd.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y dadansoddiad data manwl hwn yn bosibl yn y dyfodol. Cynhaliwyd gwiriadau synnwyr cyffredin ar destun yr arolwg ymhlith y tîm prosiect, yn Gymraeg ac yn Saesneg, cyn creu'r arolygon gan ddefnyddio adnoddau arolygu'r Sefydliadau Addysg Uwch perthnasol. Roedd pob Sefydliad Addysg Uwch wedi creu'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ddewis llwyfan arolwg y sefydliad.

Tabl 2.2: Trosolwg o'r llwyfannau arolygu a ddefnyddiwyd gan bob sefydliad.

| Prifysgol | Llwyfan arolygu |
|---|---|
| Aberystwyth | JISC ar-lein |
| Bangor | JISC ar-lein |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Qualtrics |

- Cafodd yr arolwg ei beilota gan ymchwilwyr o dimau ymchwil y Sefydliadau Addysg Uwch cyn ei ryddhau i'r ysgolion.

**2.14** Gofynnwyd i bob ysgol astudiaeth achos anfon dolen i'r arolwg athrawon at staff yr ysgol a oedd yn ymwneud ag addysgu a chefnogi dysgu yn yr ysgol, drwy e-bost at eu cyfrifon e-bost proffesiynol.

**2.15** Gofynnwyd i bob ysgol astudiaeth achos anfon dolen i'r arolwg rhieni at bob rhiant a gofalwr sydd wedi'i gofrestru â'r ysgol drwy'r dulliau cyfathrebu electronig arferol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Roedd hyn yn amrywio ymhlith yr ysgolion astudiaeth achos. Roedd rhai ysgolion yn defnyddio system e-bost, ac roedd eraill yn defnyddio WhatsApp, SeeSaw a DoJo. Roedd rhai ysgolion yn defnyddio mwy nag un system i gysylltu â rhieni ar gyfer dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn gwahanol. Arhosodd yr arolygon ar agor am 4-6 wythnos gan ddibynnu pryd y cawsant eu hanfon. Arhosodd y rhai a gafodd eu hanfon cyn gwyliau'r gaeaf ar agor am gyfnod wedyn.

**2.16** Ar ôl cwestiynau caeedig, byr yn ymwneud â nodweddion yr ymatebwyr, gwahoddwyd y cyfranogwyr i ymateb i gyfres o gwestiynau penagored drwy ysgrifennu eu hatebion yn y blychau ymateb; gellid gwneud hyn ar PC, gliniadur, llechen neu ddyfais ffôn clyfar. Gofynnwyd 10 cwestiwn penagored i'r staff addysgu/dysgu a gofynnwyd 6 chwestiwn penagored i'r rhieni/gofalwyr. Gwahoddwyd y ddau grŵp o ymatebwyr i ddarparu cyfeiriad e-bost neu rif ffôn os

oeddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad pellach neu drafodaeth grŵp fel rhan o'r broses ymchwil. Roedd ymatebwyr yn rhydd i hepgor cwestiynau a chyflwyno ymateb rhannol i'r arolwg os oeddent yn dymuno.

**2.17** Cafodd data eu lawrlwytho i daenlenni cyn y dadansoddiad a chafodd y data eu cadw yn newis iaith yr ymatebwr.

*Tasgau dysgwyr:*

**2.18** Roedd y tîm ymchwil yn awyddus i ddefnyddio adnodd syml i gipio data gan ddysgwyr a oedd yn addasadwy ar gyfer pob oedran. Roeddem am gynnal ffocws ar ddysgu yn y dasg i ganolbwyntio ar ddysgu ac osgoi unrhyw awgrym ein bod ond â diddordeb mewn profiadau negyddol. Gofynnwyd i ddysgwyr felly gyflawni'r dasg ganlynol: Tynnwch lun neu ysgrifennwch am y ddau beth gorau a'r ddau beth gwaethaf am ddysgu yn y cartref pan oedd eich ysgol ar gau.

**2.19** Cafodd y dasg ei chyfryngu gan athrawon pan oedd ysgolion ar agor cyn gwyliau'r gaeaf (gweler ffigur 2.1) a'i chyfryngu gan rieni yn dilyn e-bost gan yr ysgol yn ystod cyfyngiadau symud 2. Mae'r materion yn ymwneud â chydsyniad ar gyfer cyfranogiad dysgwyr, a amlinellir yn yr adran foeseg isod, yn nodi pam mai hon oedd yr agwedd anoddaf ar y broses o gasglu data.

**2.20** Cafodd ymatebion y dysgwyr i'r dasg eu cadw'n ddienw, a chymerwyd sganiau/ffotograffau ohonynt, a chawsant eu hanfon yn electronig i'r ymchwilydd cyswllt ar gyfer yr ysgol gan yr athro neu'r rhiant, gan ddibynnu pwy gyfryngodd y dasg. Cafodd oedran a rhyw y plentyn eu recordio ar gyfer pob ymateb.

**Cam 2**

*Cyfweliadau unigol â rhieni:*

**2.21** Y rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau unigol oedd y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod yn fodlon i'r tîm ymchwil gysylltu â nhw ar ôl cwblhau'r arolwg cyntaf. Cafodd y rhieni/gofalwyr hyn eu dewis er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o nodweddion yn cael eu cynrychioli fel amrywiaeth ysgolion (wedi'i chyfyngu gan barodrwydd cyfranogwyr i gymryd rhan); amrywiaeth o ran oedran/blwyddyn ysgol plant y

cyfranogwyr yn ôl sefydliad; ystyriaethau am nifer ac oedran plant o fewn teuluoedd; amrywiaeth o ran rhyw y cyfranogwyr; ystyriaethau iaith; ystyriaethau o anghenion disgyblion ac ystyriaeth o sylwadau cyffredinol a nodwyd yn yr holiadur.

**2.22** Roedd y dull gweithredu hwn o ran cyfranogiad yng ngham 2 yn golygu o reidrwydd mai dim ond yr unigolion hynny a ddewisodd gymryd rhan yn yr arolwg a'i gwblhau a gafodd gyfle i gymryd rhan. Rydym yn cydnabod bod y dull gweithredu hwn yn lleihau'r amrywiaeth o leisiau y byddwn yn ei chlywed yn y broses. Fodd bynnag, dilynwyd y dull gweithredu hwn yn unol â chanllawiau moesegol, ac er mwyn lleihau'r nifer o achlysuron yr eir ar ofyn rhieni yn ystod cyfnod o straen a phryder posibl.

**2.23** Cynhaliwyd cyfweliadau unigol â rhieni yn ystod cyfyngiadau symud 2, fel rhan o'r ail gam casglu data. Ar ddechrau'r prosiect ymchwil ni wnaethom ragweld y byddai ail gyfnod o gyfyngiadau symud yn y DU. Fodd bynnag, roedd amseriad y digwyddiad hwn (gweler ffigur 2.1) yn golygu ein bod wedi gallu ystyried ngwidiadau mewn profiadau dysgu rhwng y cyfyngiadau symud cyntaf a'r ail. Cafodd y cyfweliadau lled-strwythuredig â rhieni eu trefnu o gwmpas cwestiynau a oedd yn ystyried newid ym mhrofiadau dysgu a darpariaeth ysgol i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu anfantais.

**2.24** Lle y bo'n bosibl, cynhaliwyd cyfweliadau gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft Teams a chawsant eu recordio gan ddefnyddio'r cymhwysiad recordio. Lle y cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn, gwnaed recordiad ar ddyfais recordio llaw. Cafodd y trawsgrifiad ei wneud air am air yn newis iaith y cyfranogwr.

*Trafodaethau grŵp i athrawon:*

**2.25** Cynhaliwyd trafodaethau grŵp ag athrawon; cafodd yr athrawon hyn eu nodi naill ai am eu bod wedi dweud eu bod yn hapus i'r tîm ymchwil gysylltu â nhw ar ôl yr arolwg neu drwy gyswllt y prosiect yn yr ysgol. Fel arfer, roedd tua 4 yn cymryd rhan yn y trafodaethau grŵp, ond roedd y niferoedd yn amrywio o 2 – 6 o athrawon. Cynhaliwyd y trafodaethau grŵp hyn drwy Microsoft Teams a chawsant eu recordio.

*Cydweithredu â phartneriaethau AGA:*

**2.26** Roedd cam 2 hefyd yn cynnwys cydweithredu â rhanddeiliaid partneriaethau AGA. Cynhaliodd pob partneriaeth SAU y cydweithrediad hwn yn unol â dymuniadau'r bartneriaeth, ac felly dilynwyd amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdai i addysgwyr athrawon AGA, cyfweliadau unigol ag addysgwyr athrawon AGA a grwpiau ffocws gyda myfyrwyr AGA. Defnyddiwyd y trafodaethau cydweithredol hyn i lywio'r argymhellion yng nghasgliad yr adroddiad hwn.

**Prosesau moesegol**

**2.27** Cynhaliwyd y prosiect hwn ar y cyd gan dri Sefydliad Addysg Uwch. Cafodd cynnig y prosiect, y dyluniad ymchwil a'r adnoddau ymchwil eu cymeradwyo gan baneli moeseg pob prifysgol cyn casglu unrhyw ddata. Drwy gydol y prosiect, cynhaliwyd egwyddorion parch i gyfranogwyr, cydsyniad gwirfoddol ar sail gwybodaeth, cydsyniad parhaus, a thynnu yn ôl heb unrhyw ganlyniadau. Darparwyd taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr i bawb ar gyfer pob un o'r adnoddau ymchwil cyn ceisio cydsyniad. Ceisiwyd cydsyniad ar gyfer cyfranogiad dysgwyr gan rieni yn ogystal â dysgwyr eu hunain. Darparodd pob cyfranogwr gydsyniad cyn cymryd rhan yn y broses o gasglu data.

**2.28** Am fod yr holl gyfathrebu â chyfranogwyr yn cael ei gynnal drwy ddulliau o bell, roedd yn heriol cael cydsyniad ar gyfer cyfranogiad dysgwyr. Defnyddiwyd sawl dull er mwyn ceisio sicrhau'r graddau mwyaf posibl o gydsyniad ar gyfer cyfranogiad dysgwyr a bod cynifer o dasgau dysgwyr â phosibl yn cael eu dychwelyd. Cyn cyfyngiadau symud 2, anfonwyd dolen i'r arolwg drwy e-bost at rieni er mwyn iddynt roi cydsyniad i'w plentyn gymryd rhan. Casglwyd gwybodaeth o'r cyswllt hwn ynghyd i greu rhestr o blant a allai gyfranogi, a ofynnwyd wedyn gan eu hathrawon am ganiatâd i anfon eu deunydd at y tîm ymchwil. Roedd hon yn broses lafurus ac nid arweiniodd at nifer mawr o ymatebion i'r dasg dysgwyr. O fis Ionawr 2021, roedd yn rhaid addasu'r dull hwn am fod ysgolion wedi cau (gweler ffigur 2.1); gofynnwyd i'r rhieni gyfryngu'r tasgau dysgwyr. Cafodd y dasg wedyn ei chynnwys yn yr arolwg cydsyniad a gwnaeth y gyfradd ymateb wella yn sgil hyn, efallai am fod y rhieni yn rhan o addysgu yn y cartref yn barod, a bod y dasg dysgwyr yn cael ei chynnwys fel mater o drefn fel gweithgaredd dysgu arall wrth addysgu yn y cartref. Cafodd yr holl ddeunydd yn ymwneud â'r dasg dysgwyr ei drin yn ddienw gan y tîm ymchwil.

**Dadansoddi**

**2.29** Mae llawer o ddata yn gysylltiedig â'r prosiect ymchwil hwn. Roedd pob ysgol a gymerodd ran wedi cynhyrchu set ddata a allai gynnwys data yn deillio o unrhyw un o'r adnoddau ymchwil, neu bob un ohonynt. Mae'r data hwn yn seiliedig ar destun ac yn cynnwys lluniadau a deunydd ysgrifenedig y dysgwyr. Cafodd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws eu trawsgrifio at ddibenion dadansoddi.

**2.30** Bwriad y tîm ymchwil oedd cynhyrchu crynodeb disgrifiadol o set ddata'r prosiect a oedd yn pwysleisio profiadau amrywiaeth eang o randdeiliaid. Gan fod y dyluniad ymchwil yn ceisio tynnu sylw at leisiau rhanddeiliaid am eu profiadau eu hunain o ddysgu yn ystod y pandemig, dyluniwyd y broses o ddadansoddi ac adrodd er mwyn sicrhau bod y lleisiau hyn yn aros yn amlwg.

**2.31** Cafodd y set ddata ei dadansoddi drwy broses ddadansoddi thematig. Ar gyfer pob ysgol, cynhaliwyd proses codio anwythol cynnar ar gyfer y set ddata. Cafodd y codau cynnar hyn eu rhannu ymhlith timau ymchwil y Sefydliadau Addysg Uwch a oedd yn cymryd rhan, a chytunwyd ar chwe thema drosfwaol. Dyma'r themâu; mynediad i dechnoleg; yr amgylchedd dysgu yn y cartref; darpariaeth ysgol; argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol; iechyd meddwl a lles; a dysgu a chynnydd academaidd.

**2.32** Cynhaliwyd yr un broses ailadroddol i gynhyrchu is-themâu a oedd yn gysylltiedig â phob thema drosfwaol. Mae'r is-themâu yn cwmpasu'r holl godau cynnar o bob set ddata. Caiff y themâu a'r is-themâu hyn eu hystyried yn yr adrannau canfyddiadau, penodau 3 - 8, isod.

**2.33** Adroddir ar bob thema a'i his-themâu cysylltiedig gan ddefnyddio lleisiau cyfranogwyr yr ymchwil cymaint â phosibl, drwy gynnwys dyfyniadau uniongyrchol o'r set ddata. Defnyddiwyd y data i ddatblygu vignettes a gafodd eu creu naill ai i ddangos ymateb cyffredin gan randdeiliaid, neu i ddangos profiad penodol unigolyn neu grŵp. Y rheswm dros gyflwyniad o'r fath yw sicrhau bod ystod ac amrywiaeth y profiad a amlygwyd gan y prosiect hwn yn cael eu cynrychioli yn yr adroddiad hwn.

**2.34** Yn dilyn trafodaethau manwl ymhlith y tîm ymchwil, penderfynwyd na ddylid dynodi a phriodoli dyfyniadau yn uniongyrchol i fathau gwahanol o ysgolion (h.y., ysgolion

cynradd / uwchradd / arbennig) ym mhob achos yn yr adran 'Canfyddiadau'. Y rheswm dros y penderfyniad hwn oedd cred na fyddai dynodi'r dyfyniadau yn gydnaws â dull gweithredu cynhwysol a fabwysiadwyd gan yr astudiaeth. Teimlai'r ymchwilwyr yn gryf y dylai darllenwyr gael cyfle i ddarllen am effaith pandemig Covid-19 (a gweithdrefnau cyfyngiadau symud cysylltiedig a'r ffordd yr amharwyd ar ddysgu) ar gymuned addysgol Cymru yn ei chyfanrwydd.  Ni roddwyd unrhyw flaenoriaeth wrth ddewis ysgolion, a cheisiwyd taro cydbwysedd wrth ennyn cefnogaeth y mathau o ysgolion dan sylw yn y sampl. Ystyrir bod y canfyddiadau yn berthnasol ac yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw fel rhan o'u darpariaeth addysgol. Mae cyflwyno'r detholiadau heb ddiffinio eu tarddiad yn amlwg yn adlewyrchu'r dull gweithredu cynhwysol hwn felly. Bwriad y dull gweithredu hwn yw annog darllenwyr i ystyried effaith y pandemig, a'r amhariaeth gysylltiedig, ar amrywiaeth eang o ddysgwyr.

**Ffigur 2.1: Amserlen yn nodi digwyddiadau allweddol yn ystod pandemig COVID-19 a'r broses ymchwil.**

**Meh-Gorff 2020**

- Galwad grantiau a chomisiynu'r ymchwil
- Cam dylunio'r prosiect
- Ailagor ysgolion yn raddol o 29 Mehefin ar ôl Cyfyngiadau Symud 1

**Awst-Hydref 2020**

- Cwblhau'r prosesau moeseg
- Cam dylunio'r offer ymchwil
- Dychwelyd i'r ysgol gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol a niferoedd llai ym mis Medi 2020
- Dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn yn ynysu os bydd achos positif o COVID-19
- Cyfnod atal byr rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd, ysgolion ar gau

**Tach-Rhag 2020**

- Casglu data cam 1 yn dechrau, mwyafrif y cyfweliadau â'r uwch-dimau arwain wedi'u cwblhau, arolygon athrawon a rhieni a'r dasg dysgwr wedi'u gohirio oherwydd pwysau'r pandemig
- Ysgolion ar agor, cadw pellter cymdeithasol, niferoedd llai, dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn yn ynysu, rhai ysgolion yn cau am gyfnodau byr
- Cyfyngiadau symud lleol mewn rhannau o Gymru
- Pob ysgol uwchradd yn symud i ddarpariaeth ar-lein o 14 Rhagfyr

**Ionawr 2021**

- Y broses casglu data yn parhau, cam 1 a 2 ochr yn ochr am fod angen eu cynnal fesul ysgol
- Tasg dysgwr wedi'i diwygio oherwydd dysgu o bell mewn ysgolion
- Ysgolion yn aros ar gau ar ôl gwyliau'r Gaeaf
- Cyfyngiadau symud 2 yn dechrau. Yr holl ddysgu yn cael ei gynnal ar-lein

**Chwef-Maw 2021**

- Y broses casglu data yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth
- Y cam dadansoddi data yn dechrau
- Plant y Cyfnod Sylfaen a rhai dosbarthiadau arholiadau yn dychwelyd i'r ysgol ar 22 Chwefror
- Cadw pellter cymdeithasol. Dosbarthiadau yn ynysu os bydd achosion positif o COVID-19

**Ebrill 2021**

- Dadansoddi data a llunio'r adroddiad
- Cyfyngiadau symud 2 yn dod i ben: ysgolion yn ailagor i bob disgybl, cadw pellter cymdeithasol, ynysu dosbarthiadau/grwpiau os bydd achos positif o COVID-19

**Cyfyngiadau**

**2.35** Er bod yr astudiaeth hon yn darparu sail ddata gyfoethog er mwyn llunio casgliadau cychwynnol a chynnig argymhellion ar gyfer y dyfodol, mae yna rai cyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth ddehongli'r canlyniadau. Amlinellir y cyfyngiadau hyn isod.

*Samplu*

**2.36** Mae'r data a gasglwyd yn gyfyngedig i brofiadau ysgolion a theuluoedd mewn tair set o rwydweithiau ysgolion SAU. Er bod y rhwydweithiau hyn yn cwmpasu tair ardal ddaearyddol fras yng Nghymru (gogledd – Bangor; canolbarth – Prifysgol Aberystwyth; de – Prifysgol Y Drindod Dewi Sant), nid ydynt yn cyfleu darlun llawn am na chafodd ysgolion y tu allan i'r rhwydweithiau hyn eu gwahodd i gymryd rhan.

**2.37** Oherwydd amseriad y prosiect, a gynhaliwyd yn ystod pandemig Covid-19, roedd y gyfradd ymateb yn isel. Dylai canlyniadau'r astudiaeth hon gael eu hystyried felly fel sampl o ymatebion posibl, ac ni ddylid ystyried eu bod yn gynrychioliadol o'r profiad cyfan yn ystod y cyfnod hwn.

*Cyfyngiadau dylunio o ganlyniad i Covid-19*

**2.38** Fel yr amlinellir uchod, roedd yr astudiaeth wedi esblygu'n barhaus o ran ei dyluniad oherwydd ffactorau allanol yn ymwneud â sefyllfa newidiol pandemig Covid-19, a'i effaith ar ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch. Gwnaeth hyn lesteirio ein bwriad i gynnwys y disgyblion eu hunain yn yr ymchwil, i ryw raddau.

**2.39** Oherwydd bod cymaint o astudiaethau yn cael eu cynnal mewn ysgolion ar adeg yr astudiaeth hon, roedd angen sicrhau bod yr arolygon yn gryno ac yn berthnasol. Roeddem hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod yr unigolion a oedd yn ymateb i'n harolygon yn gwbl ddienw, gan gynnwys sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chadw'n anhysbys. Roedd y pethau hyn yn cyfyngu ar y math o newidynnau cefndirol a gafodd eu cynnwys yn yr holiaduron a'u nifer, a gyfyngodd i ryw raddau ar ein gallu i briodoli ymatebion penodol i fathau penodol o ysgolion neu unigolion.

**2.40** Caiff y canfyddiadau eu nodi o dan chwe thema; mynediad i dechnoleg; yr amgylchedd dysgu yn y cartref; darpariaeth ysgol; argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol; iechyd meddwl a lles; a dysgu a chynnydd academaidd. Rhoddir cafeat ar y canfyddiadau, sef y cyfyngiadau ar y broses o gasglu data a graddau'r

gynrychiolaeth a nodir uchod. Dylid nodi bod y vignettes a ddarperir yn rhoi enghreifftiau o brofiadau ymatebwyr ac nad oes modd eu cyffredinoli, er eu bod yn brofiadau y bydd eraill yn gallu uniaethu â nhw yn ystod y cyfnod hwn. Bwriedir i'r vignettes ddarlunio'r amryw heriau a materion a wynebwyd gan ddysgwyr yng Nghymru, eu teuluoedd a'u hathrawon yn ystod yr amserlen benodol iawn dan sylw (gweler ffigur 2.1).

# 3. Canfyddiadau yn ymwneud â mynediad i dechnoleg

**Cyflwyniad**:

**3.1** Nid yw'n syndod bod gan randdeiliaid lawer i'w ddweud am y dechnoleg a oedd ar gael i hwyluso dysgu yn y cartref yn ystod yr adegau pan oedd yr ysgolion ar gau.

**3.2** Yn fras, mae wyth is-thema wedi deillio o ddata'r ysgolion a oedd yn rhan o'r astudiaeth achos:

- Argaeledd caledwedd / dyfeisiau
- Ysgolion yn darparu caledwedd a stigma
- Cysylltedd band eang
- Goblygiadau ariannol dysgu ar-lein yn y cartref
- Brodyr a chwiorydd - mynediad i bob dysgwr
- Argaeledd hyfforddiant i rieni ar ddefnyddio TG
- Arbenigedd staff
- Cyfleoedd

**3.3** Mae'r vignette canlynol yn rhoi enghraifft o nifer o'r is-themâu hyn a archwilir ymhellach isod.

**Ffigur 3.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â mynediad i dechnoleg.**

Er gwaethaf ymdrechion gorau ysgolion i ddarparu'r hanfodion sydd eu hangen ar gyfer ymgysylltu ar-lein ar ffurf darparu caledwedd fel gliniaduron, nid oedd darparu caledwedd ar ei ben ei hun bob amser yn effeithiol heb ddarparu cymorth technolegol a chanllawiau datrys problemau. Fel y nododd rhiant yn ysgol K yn ei gyfweliad:

> 'bu'n rhaid i ni fenthyg gliniadur gan yr ysgol, a phan gawson ni'r gliniadur, doedd e ddim yn gweithio a doedd e ddim wedi'i raglennu ar gyfer y rhwydwaith. Bu'n rhaid i mi ei ddychwelyd i'r ysgol ac yna mynd nôl i'r ysgol i'w gasglu. A phethau felly. Pan fyddwch chi'n ceisio datrys pethau felly o gwmpas eich gwaith a chefnogi'r plant, dyna'r cyfan y gallwch chi ei wneud. A dyw e ddim fel petaech chi'n gallu mynd ag ef a'i gael e yn ôl ar yr un diwrnod. Rwy'n credu bod y broblem wedi para tua phythefnos...'

Ac eto nododd nifer o ymatebwyr eu bod wedi ceisio cael gafael ar adnoddau drwy ddulliau eraill. Nododd un rhiant o ysgol K:

> ‘unrhywbeth we ddim gyda ni we ‘begged, borrowed or stole,’ except we didn’t steal achos ma hwna’n wrong... [felly doedd] dim angen i fi ofyn i’r ysgol, o, allwch chi danfon laptop i fi i joino mewn’

Roedd rhai rhieni, yn amlwg, wedi cymharu eu hanghenion nhw ac o'r farn bod eraill â mwy o angen help, ac felly gwnaethant ddefnyddio hen ddyfeisiau. Dywedodd yr un rhiant fod dyfais hŷn wedi cael ei lusgo i mewn i wasanaeth a nodwyd, heb fod yn argyhoeddiadol iawn, ei bod wedi 'gwneud y job'.

Ac eto, nid oedd pawb wedi ceisio cael gafael ar adnoddau yn annibynnol o ddewis. Dywedodd rhai fod yn rhaid iddynt chwilio am atebion creadigol i'r broblem o ddiffyg darpariaeth dechnolegol yn y cartref o ganlyniad i gyfathrebu aneffeithiol a fethodd â thynnu sylw at y cyfleoedd i fenthyg adnoddau gan yr ysgol. O ganlyniad, nododd un rhiant yn ysgol H:

> ‘Dim ond un ddyfais oedd gennym ni... a'r unig ddyfais y gallent ei defnyddio oedd fy nghyfrifiadur gwaith i. Felly, doedd dim llawer o drefn y tro cyntaf. Mae fy chwaer... wedi prynu cyfrifiadur er mwyn iddi hi [merch y cyfwelai] allu gwneud ei gwaith ysgol, ac er mwyn iddi gael mynediad at ei dosbarthiadau am fod ganddi ei harholiadau TGAU o'i blaen. Gall fynychu ei dosbarthiadau cymaint â phosibl heb orfod tarfu arna i a'm gwaith er mwyn gwneud hynny.’

Nid oedd eraill mor ffodus, a bu'n rhaid iddynt fynd i gost o ganlyniad i'r diffyg cyfathrebu.  Fel y nododd rhiant o ysgol H wrth ymateb i'r arolwg:

> ‘[Roedden] ni wedi gorfod prynu gliniadur ail-law i'n plentyn. (Eitem ddrud annisgwyl!)’

**Argaeledd caledwedd / dyfeisiau**

**3.4** Cydnabu rhieni ac athrawon yr anfantais a oedd yn deillio o ddiffyg caledwedd a band eang pan oedd yn rhaid addysgu yn y cartref. Roedd ymatebion i'r arolygon a'r cyfweliadau wedi nodi amryfal heriau a ganfuwyd ac a brofwyd gan ddysgwyr mewn ymateb i'r mater hwn. Roedd yn nodedig bod y rhain yn fwy amlwg pan oedd gan deuluoedd fwy nag un plentyn yr oedd angen dyfais arno i ddysgu ar-lein a/neu pan oedd angen i'r oedolion ar yr aelwyd ddefnyddio dyfeisiau ar gyfer eu gwaith eu hunain.

> ‘...gan fod y ddarpariaeth ar-lein, roedd yn anodd cael mynediad ati am nad oedd gan fy mab liniadur. Roedd yn rhaid i ni ddefnyddio fy ffôn symudol, ysgrifennu'r cwestiynau/tasgau â llaw ac yna tynnu lluniau o bopeth er mwyn

cyflwyno'r gwaith i'r athro, a oedd yn golygu bod y gwaith yn cymryd mwy fyth o amser'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)


‘Mae ganddi iPad a gliniadur. Nid yw ei gliniadur yn gyflym iawn ac rydym wedi sylwi weithiau, pan fydd atodiadau, am nad yw'n gliniadur yn gyflym iawn, bod oedi ac mae'n cymryd oesoedd i'r dudalen lwytho.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol A)

‘mae'r iPads yn wych, ond nid yw'n fysellfwrdd (chwerthin) does gennym ni ddim bysellfwrdd go iawn ar ei gyfer, felly pan fyddwch chi'n defnyddio'r bysellfwrdd cyffwrdd sgrin, dim ond hanner sgrin sydd gennych i'w defnyddio. Felly, rwy'n meddwl yn bersonol o'n safbwynt ni, mai'r broblem fwyaf y tro cyntaf oedd nad oedd gennym ni'r cyfarpar i allu gwneud gwaith cystal ag yr hoffem. Erbyn hyn mae gen i liniadur, felly ydi, mae wedi gallu defnyddio'r gliniadur. Mae hefyd wedi cael Xbox fel anrheg Nadolig felly gall gael mynediad ato drwy hwnnw. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol A)

‘Am nad oes gennym gyfrifiadur, roedd yn anodd lanlwytho gwaith cartref'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

‘Mae gweithio gartref yn anodd achos mae angen eu dyfeisiau ar mam a dad y rhan fwyaf o'r amser felly roedd yn anoddach i fi. Hefyd, mae llawer o bethau i dynnu eich sylw. Y cyfan roeddwn i'n gallu ei glywed oedd cymysgwyr sment a beiciau modur yn rasio ar hyd y stryd' (Ymateb i'r Dasg Dysgwyr, Dysgwr 3, Ysgol B)

**Ffigur 3.2: Delwedd yn tynnu sylw at ymateb gan ddysgwr 3, blwyddyn 5, ysgol B[1].**




Roedd dysgu o adref yn anodd gan fod y rhan fwyaf o’r gwaith ar-lein, ac roedd mam a dad angen y dyfeisiadau ar gyfer gwaith felly roedd yn anoddach i fi. Hefyd roedd llawer o bethau yn tynnu sylw – fel yr unig beth gallwn glywed oedd cymysgwyr sment yn cymysgu a beiciau

> ‘Roedd yn anodd iawn cyrraedd llawer o'r disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn enwedig er mwyn cynnig dysgu penodol i'r disgyblion hyn, gan wybod na fyddai ganddynt adnoddau o'r fath gartref. Ni all y profiadau synhwyraidd rydym yn eu darparu yn yr ysgol gael eu hail-greu gartref. Felly byddai hynny wedi bod yn eithaf anodd. Byddent wedi bod dan gryn anfantais, er ein bod wedi defnyddio Facebook i gyfeirio at lawer o wefannau cymorth y gallant droi atynt, er enghraifft i gael straeon synhwyraidd'. (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)

**3.5** Roedd cydnabyddiaeth na fu llawer o gydraddoldeb o ran y profiadau dysgu sydd ar gael i wahanol blant oherwydd mynediad at dechnoleg briodol.

> ‘Mae rhai plant yn ffodus i gael y cyfarpar gorau i'w ddefnyddio. Mae eraill yn gorfod defnyddio hen gyfarpar ail law.’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

> ‘Mae gan rai plant y dechnoleg gartref i wneud ymchwil a chymryd rhan mewn gwersi ar-lein. Nid oes gan eraill. Mae gan rai plant gymorth gartref. Nid oes gan eraill.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

> ‘Rwy'n dychmygu y byddai cartrefi nad oes ganddynt yr holl dechnoleg angenrheidiol wedi dioddef. Pe bai'r pandemig wedi digwydd flwyddyn yn gynt, ni fyddai gennym ni'r gliniadur a'r ffôn clyfar a oedd yn hanfodol ar gyfer yr holl

[1] Mae'r ddelwedd hon yn arteffact o'r broses ymchwil ac mae'n dod o ysgol cyfrwng Saesneg. Nid oes arteffact cyfatebol wedi'i gynhyrchu o ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn oherwydd natur y prosesau casglu data yn ystod cyfnod casglu data, a gafodd ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19.

ymarferion dysgu yn y cartref. Hefyd, byddai cartrefi â theuluoedd mawr wedi ei chael hi'n anodd rhannu cyfarpar a lle.... dwi ddim yn credu bod plant wedi cael chwarae teg i ddysgu drwy hyn oll.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

‘Nid oes gan rai teuluoedd fynediad i'r Rhyngrwyd ac eithrio drwy ffôn symudol ac nid yw'n hawdd gwneud gwaith ysgol ar ffôn.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/ Staff Cymorth Dysgu, Ysgol B)

**Ysgolion yn darparu caledwedd a stigma**

**3.6** Yn ystod y pandemig, cefnogodd ysgolion ddisgyblion mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys drwy rannu gliniaduron i gefnogi eu dysgwyr. Roedd llawer o rieni o'r farn bod hyn o gymorth er mwyn helpu i sicrhau bod gan frodyr a chwiorydd eu dyfais eu hunain ar gyfer dysgu ar-lein, yn enwedig am fod ysgolion yn aml yn defnyddio llwyfannau gwahanol ar gyfer grwpiau oedran gwahanol (e.e., Teams i ddysgwyr hŷn). Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod stigma yn gysylltiedig â'r angen i fenthyg adnoddau, fel y nodir yn y vignette uchod. I'r rhai â phroblemau cysylltedd, anfonodd rhai athrawon gopïau caled o ddogfennau adref, a chafodd hyn ei groesawu.

‘Mor ddibynnol ar yr amgylchiadau yn y cartref. Gwnaethom anfon gliniaduron adref, felly aethom i'r afael ag anghydraddoldeb felly mewn rhai achosion. Ond nid yw'n hawdd gwneud y penderfyniadau hynny. Dydych chi ddim bob amser yn siŵr a ydych yn mynd i'w gael e nôl mewn cyflwr da. Ni all rhai plant eu defnyddio oherwydd eu hanghenion ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu difrodi, neu na fyddant yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae'n fwy cymhleth nag mewn lleoliad prif ffrwd yn fy marn i am fod ffactorau eraill i'w hystyried yn yr achosion hyn'. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol E)

‘Mae adnoddau ac offer wedi bod yn rhan fawr o hyn. Mae gennym rai disgyblion nad oedd ganddynt y dechnoleg gartref. Ond roedd modd datrys hynny drwy'r ysgol.  Er enghraifft, mae gen i un plentyn ac roedd y teulu yn cadw i ddweud 'ni'n iawn ni'n iawn'. A'r mwyaf roeddech chi'n siarad â'r rhieni, y mwyaf roeddech chi'n gweld bod problemau, ond eu bod yn gyndyn i'w datgelu. Roedd yn haws i lawer o rieni siarad dros y ffôn. Ac os gallech chi feithrin y gydberthynas â rhieni, bydden nhw'n fwy agored â chi. Ac wrth

wneud hynny, cawsom wybod am bethau fel nad oedd gan un plentyn liniadur a oedd yn gweithio. Ond tan hynny roedd gormod o gywilydd ar y rhieni i gyfaddef bod problem o ran na allai'r plentyn gael gafael ar y gwaith. Cawsom wybod bod un gliniadur yn cael ei rannu rhwng pump. Ac roedd hwnnw wedi torri. Nid oeddem wedi credu y byddai hyn yn broblem i'r plentyn hwn yn y teulu penodol hwn. Cymerodd amser i'r fam ddweud nad oedd ganddo ei ddyfais ei hun y gallai ei defnyddio ar gyfer dysgu. Ac ni all y rhan fwyaf o'n plant ni egluro hynny drostynt eu hunain felly os nad yw'r teulu'n darparu'r wybodaeth, yna mae'r sefyllfa'n anodd iawn. Felly roedd y bachgen bach hwn dan anfantais, er nad oedd yn cael ei ystyried dan anfantais o dan amodau arferol. Felly ni allai wneud y gwaith. Ond unwaith i ni anfon gliniadur adref ar ei gyfer, gallai gwblhau'r gwaith a oedd yn cael ei osod. Felly daeth pethau na fyddech wedi eu hystyried, fel teuluoedd mawr a mynediad i adnoddau, yn anfanteision. Ond ni fyddech byth wedi dychmygu y byddai ef wedi bod dan anfantais. Felly, mae cysylltiad mawr rhwng argaeledd adnoddau a sgiliau technoleg rhieni'. (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)

'dywedwyd wrthym y gallem wneud cais am offer drwy'r ysgol ond a bod yn onest, oherwydd yr holl bethau sydd gennym yn y tŷ, roedd yn teimlo braidd yn hy. Achos mae yna bobl mewn sefyllfa waeth na ni. Felly, ie, doeddwn i ddim eisiau gwneud cais am un rhag ofn y byddai rhywun a oedd wir angen yn colli allan, ac mae gennym ddigon o offer i ni felly...' (Ymateb mewn Cyfweliad â Rhiant, Ysgol A)

'unrhyw beth we ddim gyda ni we 'begged, borrowed or stole,' except we didn't steal achos ma hwna'n wrong... [felly doedd] dim angen i fi ofyn i'r ysgol, o, allwch chi danfon laptop i fi i joino mewn' (Ymateb i Gyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

'Pan ddechreuodd y Sir nodi darpariaeth TG a gliniaduron a phethau felly, doedd dim digon i bawb ac felly mae o hyd. Felly mae'n rhaid i chi bron benderfynu pwy sydd eu hangen fwyaf. Felly, o gynnal arolwg rydych chi'n clywed - os oes gennych chi ffôn symudol, dydych chi ddim dan gymaint o anfantais ag [...] os oes gennych chi liniadur mae hynny'n well yndyw hi, mae gennych chi fwy o fantais. Os oes gennych chi ffôn, mae gennych chi rywbeth

ond dyw hynny ddim yr un peth â chael gliniadur ac mae gennym ni achosion, a does neb ar fai am hyn, lle nad oes unrhyw ddyfeisiau yn y tŷ heblaw ffôn symudol, sy'n anodd pan fyddwch chi'n ffrydio byw neu os ydych chi'n ceisio cael gafael ar adnoddau achos mae pen draw ar yr hyn y gallwch chi ei wneud ar ffôn symudol.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

**Cysylltedd band eang**

**3.7** Roedd cyflymder y rhyngrwyd a chysylltedd band eang eu cartref yn ei gwneud yn anodd i rai fanteisio ar ddysgu yn y cartref. Nodwyd hyn mewn lleoliadau trefol a gwledig ac roedd yn cael ei ystyried fel agwedd arall ar brofiad anghyfartal.

> ‘Roedd yr ychydig o waith a osodwyd all-lein yn iawn, er ei bod yn heriol ennyn diddordeb y plant. Yn anffodus, nid oes gennym fand eang gartref am na all BT ei gynnig i'n cyfeiriad ni, felly mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein ffonau symudol i ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Mae hyn yn araf iawn ac mae'r signal yn wael felly nid oedd modd defnyddio'r adnoddau fideo na'r gemau ar-lein'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol D)

> 'Bydd teuluoedd heb ddyfeisiau addas neu fynediad cyson i'r rhyngrwyd wedi cael trafferthion ond mae'r ysgol yn eu cefnogi ym mhob ffordd bosibl'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

> ‘Ie, nid oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd (dylai fod am ddim).’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**Goblygiadau ariannol dysgu ar-lein gartref**

**3.8** Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi nodi goblygiadau ariannol uwchraddio offer a chael gafael ar galedwedd. Roedd y disgwyliad bod gan deuluoedd beiriannau argraffu y gallent eu defnyddio hefyd yn heriol yn ariannol. Roedd rhai nad oedd ganddynt beiriannau argraffu wedi sôn am ysgrifennu tasgau allan â llaw, fel y nodwyd uchod o dan argaeledd caledwedd/dyfeisiau. Gweler hefyd yr adran ar yr Amgylchedd Dysgu yn y Cartref

> 'Nid oes gennyf yr arian i ddarparu... peiriannau argraffu ac inc i argraffu taflenni gwaith ac ati. Mae hyn yn golygu er bod dysgu yn y cartref yn bosibl i

fi, ond mae'n gyfyngedig i'r hyn sydd ar gael. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

‘...bu'n rhaid i ni brynu gliniadur arall’. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

‘[Roedden] ni wedi gorfod prynu gliniadur ail-law i'n plentyn. (Eitem drud annisgwyl!)’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

**Brodyr a chwiorydd - mynediad i bob dysgwr**

**3.9** Cydnabyddir yn eang fod heriau dysgu yn y cartref wedi lluosi pan oedd gan deuluoedd fwy nag un dysgwr yn y cartref. Roedd rhannu amser yn deg rhwng aelodau'r teulu i ddefnyddio'r dyfeisiau a blaenoriaethu angen o fewn teuluoedd wedi creu rhagor o gymhlethdod i deuluoedd. Roedd ystyried sut i gefnogi teuluoedd o'r fath yn peri mwy o broblemau i ysgolion wrth benderfynu ynghylch darparu caledwedd ar gyfer dysgu.

‘Roedd hi mor anodd i rieni a oedd yn gweithio! Mae gweithio a gofalu am blant ar yr un pryd yn anodd. Hefyd, o ran rhannu a dyrannu dyfeisiau, roedd yn anodd rheoli pwy oedd yn methu â fforddio dyfeisiau unigol'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

‘Roedd llawer o anawsterau hefyd i rai teuluoedd o ran efallai fod ganddynt un neu ddwy ddyfais, ond fod mam a dad yn gweithio gartref ac felly nid oedd digon o ddyfeisiau ganddynt. Ni fyddai'r plant hynny wedi cael dyfeisiau am fod dyfeisiau ganddynt... A hefyd, i'r plant hynny heb gysylltiad â'r rhyngrwyd, pe byddech chi'n rhoi dyfais iddyn nhw, fydden nhw ddim yn gallu cysylltu â'r Rhyngrwyd ta beth am nad oes ganddynt Wi-Fi yn y tŷ. Felly, mae'n bosibl na fydd ganddynt unrhyw gysylltedd o gwbl' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Hyd yn oed yn yr aelwydydd mwyaf cefnog, os oes gennych bedwar plentyn a dau riant yn gweithio gartref, mae'n beth prin i bob un gael dyfais sy'n ei alluogi i wneud yr hyn y mae arno eisiau ei wneud. Efallai y bydd gennych lechen neu gwpwl o liniaduron a ffôn, ond nid yw'r pethau hynny yn gyfartal o safbwynt dysgu - maent yn rhywbeth ond, ydi, mae'n anodd' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

‘Ac yna mae gennych chi ddisgyblion sy'n rhannu dyfeisiau mewn aelwyd. Mae gennym ni ddisgyblion sy'n un o dri neu bedwar brawd a chwaer ac mae un ym mlwyddyn 13 ac un ym mlwyddyn 11 ac yna mae dau yn is i lawr yr ysgol. Sut ydych chi'n penderfynu yn yr aelwyd honno pwy fyddai'n elwa fwyaf ar ddefnyddio'r ddyfais honno. Maen nhw'n blaenoriaethu o fewn aelwyd pwy ddylai ddefnyddio'r ddyfais ar ba adeg yn ystod y dydd, felly yn sicr mae disgyblion yn wynebu anfantais os nad oes ganddynt ddarpariaeth TG (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

‘I ddechrau, efallai y bydd plentyn yn ceisio agor dogfen Teams ar ffôn y rhiant neu, fel dywedais i, efallai y bydd un gliniadur yn y tŷ a bydd ei angen ar y rhiant am ei fod yn gweithio gartref er mwyn gwneud yr hyn sydd angen iddo ei wneud. Sawl plentyn yn y tŷ, efallai 3 neu 4 plentyn yn rhannu un gliniadur neu un ddyfais, felly gwnaethom sicrhau ein bod yn cynnig rhoi dyfeisiau ar fenthyg, felly gwnaethom gadw llygad ar hynny'. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol C)

**Argaeledd hyfforddiant i rieni ar ddefnyddio TG**

**3.10** Roedd rhai ysgolion yn darparu pecynnau hyfforddiant i rieni er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio'r deunyddiau dysgu yn y cartref. At ei gilydd, mewn achosion lle nad oedd y dysgwr yn gallu mewngofnodi a defnyddio'r deunyddiau eu hunain roedd angen gwneud hyn fwyaf. Dywedodd athrawon eu bod wedi treulio llawer o amser gyda rhai rhieni yn ceisio cefnogi mynediad, a bod hyn yn fwy trafferthus oherwydd yr offer technolegol a'r adnoddau amrywiol a oedd ar gael yn y cartref. Cydnabuwyd yn gyffredinol fod sgiliau TG staff addysgu, rhieni a dysgwyr wedi datblygu drwy gydol y cyfnod pan oedd yr ysgolion ar gau.

‘ond roedd hefyd yn eithaf rhwystredig ar brydiau. Ar ôl anfon fideo am y pumed neu'r chweched tro yn dangos iddynt sut i fewngofnodi, rydych chi'n cadw i feddwl, sut yn y byd y gallaf ei wneud yn symlach i'w ddilyn?  Heb fod yno gyda'r teulu a gyda nhw. A sôn am hynny, rwyf newydd gael neges cyn i mi ddod i siarad â chi, gan fam yn gofyn a all ddod i'r ysgol er mwyn i mi ddangos iddi sut i logio ymlaen ar eu gliniadur' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Roedd rhieni yn anfon negeseuon ataf yn gofyn, sut ydw i'n gwneud hyn? Sut ydw i'n gwneud y llall? A threuliais i sawl awr gydag un rhiant yn ceisio ei helpu i gael mynediad ar ei gliniadur.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'...cymerodd gryn amser i mi ddod i ddeall sut i gael mynediad at y dysgu yn y cartref... roedd fy mab yn fy helpu hefyd! … Roedd yn hawdd colli'r pethau pwysig. Rwy'n eitha' da gyda chyfrifiaduron... ond roeddwn wedi meddwl sut fyddai ar bobl eraill nad ydynt yn deall technoleg cystal'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

'Darparu offer TG i gefnogi dysgu yn y cartref. Darparu fideos canllaw i rieni a gofalwyr er mwyn iddynt deimlo'n fwy parod i gefnogi dysgu eu plentyn/plant. Athrawon yn postio fideos canllaw fel nad oedd yn rhaid i ddisgyblion ddibynnu'n gyfan gwbl ar gymorth eu rhieni/gofalwyr. Galwadau Teams gyda disgyblion er mwyn iddynt allu gweld eu ffrindiau a rhyngweithio â nhw'. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Daeth disgyblion yn fwy cymwys yn ddigidol wrth ddysgu o bell'. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Nid oes gan rai teuluoedd lawer o brofiad o ddefnyddio cyfrifiaduron ac felly gall hyn ei gwneud yn anodd iddynt helpu eu plant â'u dysgu.' Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

'roedd mantais gan rieni sy'n gallu defnyddio technoleg yn effeithiol i gefnogi eu plant.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

'roedd rhai disgyblion nad ydynt mor hyderus yn defnyddio TG wedi colli allan ar ymyriadau.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**Arbenigedd staff**

**3.11** Cydnabu llawer o'r ymatebwyr y bu'n rhaid i staff ysgolion weithio'n galed iawn ac yn gyflym iawn i sefydlu a chefnogi dysgu yn y cartref, a bod y ddarpariaeth wedi gwella dros amser. Nodwyd bod rhai dysgwyr, gan gynnwys rhai ag ADY, yn ddeallus yn ddigidol. Roedd rhai disgyblion wedi synnu athrawon â'u cynnydd a, fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr yn gyndyn o ymgysylltu â dysgu ar-lein heb

fewnbwn gan rieni. Esboniodd staff addysgu eu bod wedi gwneud ymdrech fawr i wella eu sgiliau eu hunain (drwy hyfforddiant a rhannu ymarfer) er mwyn cefnogi rhieni a dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn.

> ‘Mae'n rhaid i mi ddweud, er bod gan lawer o ddisgyblion ddatganiad, maen nhw'n eithaf deallus o ran technoleg felly roeddwn yn gwybod y gallent fewngofnodi a chael mynediad at y dysgu eu hunain. Ond o ran rhai o'm mhlant i nad oedd ganddynt gefnogaeth gan rieni i'w gorfodi i wneud y gwaith a mynd ar-lein a dysgu, doedden nhw ddim yn gwneud. '(Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

> 'Nid oedd y cyfarwyddiadau ar gyfer tasgau yn dda iawn ar y dechrau. Ymddengys ei fod yn waith newydd nad oedd y plant wedi ei ddysgu o'r blaen ac nad oedd y rhieni yn gwybod sut i'w addysgu'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

> 'Rwy'n meddwl eu bod wedi gwneud gwaith gwych, ond roedd yn amlwg bod pethau nad oeddent yn siŵr amdanynt a'u bod yn ymateb i'r sefyllfa yn hytrach na bod yn rhagweithiol. Ac rwy'n meddwl mai'r gwahaniaeth nawr yw bod ganddynt bron i flwyddyn o brofiad o gyflawni hyn. Cyflawni hyn, cyflawni eu dysgu neu ar-lein ac o bell. Felly maent yn ei wneud yn well.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol A)

**3.12** Dywedwyd sawl gwaith fod gwersi byw wedi bod o gymorth wrth gefnogi ymgysylltiad.

> 'Mae mwy o wersi byw erbyn hyn felly gall plant gael eu cefnogi gan yr athro.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

> 'Mwy o wersi byw, grwpiau ymyrraeth wedi'u cyflawni ar-lein. Mwy o gyfraniad gan rieni os oes modd.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

### Cyfleoedd

**3.13** Eglurodd ychydig o randdeiliaid fod anfanteision i ddysgu yn y cartref i rai dysgwyr (gweler hefyd yr adran ar iechyd meddwl a lles).

‘Mae un disgybl yn un o'r dosbarthiadau wedi bod yn defnyddio adnoddau digidol. Roedd hi'n gwarchod. Bu'n rhaid iddi gadw draw o'r ysgol am amser hir a bu modd iddi ymuno'n ddigidol â'r gwersi roedd y disgyblion eraill yn eu mynychu wyneb yn wyneb. Efallai y bydd y mathau newydd o ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion â phroblemau meddygol tymor hwy i gymryd rhan mewn gwersi er na allant ddod i'r ysgol. Byddai cynorthwyydd addysgu yn defnyddio gliniadur i alluogi'r disgybl gartref i gymryd rhan yn y wers er na allai ddod i'r ysgol.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol F)

**Crynodeb**

**3.14** Daeth defnyddio technoleg i gael mynediad at ddarpariaeth addysg pan oedd yr ysgolion ar gau yn norm. Datblygodd y ddarpariaeth yn y maes hwn wrth i ysgolion, rhieni a phlant addasu, ymchwilio ac arloesi gyda ffurfiau amrywiol ar y ddarpariaeth. Roedd angen i bawb dan sylw newid eu ffordd o ddysgu yn sylweddol, ond awgrymodd yr ymatebwyr yn gyson fod parodrwydd i addasu a datblygu. Wrth i'r cyfyngiadau symud fynd yn eu blaen, ymddengys fod darpariaeth ysgolion unigol yn datblygu o ran pa mor soffistigedig a pha mor effeithiol ydoedd, ac roedd disgyblion, at ei gilydd, wedi meithrin gwydnwch i'r dulliau dysgu addasedig.

**3.15** Cofnododd amrywiaeth o gyfranogwyr fod sgiliau a galluoedd technolegol yr holl randdeiliaid wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y cyfnod astudio, a bod ysgolion a chartrefi yn gallu defnyddio'r technolegau hynny yn fwyfwy effeithiol wrth ddarparu cyfleoedd dysgu. Mae'n arwyddocaol nodi y gallai hyn, wrth edrych i'r dyfodol, gynnig cyfleoedd dysgu amgen ac ychwanegol, hyd yn oed pan fydd presenoldeb amser llawn mewn lleoliadau ysgol traddodiadol yn bosibl.

# 4. Canfyddiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref

**Cyflwyniad**

**4.1** Nid yw'n synod bod gan y rhanddeiliaid y siaradwyd â nhw lawer i'w ddweud am amgylchedd dysgu yn y cartref y disgyblion, ac effaith rhai ystyriaethau allweddol mewn perthynas â'r cartref ar brofiadau addysgol y disgyblion yn ystod y cyfnod pan oedd yr ysgolion ar gau.

**4.2** Yn fras, mae'r is-themâu a luniwyd o ddata'r ysgolion astudiaeth achos yn cynrychioli:

- Cymorth gan Rieni
- Lles Rhieni
- Cyflogaeth Rhieni
- Disgwyliadau Rheini
- Natur y Teulu
- Darpariaeth yn y Cartref
- Ansefydlogrwydd Ariannol Cynyddol
- Mynediad i Adnoddau
- Mynediad i Weithfannau

**4.3** Mae'r vignette canlynol yn rhoi enghraifft o nifer o'r is-themâu hyn a archwilir ymhellach isod.

**Ffigur 4.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref.**

> ‘Dydyn ni ddim yn gwybod am sefyllfaoedd rhai adre. Oes gyda nhw rywle tawel i weithio? A wedyn, o rhan y gefnogaeth adref, ma hynna’n gwahanol o un lle i’r llall’ (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol H)
>
> ‘Nid yw'n amgylchedd y maen nhw'n hapus dysgu ynddo. Maent wedi'u cyflyru i ddysgu yn yr ysgol, ac oni bai eich bod yn eistedd gyda nhw pan fyddan nhw'n gwneud eu gwaith, mae'n dueddol o beidio â chael ei wneud. Mae pethau eraill yn dueddol o dynnu eu sylw. Os na fyddwch chi'n eistedd ar ei bwys e wrth iddo wylio, mae'n dueddol o beidio â chanolbwyntio arno am fod cymaint o bethau i dynnu ei sylw gartref... Gallai fod parsel yn cyrraedd, rhywun yn curo ar y drws, y ci yn cyfarth... neu mae'r ffôn yn canu neu mae fy ffôn symudol i'n canu oherwydd gwaith - mae'n cael ei ddefnyddio fel esgus i beidio â thalu sylw a chrwydro oddi wrth y gwaith a osodwyd.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol I)

**Cymorth gan Rieni**

**4.4** Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd cymorth gan rieni. Ac eto, ymddengys fod lefel y gefnogaeth yn amrywio'n sylweddol am wahanol resymau. Ymhlith y rhain, roedd yr elfen dymhorol yn sylweddol. Yn ôl aelod o UDA ysgol J, roedd cefnogaeth gref gan rieni yn y lle cyntaf:

> 'I ddechrau, roedd y rhieni yn mwynhau dysgu ar-lein cymaint â'r disgyblion.... Yr adborth a gafwyd wrth i ni ffonio'r cartrefi yn ystod yr wythnosau hynny oedd bod rhieni yn mwynhau dysgu eto, a oedd yn rhywbeth nad oeddwn yn ei ddisgwyl yn y lle cyntaf. Gwnaethant fwynhau'r cyfle i ailddysgu pethau roeddent wedi'u dysgu yn yr ysgol a gwella'u gwybodaeth cymaint â'r disgyblion.'

**4.5** Ac eto, nododd yr un ymatebwr yn ddiweddarach fod y dystiolaeth yn dangos bod y gefnogaeth wedi gwanhau dros gyfnod byr iawn:

> 'Ond buan iawn y gwnaethant flino ar hynny ar ôl y pythefnos yr oeddem yn disgwyl y byddai'n para i ddechrau.'

**4.6** Datblygodd ymdeimlad o apathi ymhlith llawer o rieni. Yn gynyddol, daeth rhieni i dderbyn y sefyllfa er nad oedd 'dim byd gwell nag athro yn sefyll o flaen dosbarth yn addysgu' fel y nododd un rhiant yn ysgol J. Ac eto, roeddent yn cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gefnogi addysg eu plant. Cofiodd yr un rhiant, 'roedd i fyny i fi a'm gŵr i weithio ein ffordd drwyddo [y gwaith ysgol] gyda hi.' Teimlai llawer fod y fath gyfrifoldeb yn faich ychwanegol arnynt, ond aethant ati i gyflawni'r dasg yn gydwybodol.

**4.7** Roedd y manteision i'r dysgwyr hynny a gafodd gymorth cydwybodol gan eu rhieni yn amlwg yn y gwaith a gyflwynwyd gan y disgyblion. Roedd consensws ymhlith staff ysgol K:

> ‘[Y] plant sydd a’r gefnogaeth gartref... sydd yn gwneud y mwyaf.

**4.8** Cytunwyd mai nhw oedd yn llwyddo orau. Fel y nododd aelod o Uwch-dîm Arwain ysgol L:

> ‘Ma hynna fel cael ‘one to one’ yn y dosbarth, nag yw e?!’

**4.9** Nododd un aelod o staff o ysgol H:

‘mae’r rhai sydd heb cael rhieni yn gallu gneud hynny [eu cefnogi yn gyson] yn cynrychioli’r 10 y cant sydd ddim ar lein oherwydd dydy’r rheini ddim yna i gwthio’r plant yn y cyfeiriad cywir.’

**4.10** Fel y nododd un aelod o staff ysgol J, daeth arwyddocâd cymorth ymarferol gan rieni yn amlwg iawn:

> ‘Cefais un darn o waith gan ddisgybl yn set waelod blwyddyn 9, ac roedd yn arbennig o dda. Pan ofynnais i i bennaeth yr adran, dywedodd hi y byddai wedi cael llawer o gymorth gan y rhieni a'i frawd efallai. Ac roedd yn arbennig o dda ar gyfer y dosbarth hwnnw. Roedd mor amlwg ei fod wedi cael cymorth ychwanegol o ryw fath... Roedd wedi bod o gymorth i gael rhywun yn eistedd gydag ef ac wedi mynd drwy bopeth yn fanwl. Ond gallwch weld nad oedd hynny wedi digwydd gyda llawer o ddisgyblion hefyd, ac mae'n amlwg nad oes neb yn eistedd gyda nhw.'

**4.11** Gyda chymorth ymarferol gan rieni, roedd yn amlwg y gallai disgyblion lwyddo i gael addysg gynhwysfawr, wedi'i chefnogi, ac y gallent ffynnu. Ac eto, yn rhy aml o lawer, nid oedd hynny'n digwydd. Fel athro yn yr ysgol, roedd yn amlwg i mi fod gan rai rhieni farn wahanol o ddisgwyliadau'r ysgol o ran eu plant. Nodwyd bod rhai:

> 'nad ydynt, fel rhieni, yn ymwybodol o'r safonau neu'r disgwyliadau a'r hyn y byddai'r ysgol yn dymuno ei weld. Felly... efallai y bydd disgwyliadau rhai rhieni yn eithaf uchel, tra bod eraill â disgwyliadau eithaf isel ac maen nhw'n dweud, iawn gadewch i ni gyflwyno'r gwaith fel y mae.'

**4.12** O ganlyniad, byddai rhai yn ymdrechu i sicrhau bod eu plant yn ateb y tasgau a osodwyd gan yr ysgol yn fanwl, gan sicrhau bod eu plant yn ymgysylltu'n ystyrlon â'r tasgau a'r pynciau, tra byddai eraill ond yn ceisio sicrhau bod eu plant yn cwblhau’r gwaith a osodwyd rywsut rywsut. Oherwydd, fel y nododd aelod o staff Ysgol A:

> 'byddai rhai teuluoedd yn awyddus i gyflawni tasgau a byddent yn manteisio ar bob cyfle i ddysgu ar-lein. Tra byddai rhai teuluoedd ddim yn cysylltu llawer o gwbwl...' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**4.13** Roedd y ffaith bod cymaint o wahaniaeth ym marn rhieni o'u cyfrifoldebau yn rhwystredig i addysgwyr a rhieni eraill. I'r rhai a oedd yn ceisio cynnal darpariaeth addysgol o safon uchel, ac a oedd yn mynd ati i gefnogi eu plant drwy ymateb i bob

tasg a osodwyd gan yr ysgol, a hynny'n aml er gwaethaf pwysau ychwanegol arnynt oherwydd eu swyddi, daeth yn amlwg bod rhwystredigaeth â'r ffaith bod rhieni eraill yn esgeuluso eu dyletswyddau, neu ond yn cynnig cymorth rywsut rywsut. Cofiodd un rhiant yn ysgol J ei rwystredigaeth ynghylch gwrthwynebiad rhieni eraill i ddarpariaeth addysgol yr ysgol, a'u hamharodrwydd i dderbyn y disgwyliadau llawn o ran eu plant, ac i helpu eu plant i fodloni'r disgwyliadau hynny. Nododd y rhiant sut roedd rhieni eraill wedi:

> 'cysylltu â'r ysgol a dweud 'rydyn ni ond yn gwneud mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth' a bod yr ysgol wedi dweud bod hynny'n iawn. Felly, pan mae fy mab yn dweud, 'Mam, does dim rhaid i fi wneud hyn i gyd am nad yw'r rhan fwyaf o'r dosbarth yn ei wneud,' yna mae'n anodd i fi am fy mod i'n ceisio cynnal yr hyn sydd yn fy marn i, yn lefel eithaf elfennol o ddysgu, ac mae fy mab yn meddwl fy mod i'n wrach am fy mod i'n gofyn iddo wneud y gwaith a osodwyd [gan ei athrawon].'

**4.14** Ystyriwyd felly fod cymorth a darpariaeth rhieni yn allweddol. Nodwyd mai'r disgyblion hynny na chawsant gefnogaeth ddigonol gan eu rhieni oedd y rhai a oedd yn fwyaf tebygol o fethu â chyflwyno gwaith ac felly, gwblhau'r gwaith. Fel y nododd aelodau o'r grŵp ffocws staff yn ysgol H, yn syml ddigon:

> ‘Os ydyn nhw [y rhieni] ddim yn bothered... yna mae’r plant yn colli allan.’

**4.15** Ac, o'r dystiolaeth, roedd yn amlwg bod llawer o’r rhieni yn flin iawn am y cyfrifoldebau addysgol cynyddol a oedd arnynt oherwydd y pandemig. Nododd un rhiant yn ysgol K wrth ymateb i'r arolwg:

> 'doeddwn i ddim yn hoff o ddefnyddio'r amser hamdden prin iawn sydd gennyf, o ystyried bod fy nghyfraniadau treth yn talu i eraill roi addysg i'm mab.'

**4.16** Mewn achosion o'r fath, gall eu dicter â'r sefyllfa yn rhwydd iawn amlygu'i hun ar ffurf apathi, gan leihau'r lefel o gymorth, help ac arweiniad a gynigid, gan arwain felly at lai o gymhelliant ar ran y disgybl. Nododd rhiant i ddau blentyn yn ysgol J:

> 'Rwy'n teimlo'n flin iawn dros yr ysgol [a'r disgyblion] am fod rhieni wedi gwrthwynebu, a bod diffyg cyfrifoldeb mewn gwirionedd [ar ran y rhieni]. Dywedais wrth fy ngŵr, mae'r ddau ohonon ni'n gweithio'n llawn amser a does yr un ohonon ni eisiau eistedd yma ac addysgu'r plant drwy'r dydd. Ond os na

allaf i eistedd gyda'r un ifancaf [yn ystod y dydd] ac os nad yw'n gwneud ei gwaith, yna rwy'n teimlo cyfrifoldeb i wneud hynny gyda'r nos ar ôl swper... Ond rwy'n meddwl bod rhieni eraill wedi dweud 'dydyn ni ddim yn gwneud.' Mae'n hurt. Maen nhw'n beio'r llywodraeth; maen nhw'n beio'r ysgol; maen nhw'n beio pawb ond nhw eu hunain. Os nad yw'r gwaith yn cael ei wneud, dydyn nhw ddim yn dweud 'wnaeth fy mhlentyn i ddim y gwaith ac fe ddylai fod wedi ei wneud, a wnes i ddim ei orfodi i'w wneud.' Yn hytrach, bai'r athro ydyw...'

**4.17** Teimlwyd bod yn rhaid i rieni, yn gynyddol, o ganlyniad i'r pandemig, fod yn 'atebol' i ryw raddau am ddysgu eu plant, a bod yn rhaid iddynt gymryd cyfrifoldeb. Ac eto, roedd ambell unigolyn, fel y nodwyd yn ysgol K, ‘ni heb clywed dim wrtho’. Yn ychwanegol, roedd llawer o rai eraill yn yr ysgol nad oeddent yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cyswllt gan yr ysgol. Yn ystod cyfnod mor heriol, tynnwyd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, ac eto:

‘[Wrth symud i ffrydio’n fyw, a sicrhau cefnogaeth rhieni a gwarcheidwaid] roedd rhaid ffonio 120 o rhieni i gwblhau’r ffurflen, er fod e wedi mynd allan 4 waith – dwywaith ar ParentMail, a dwywaith ar Teams. Roedd hwna’n eithaf heriol...’

**4.18** Yn ogystal, roedd rhieni yn anfodlon cyfathrebu â'r ysgol. O ganlyniad, pan oedd problemau'n codi a oedd yn tanseilio gallu disgyblion i ryngweithio, roedd y problemau hyn yn cael eu gadael heb eu datrys tan i'r ysgol fynd ati i gysylltu, gydag amserlenni ar gyfer hyn yn amrywio rhwng sefydliadau. Yn rhy aml o lawer, cyfrifoldeb yr ysgol oedd cysylltu â rhieni a gofyn:

‘Pam? Sut allwn ni helpu nhw? Oes angen cymorth gyda’r technoleg?’

**4.19** Yn ogystal, nododd staff yn ysgol L, er gwaethaf ymdrechion i gysylltu â rhieni i gynorthwyo, cefnogi ac weithiau, darbwyllo:

‘er bo fi’n siarad â nhw dros y ffôn dwi dal ddim yn gweld eu gwaith nhw...’

**4.20** Ni chafodd yr ymyriadau, felly, lawer o effaith er gwaethaf ymdrechion staff yr ysgol. Roedd manteision amlwg o ran addysg a lles i sicrhau ymyriadau o'r fath. Ac eto, nid oedd dealltwriaeth gyffredinol o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, roedd yn amhosibl,

mewn rhai achosion, i ryngweithio'n ystyrlon â rhai disgyblion a rhieni.  Er gwaethaf eu hymdrechion gorau i gyfathrebu dros y ffôn ac e-bost, nododd staff o ysgol K:

> '[Mae yna] 3 teulu ni di methu cael gafael ar allan o 340 o blant...'

**4.21** Er bod y ffigur hwn yn cynrychioli lleiafrif bach, roedd 'elfen o bryder yn eu cylch' am na fu unrhyw ryngweithio â'r ysgol ers dechrau'r pandemig. Ceisiwyd cymorth gan yr awdurdod lleol i geisio cysylltu â'r unigolion hynny.

**Ffigur 4.2: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref.**

| |
|---|
| 'Rwy'n poeni am un disgybl yr ystyrir ei fod o gefndir difreintiedig. Mae ganddo liniadur, ond rwy'n poeni am yr elfen deuluol. Dydw i byth yn ei weld. Dydw i ddim wedi ei weld ers mis Medi. Mae e fel bod ei rieni yn ei atal rhag cael addysg... Nid oes unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb er mwyn i chi gadarnhau bod popeth yn iawn. Bob tro rwy'n ffonio, mae Dad yn dweud ei fod yn iawn. Nid yw'n gwneud unrhyw waith. Mae'n sefyllfa anodd iawn am ei bod yn anodd gwybod beth i'w wneud. Rydym yn ceisio bod yn gefnogol ond weithiau rydych chi'n teimlo eu bod o'r farn eich bod yn ymyrryd a gall fynd yn eithaf ymosodol. Yr hyn rwyf wedi'i weld gyda rhai disgyblion yw mai gartref yw gartref ac ysgol yw ysgol. Dydych chi ddim yn gwneud gwaith ysgol gartref. Mae'n anodd i ddisgyblion ddeall ei bod yn bwysig iddynt barhau i weithio am eu nad ydynt yn deall bod eu haddysg i fod i barhau gartref. Felly, mae'n dangos y gwahaniaeth. Dyw ein disgyblion ddim yn gallu rhannu'r ddau fyd a deall sut mae un wedi dod yn rhan o'r llall. Fel arfer, pan na fyddan nhw'n deall hynny neu os nad ydyn nhw'n cael cymorth gan eu rhieni, yna gall y disgyblion hyn ddioddef mwy nag eraill oherwydd diffyg cyfleoedd addysg.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol F) |

**4.22** Roedd disgyblion yn amlwg yn wynebu anfantais o ran cymorth ac arweiniad drwy ddiffyg cymorth rhieni, ond hefyd, ac yn arwyddocaol, roedd yn atal disgyblion nad oedd ganddynt alluoedd annibynnol rhag ymgysylltu ag addysg os oeddynt am wneud hynny. Fel y nododd aelodau grŵp ffocws yn ysgol I, roedd cymorth gan rieni yn hanfodol i'r plant ifancaf mewn ysgolion cynradd. Heb gymorth o'r fath, ni allai'r plant hyn ymgysylltu â'r ddarpariaeth a gynigiwyd gan yr ysgol. Soniodd aelodau o staff am y canlynol:

> '[Gyda'r plant ifancaf] mae angen i rywun eistedd gyda nhw a threfnu iddynt fod ar-lein... Cefais neges gan un rhiant yn dweud ei bod hi yn y gwaith ac felly ei bod hi'n methu â'u helpu...'

**4.23** Roedd ystyriaeth ehangach yn ymwneud â'r ffaith nad oedd y rhieni yn ymwybodol o'r angen i ddarparu cymorth i blant hŷn, ac felly nad oeddent yn darparu ar gyfer hyn. Fel yr awgrymodd staff yn ysgol I, cynigiwyd gwahanol ddarpariaeth a chymorth yn unol â chamsyniadau rhieni am anghenion a galluoedd plant o wahanol oedran:

> ‘rwy'n credu eu bod yn meddwl, o rwyt ti ym mlwyddyn 6 nawr, felly dylet ti allu ei wneud ar dy ben dy hun. Ond mae angen y cymorth hwnnw arnyn nhw o hyd hefyd. Ac rwy'n meddwl efallai na chyfathrebwyd yn effeithiol â'r rhieni, a'u bod o'r farn nad oes angen cymaint o gymorth arnynt â phlant iau. ‘

**4.24** Fel y nododd y grŵp ffocws yn cynnwys staff ysgol K ynghylch llawer o rieni:

> ‘[Dydyn nhw] ddim wir yn deall lefel [anghenion] y plentyn...’

**Lles rhieni**

**4.25** Ymddengys fod realiti cefnogi eu plant gartref ddydd a nos am gyfnodau estynedig - yn ogystal â darparu ar gyfer eu lles addysgol - yn ysgytiad annisgwyl i rieni, yn ôl y dystiolaeth a roddwyd gan rai athrawon. Roedd hyn yn arbennig o wir am blant ag anghenion ychwanegol o wahanol raddau. Roedd ceisio ymdrin â'r anghenion hyn a cheisio darparu addysg yn dasg sylweddol a gorlethol weithiau. Nid oedd yn anghyffredin i rieni plant ag anghenion amrywiol gysylltu â'r ysgol, gan deimlo'n rhwystredig ac wedi blino'n lân.

> ‘yn aml fyddai’r rheini yn llefain ar y ffon achos bo nhw methu ymdopi a’r plant adref.’

**4.26** Bu hyn yn ergyd drom i iechyd meddwl rhai rhieni. Roedd ceisio darparu cymorth addysgol i'w plant yn ffactor cyfrannol sylweddol yn nirywiad eu hiechyd meddwl wrth iddynt synhwyro eu bod yn methu yn eu dyletswydd. Fel y nododd un rhiant yn ysgol H mewn cyfweliad:

> ‘rydych chi'n rhwystredig na allwch chi helpu eich plentyn. Ac rydych chi'n meddwl a ydych chi'n rhiant gwael am beidio â gwneud yr addysg yn y cartref? Ac yna mae fel caseg eira, sydd ddim yn helpu eich cyflwr meddyliol... rydych chi'n teimlo'n ddiwerth.'

**4.27** Aeth ymhellach gan ddweud bod y broses gyfan yn gyfrifol am wneud iddo deimlo:

> 'fy mod yn ei gadael i lawr, am fethu â gwneud yr hyn... mae'r rhieni [eraill] ...siŵr o fod yn ei wneud.'

**4.28** Arweiniodd pryderon o'r fath at effaith andwyol ar rai dysgwyr am fod y disgwyliadau trwm ar rieni wedi esgor ar anallu i geisio darparu cymorth i'w plant.

**4.29** Yn ogystal, fel yr awgrymodd staff yn ysgol K, roedd yn peri pryder bod tueddiad ymysg grŵp penodol o rieni i fethu â deall gofynion tasgau ac aseiniadau ac felly yn methu â helpu eu plant i'w cwblhau. Roedd methiannau yn y system addysg yn y gorffennol o ran yr unigolion hyn yn llesteirio'r ddarpariaeth addysgol y gellid ei chynnig i'w plant; sef tueddiad sydd wedi gwaethygu oherwydd y pandemig. Roedd darparu fideos canllaw yr un mor fuddiol i'r disgyblion a'r rhieni, mewn rhai achosion, wrth fynd i'r afael â rhai pynciau. Yn aml, byddai rhieni yn ffonio mewn cyflwr emosiynol yn honni, fel y nododd aelodau o ysgol K: 'bo'r gwaith yn rhy anodd i'r plant...' Ac eto, ym mhob achos, sicrhawyd bod y gwaith yn briodol yn seiliedig ar dasgau y byddai'r plant yn eu cyflawni yn yr ysgol. Yn anffodus, mae'n debygol mai methiannau personol rhai rhieni, a diffyg canolbwyntio cynyddol amlwg ar ran eu plant, oedd yn arwain at y canfyddiad bod y tasgau'n rhy anodd. Ac, fel yr awgrymwyd, roedd rhai rhieni wedi methu yn wyneb heriau o'r fath. Nododd rhiant yn ysgol K mewn cyfweliad rhieni ei bod yn rhaid iddo wneud cryn waith ymchwil i baratoi i helpu ei blentyn â'i waith. Nododd fod yn rhaid iddo:

> 'fynd ar-lein a dysgu'r pwnc fy hun cyn gallu ei helpu i'w wneud. Felly, mae wedi bod yn anodd iawn. Mae'n rhaid i fi fynd a dysgu fy hunan a chadarnhau pethau... Bu'n rhaid i fi fynd ar Google a dysgu fy hunan, ac yna rydych chi'n dod i'w ddeall.'

**4.30** Ac eto roedd llawer yn amharod i wneud hyn, ac yn teimlo bod eu methiannau addysgol eu hunain yn golygu nad oeddent yn addas i ddarparu addysg. Fel y nododd rhiant yn ysgol K, nid oedd yn addas i gefnogi dysgu eu plentyn/plant oherwydd, 'Wnes i ddim yn dda iawn yn fy arholiadau TGAU,' gydag un arall o ysgol K yn nodi bod yr hyn roedd ei blentyn yn ei astudio 'ymhell uwchlaw fy lefel addysg!'. O ganlyniad, teimlai rhieni, a hynny'n gywir neu beidio, nad oeddent mewn sefyllfa i helpu eu plant, ac felly cawsant eu gadael i weithio heb gymorth, neu i gael cymorth mewn meysydd penodol yn unig.

**4.31** Ac eto, fel y nododd rhiant-athro o ysgol H wrth drafod y sefyllfa roedd wedi'i gweld fel rhan o gyfweliad â rhiant, roedd y pryderon hyn yn ddi-sail weithiau, yn deillio o brofiadau addysgol o'r gorffennol. Mewn gwirionedd, mae'n siŵr bod gwybodaeth rhieni yn llawer cryfach nag yr oeddent yn ei feddwl, ac eto:

> ‘Mae gymaint o oedolion yn cofio’r pethau drwg o’u cyfnod yn yr ysgol a be oedden nhw fethu gwneud pryd hynny, yn hytrach na be oedden nhw’n gallu gwneud.’

**4.32** Yn ogystal, gwnaethant nodi sut roedd rhai rhieni, drwy eu gweithredoedd a'u hamharodrwydd i ymdrin â phynciau penodol yn arwain at drosglwyddo eu hatgofion negyddol o'u profiad addysgol a'u gwendidau canfyddedig mewn pynciau penodol, i'w plant. Roeddent yn bygwth cyflawniadau addysgol eu plant yn y dyfodol yn y pynciau hynny roedd y rheini yn eu casáu. Nododd:

> ‘maen nhw’n trawsblannu eu hofnau nhw eu hunain ar eu plant. Does 'na ddim rheswm pam na ddylai plentyn fod yn dda gyda mathemateg oherwydd doedd mam neu dad ddim yn dda gyda mathemateg ugain mlynedd ynghynt.’

**4.33** Ac eto, serch hyn, credwyd bod ymddygiad rhieni yn ystod y pandemig wedi rhagfarnu rhai dysgwyr. Yn ôl aelodau o staff ysgol I, roedd agweddau rhieni at ddysgu wedi effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar ddisgyblion:

> ‘mae'r rhieni'n wynebu pwysau i raddau gwahanol, ac rwy'n meddwl bod hynny'n effeithio ar y plant sydd, yn eu tro, yn teimlo'n fwy pryderus.’

**4.34** Roedd ysgolion wedi ymateb drwy addasu eu dull o weithio ar-lein, o gynnig dim ond cronfa syml o waith, i ddarparu adnoddau digidol a oedd yn cynnwys elfen o diwtora i'r rhieni. Nododd aelodau o staff o ysgol L fod Adobe Spark, yn arbennig, wedi'i ddefnyddio i gefnogi rhieni:

> ‘ma rheini yn gallu gweld y cyflwyniad gyda fideo yn y Gymraeg a’r Saesneg, a ma popeth gyda'i gilydd. A ma’ ‘na un Adobe Spark ar gyfer iaith, un ar gyfer Mathemateg, ac un ar gyfer themâu. A ma hynny’n haws i rhieni ddilyn e.’

**4.35** Cafodd llwyfannau effeithiol eu sefydlu felly, gyda chefnogaeth gan rieni yn ystyriaeth allweddol.

**Ffigur 4.3: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref.**

> ‘Yn fy nheulu i, mae rhieni'n cyflawni mewn AU ac AB ond nid yw hynny'n ein gwneud ni'n arbenigwyr ar lefel ysgol gynradd. Yn wir, mae gweld y bylchau yn datblygu yn addysg a sgiliau cymdeithasol plant ac ystyried yr effaith hirdymor yn achosi llawer o straen.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)
>
> 'Rydyn ni'n dau, fel rhieni, wedi graddio o'r brifysgol ac felly rydyn ni'n gallu deall y rhan fwyaf o'r gwaith a gaiff ei anfon adref, a helpu i'w esbonio pan fydd angen. Rydyn ni'n dau'n gweithio, felly nid oes rhaid i ni boeni am fwyd, biliau na chael ein troi allan. Mae gennyn ni ddau liniadur, bwrdd lle gellir gweithio, ac mae gan y plant ystafell wely yr un ac mae gennym ardd. Felly mae ganddynt le i weithio gyda'i gilydd neu ar eu pen eu hunain a lle i fod allan yn yr awyr agored. Rwy'n dychmygu y byddai dysgu yn llawer anoddach ac yn fwy rhwystredig pe na bai gennym y pethau hyn.’ (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**Cyflogaeth rhieni**

**4.36** Roedd y pandemig wedi taflu goleuni cynyddol ar statws cyflogaeth rhieni. Ac eto, ar ddechrau'r pandemig, gyda'r disgwyliadau ar rieni i helpu gydag addysg eu plant, teimlwyd bod:

> 'tybiaethau penodol wedi cael eu gwneud fod gennym ni fel rhieni sy'n gweithio amser i addysgu hefyd.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

**4.37** Nododd staff o ysgol K mewn grŵp ffocws fod plant gweithwyr allweddol, yn gynyddol, i'w gweld dan anfantais. Yn wahanol i'r rhai a gafodd eu rhoi ar ffyrlo, ac a oedd felly â llawer mwy o amser i gefnogi eu plant yn ystod y pandemig, neu'r rhai a oedd yn gweithio gartref a allai gynnig cymorth sylweddol, ond cyfyngedig, roedd yn rhaid i weithwyr allweddol ddibynnu ar gymorth partner, aelodau'r teulu yn eu swigen neu'r ysgolion hyb. Mewn llawer o achosion, roedd gallu'r rheini hyn i gefnogi eu plant ac roedd cefnogi eu plant â thasgau heb eu cyflawni neu waith cartref, ar ôl diwrnod o waith mewn sectorau allweddol dan bwysau cynyddol y pandemig, yn straen sylweddol na fu modd i lawer ohonynt ymdopi ag ef.

**4.38** Soniodd un dysgwr o ysgol I am y ffordd roedd dynameg cyflogaeth ei rieni wedi effeithio ar ei addysg. Un o'r elfennau negyddol oedd gorfod dioddef 'dad yn fy addysgu' yn ôl ei gyfrif ef. Ac eto, yn sicr, byddai rhieni gwahanol yn llwyddo i gyflwyno'r addysg mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, nododd un rhiant yn ysgol K wrth ymateb i arolwg ei fod, yn ddiarwybod iddo'i hun, yn eithaf diamynedd:

‘Rwy'n ddiamynedd iawn, sy'n ddim help pan fydd fy merch yn strancio am nad yw hi'n deall y gwaith a dwi ddim yn gallu egluro...’

**4.39** Yn yr un modd, nododd un arall:

'Does gen i ddim amynedd i egluro popeth fil o weithiau ac am fod fy mhlentyn yn colli diddordeb yn hawdd...' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)

**4.40** Mewn achosion pan oedd y rhiant a fyddai'n fwyaf addas i ddarparu addysg yn gorfod cyflawni dyletswyddau yn ymwneud â'i gyflogaeth, bu'n rhaid i eraill ysgwyddo'r cyfrifoldeb, gyda chanlyniadau amrywiol.

**4.41** Mewn achosion pan oedd y ddau riant yn gweithio, ac yn gweithio gartref, roedd y trefniadau gweithio a gefnogwyd gan gyflogwyr yn chwarae rôl allweddol yn y ddarpariaeth y gallai'r rhieni ei chynnig i'w plant. Fel y nododd rhiant yn ysgol L wrth ymateb i'r holiadur rhieni:

‘[Roedd] sefyllfaoedd swyddfeydd rhieni [yn bwysig, roedd] rhai rhieni yn gallu ymdopi efo’r gwaith “flexi”’

**4.42** O ganlyniad, bu modd i rieni â threfniadau gweithio hyblyg ymateb yn fwy effeithiol i gefnogi eu plant. Fel y nododd un rhiant, wrth grynhoi ei ymdrechion arwrol:

'Rwy'n dechrau am 9am. Un plentyn ar y tro. Mae'r plentyn arall yn chwarae neu'n tarfu cymaint â phosibl. Egwyl i ginio ac yna dwi'n gweithio gyda'r plentyn nesaf tan 3. Yna, dwi'n mynd dros waith y bechgyn hŷn. Yna dwi'n gwneud fy ngwaith fy hun. Rwy'n gorffen erbyn 8pm. Yna rydyn ni'n gwneud yr un peth drannoeth.

**4.43** Ond yn anffodus, nid oedd arferion gwaith o'r fath yn cael eu cefnogi gan bawb. Nododd rhiant yn ysgol H wrth ymateb i arolwg mai ychydig iawn oedd yn ddigon ffodus i beidio â gorfod gweithio, neu oedd â'r rhyddid i drefnu eu hymrwymiadau fel y mynnont. I'r rhieni hynny, roedd y cymorth y gallent ei gynnig yn 'fratiog ac anghyson' ar y gorau, yn ôl tystiolaeth rhiant yn ysgol I yn ei ymateb i'r arolwg.

**4.44** Roedd yr hunangyflogedig mewn sefyllfa ffodus i allu cefnogi eu plant. Cofiodd un rhiant yn ysgol L fantais ei statws hunangyflogedig:

> ‘gwnaethom weithio gartref, ond mae gennym dyddyn felly rydyn ni'n gweithio allan yn yr awyr agored y rhan fwyaf o'r amser [gartref]... ac rydym wrth law ac yn gallu rhoi llawer o sylw personol iddo.’

**Disgwyliadau rheini**

**4.45** Ac eto, roedd tystiolaeth yn awgrymu fod rhieni hunangyflogedig, yn enwedig yn y sector amaethyddol, wedi manteisio ar y ffaith bod eu plant gartref. Nodwyd bod natur amrywiol bywyd fferm yn amharu ar allu rhai plant i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar eu hastudiaethau. Fel y nododd rhiant o ysgol L wrth ymateb i'r holiadur rhieni, roedd ei allu i gynnig cymorth a'r angen i'w plant helpu weithiau, yn dibynnu 'ar yr hyn roedd angen ei wneud y tu allan ar y fferm'. Nododd aelod o staff o ysgol H, ymhellach, wrth ymateb yn ysgrifenedig fod 'cyfrifoldebau cartref', gan gynnwys ffermio wedi effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth a gafodd rhai dysgwyr. Fel y nododd aelodau'r grŵp ffocws a gafodd ei ymgynnull yn ysgol J, yn gynyddol 'nid oeddent yn gweld llawer ohonynt [plant o gefndiroedd amaethyddol] yn ystod y diwrnod ysgol.'

**4.46** Yn gynyddol, roedd disgwyliadau yn y cartref yn chwarae rhan amlwg wrth gyfrannu at roi plant dan anfantais. Yn ogystal â materion yn ymwneud â disgwyliadau o ran gwaith, roedd disgwyliadau gofalu yn cael eu rhoi'n gynyddol ar ddisgyblion eraill. Er ei bod yn bosibl bod disgwyliadau iddynt wneud hyn, ar ôl ysgol yn bennaf, cyn Covid-19, awgrymwyd bod y disgwyliadau ar rai wedi cynyddu yn ystod y pandemig am eu bod gartref ac wrth law bob amser.  Fel y nododd aelod o staff ysgol K:

> ‘Mae gennym ni sawl gofalwr ifanc, ac rwyf wedi sylwi nad ydynt yn ymgysylltu. Ni fyddwn yn disgwyl iddynt ymgysylltu i'r un graddau, ond efallai bod dod i'r ysgol yn ddihangfa iddynt, a dydyn nhw ddim yn cael hynny nawr. Byddent yn cael gweld eu ffrindiau a gallant gael bywydau normal i raddau helaeth, ond mae bod gartref nawr wedi eu gwthio yn ôl. Dydw i ddim yn gwybod a oes rhaid iddynt helpu mwy gartref, ond dydw i ddim wedi cael unrhyw beth gan y disgyblion rwy'n gwybod eu bod yn ofalwyr ifanc.'

**4.47** Mae'n bosibl na fydd yr ysgol wedi sylw ar ddisgwyliadau felly yn y gorffennol, neu efallai y bydd staff wedi bod yn ymwybodol ohonynt ond nad ydynt wedi cael eu

hystyried yn rhywbeth sylweddol. Oherwydd, fel y nododd aelod o Uwch-dîm Arwain ysgol H:

> ‘Efallai bod nhw’n gweithio’n OK yn yr ysgol, ond wedyn pryd ma nhw’n mynd adre y disgwyl ydy iddyn nhw weithio ar y fferm neu bod yn rhaid iddyn nhw edrych ar ôl plant. Ma pethau fel na’n dod mewn i’r peth. A ti jest yn ffeindio’r pethau ‘ma allan pryd ma ddisgwyl i weithio trwy dydd ar y we adref, a ma rhaid gofyn ‘pam dwyt ti ddim yna’ a ‘beth yw’r broblem?’ A dim ond wedyn wyt ti’n clywed nhw’n dweud fod rhaid iddyn nhw neud hyn, hyn a hyn.’

**Natur y teulu**

**4.48** Nodwyd bod natur yr uned deuluol yn ystyriaeth arbennig o sylweddol hefyd. Gallai perthnasau hŷn sydd angen gofal a chymorth neu, yn fwy arwyddocaol, aelodau ychwanegol newydd yn y teulu roi disgyblion dan anfantais ddifrifol. Fel y nododd mam o ysgol I yn ei hymateb i'r arolwg rhieni:

> 'Ni allwn ganolbwyntio'n llawn ar fy merch a'i helpu â'i gwaith yr holl amser am fod gen i fabi ifanc i ofalu amdano.'

**4.49** Er gwaethaf ymdrechion gorau rhieni, fel rhiant yn ysgol I a nododd wrth ymateb i'r arolwg ei bod yn ceisio gweithio 'o gwmpas yr amser pan oedd y babi'n cysgu yn y bore', ond nad oedd strategaethau o'r fath bob amser yn llwyddiannus. Yn ogystal â llai o gyfleoedd i rieni gefnogi eu plant hŷn mewn achosion o'r fath, golygai hefyd fod yn rhaid i'r plant ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn aml, naill ai yn ymwneud â gofalu am y babi newydd, neu frodyr a chwiorydd eraill. Fel y nododd rhiant yn ysgol H wrth ymateb i'r arolwg rhieni:

> ‘Bu'n rhaid i mi ofyn i'm plentyn hynaf helpu, a oedd yn rhwystredig iddo ef am y byddai'n rhaid iddo roi'r gorau i wneud ei waith ei hun.'

**4.50** Mewn llawer o achosion felly, roedd y sefyllfa yn rhwystredig iawn i ddisgyblion â brodyr a chwiorydd, ond roedd yr un peth hefyd yn wir am unig blant. Fel y nododd rhiant yn ysgol L mewn cyfweliad â rhieni, roedd ei fab dan anfantais am mai ef oedd yr unig blentyn ar yr aelwyd. Nododd:

> ‘Un plentyn sydd gennym ni a dyw e ddim yn gweld plant eraill pan nad yw'n mynd i'r ysgol am wythnosau ac wythnosau... Felly, o safbwynt cymdeithasol,

mae angen i blant fod yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu'n ffisegol â phlant ac athrawon...'

**4.51** Roedd camsyniad cyffredin, sef er bod y sefyllfa yn anodd i unig blant a'u rhieni, fod yr anawsterau a wynebwyd gan deuluoedd a brodyr a chwiorydd yn cynyddu'n anghymesur. Fel y nododd rhiant yn ysgol H wrth ymateb i'r arolwg rhieni:

> ‘Yn ei hanfod, pe bai gennych un plentyn, byddai wedi bod yn hawdd iawn.’

**4.52** Ymddengys fod sylw o'r fath yn ddi-sail, am nad oedd pob teulu neu ddysgwr yn y sefyllfa hon yn wynebu'r un anfantais, ond yn hytrach roedd yr anfantais yn amrywiol. Ac eto, efallai ei bod yn ddigon gwir fod rheini wedi gallu rhannu eu hamser yn fwy llwyddiannus wrth gefnogi unig blentyn. Fel y nododd rhiant yn ysgol H wrth ymateb i'r arolwg, roedd yn 'anodd ceisio helpu pawb ar yr un pryd' yn yr amser oedd ar gael.

**4.53** Yn ogystal, gall materion yn ymwneud â mynediad at adnoddau gael eu gwneud yn anoddach pan fydd brodyr a chwiorydd yn y teulu, er y gall hyn fod yn broblem i aelwydydd ag unig blentyn hefyd. Yn yr aelwydydd hyn â mwy nag un plentyn, gall fod rhywfaint o ddarpariaeth ar gael ar ffurf dyfeisiau unigol, a fyddai yn golygu bod llai o hawl ganddynt i ddarpariaeth ychwanegol nag aelwydydd ag un plentyn nad oes ganddynt unrhyw galedwedd technolegol. O ganlyniad, roedd y problemau yn ymwneud â mynediad at dechnoleg yn fwy amlwg mewn aelwydydd â mwy nag un plentyn. Fel y cyfryw, bu'n rhaid blaenoriaethu'r ddarpariaeth yn yr aelwydydd hynny i'r plant yr ystyrir eu bod yn fwyaf haeddiannol. Yn aml, fel y nododd aelod o staff o ysgol H fel rhan o ymateb mewn grŵp ffocws:

> ‘y rhai hyn, ym mlwyddyn 10, 11 ac i fyny fyddai probably yn mynd yn fwy i’w gwersi na brodyr a chwiorydd iau.’

**4.54** Ac eto, mewn realiti, roedd anghenion addysgol y plant yn debyg. Yn hytrach, roedd 'hawl' brodyr a chwiorydd i dechnoleg yn cael ei phennu gan ddigwyddiadau arwyddocaol allweddol a oedd ar y gorwel, fel arholiadau. Roedd tueddiad o'r fath, felly, yn blaenoriaethu gwella dysgu rhai plant ar draul eu brodyr a'u chwiorydd a fyddai'n cael darpariaeth addysgol sylfaenol. Fel y cyfryw, roedd natur y teulu, yn gysylltiedig â mynediad i adnoddau, yn ystyriaeth i'w nodi.

**Ffigur 4.4: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu yn y cartref.**

> ‘O'm rhan i, gwelais fod rhai plant nad oeddwn yn meddwl y byddent dan anfantais yn wynebu anfantais.  Efallai am fod ganddynt frodyr a chwiorydd gartref hefyd a'u bod yn gorfod rhannu sylw eu rhieni. Ac felly gallai hynny greu tensiwn wrth gystadlu am sylw mam. Ac yna mewn cartrefi eraill, pan fydd mam a dad gartref yn ceisio gweithio ac yn ceisio edrych ar ôl y plentyn. Bu hyn yn broblem i ni gyd, ond rydych yn ystyried gwahanol raddau nawr. Rydych yn sôn am blant ag anawsterau dysgu dwys. Felly gall hynny gael ei ystyried yn anfantais am nad yw'r plentyn yn cael cymaint o sylw ag y byddai'n ei gael yn amgylchedd yr ysgol. Ac er y gall fod mewn ystafell ddosbarth gyda deg o blant eraill, mae cael sylw llawn y cynorthwywyr dosbarth a'r athrawon yn sefyllfa wahanol i'r hyn y maent yn ei wynebu gartref. Y mwyaf rydyn ni wedi bod yn siarad â'r rhieni, y mwyaf amlwg y mae hyn wedi dod i ni'. (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)

**Amgylchedd y cartref**

**4.55** Roedd y ffaith bod disgyblion a rhieni yn treulio mwy o amser gyda'i gilydd, gyda rhieni yn gynyddol yn darparu addysg i'w plant yn golygu bod mwy o straen yn cael ei roi ar y gydberthynas rhyngddynt. Fel y nododd rhiant yn ysgol J mewn ymateb i'r arolwg rhieni, roedd y sefyllfa wedi 'achosi straen yn y teulu.' Roedd anghydfod o'r fath yn destun pryder i staff, lle roedd straen o'r fath yn hysbys eisoes. Fel y nododd staff o ysgol I yn ystod eu grŵp ffocws, roedd pryder ynghylch disgyblion penodol:

> ‘[Weithiau] rydych chi'n gwybod am y sefyllfa gartref a'u bod yn ffraeo â'u mam ychydig...’

**4.56** Yn anffodus, roedd straen newydd hefyd yn codi ochr yn ochr â'r straen bresennol yn gwaethygu. O'r dystiolaeth, ymddengys fod pwysau dysgu yn y cartref yn arbennig o amlwg rhwng rhieni a phlant ag ADY. Fel yr amlygwyd gan fam o ysgol H mewn cyfweliad rhieni, roedd rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd deall y newid i ddysgu yn y cartref ac i ymgysylltu ag addysg mewn ffordd ystyrlon yn y cartref. Dywedodd:

> 'Roedd fy mab wedi ei chael hi'n anodd deall y peth a dysgu [yn y cartref] oherwydd... mae'r ysgol ar gyfer dysgu, ac mae'r cartref ar gyfer ymlacio.'

**4.57** Neu, fel y nododd rhiant arall o ysgol H wrth ymateb i'r arolwg 'cartref yw cartref ac ysgol yw ysgol'. O ganlyniad, fel y nododd un rhiant yn ysgol H:

'Rydyn ni'n gorfod brwydro bob dydd i'w gael e' i wneud ei waith ysgol pan fydd dosbarthiadau.'

**4.58** Yn ogystal, fel y nododd rhiant yn ysgol H yn ei gyfweliad, roedd ymgysylltu yn amgylchedd y cartref yn heriol i ddisgyblion drwyddi draw:

'oni bai fy mod yn eistedd gyda fe wrth iddo wneud y gwersi hynny, mae'n dueddol o chware ar yr iPad yn ei ymyl.'

**4.59** Ac eto, fel y nodwyd, nid oedd pob plentyn wedi cael y cymorth hwnnw. Ac eto, fel yr oedd yn amlwg o dystiolaeth staff ysgol J, roedd ymdeimlad bod rhyngweithio ac ymgysylltu'n lleihau gartref oherwydd y diffyg cymorth i gynnal ffocws, ac am fod mwy o bethau i dynnu sylw yn amgylchedd y cartref.

'Rwy'n poeni eu bod yn mynd i ffwrdd ac nad oes ganddynt y gallu hwnnw i dalu sylw mwyach. Nid oes ganddynt y bobl hynny o'u blaen yn dweud wrthynt, na, peidiwch â mynd i ffwrdd a gwneud hyn. Peidiwch â gohirio gwneud rhywbeth.... Mae'n hawdd sylwi ar ddisgybl yn cerdded allan o'ch dosbarth, ond nid yw mor hawdd sylwi ar ddisgybl yn crwydro i ffwrdd all-lein.'

**4.60** Heb yr anogaeth honno gan rieni drwyddi draw, daeth rhai disgyblion yn llai a llai parod i wneud gwaith. Nododd athro y cyfwelwyd ag ef fel rhan o grŵp ffocws yn ysgol H fod rhai o'u disgyblion yn ymladd yn erbyn addysg o ganlyniad i ryngweithio cymdeithasol â'u cymheiriaid. Roedd hyn yn gyfrifol am niweidio addysg rhai dysgwyr:

'Efallai eu bod yn meddwl bod pawb yn ddi-hid, ac nad oedd neb yn gwneud unrhyw waith. Oherwydd dwi'n siŵr wrth sgwrsio ar Snapchat... byddan nhw'n gofyn 'ydych chi wedi gwneud hynna?' ac maen nhw'n cael yr ateb 'na, dwi ddim yn gwneud dim. Rwyf wedi bod ar fy X box drwy'r bore' ac... roedd rhai plant wedi credu hynny.’

**4.61** Roedd un rhiant yn ysgol J wedi nodi rôl rhwydweithiau cymdeithasol ymhlith disgyblion wrth ysgogi gwrthwynebiad i agweddau ar ddysgu yn y cartref. Cofiodd un achos pan roedd ei mab wedi mynegi gwrthwynebiad i fenter ysgol benodol:

'Dywedodd fy mhlentyn ifancaf, wel, dwi ddim yn gwneud hynny... dywedodd, wel, mae hanner fy ffrindiau’n dweud nad ydyn nhw'n mynd i'w wneud e... fel bod eu grŵp cymheiriaid bach ar eu ffonau symudol wedi penderfynu ei fod yn

sbwriel ac nad oedd hanner ohonynt yn mynd i'w gwblhau. Does bosib, os yw'r athro yn dweud wrthych chi i neidio i fyny ac i lawr 10 gwaith, rydych chi'n ei wneud!

**4.62** Heb awdurdod clir gan athrawon mewn cyd-destun wyneb yn wyneb, roedd gwrthwynebiad a thueddiad gwrthryfelgar i herio awdurdod wedi datblygu'n gyflym. Fel y nododd:

> ‘mae rhywun wedi dweud wrthym ni i wneud rhywbeth, felly mae'r ffaith bod yr athro wedi gofyn i ni ei wneud yn golygu nad ydym yn ei wneud. Ni fyddai wedi bod ots beth ydoedd.’

**4.63** O ganlyniad, roedd rôl awdurdod rheini, a'r angen i greu rheolau a oedd yn sicrhau bod plant yn cydymffurfio â disgwyliadau ysgolion yn gynyddol amlwg. O ganlyniad, gallai tyndra ddatblygu, a gwelwyd bod hyn wedi digwydd. Ymhelaethodd rhiant yn ysgol H ar ei brofiadau drwy nodi:

> ‘Naill ai mae'n rhaid i fi gynhyrfu fy mab i'r pwynt lle mae'n ei cholli hi dair neu bedair gwaith yr wythnos, neu mae'n rhaid i mi wneud beth fedra' i. Ac felly, mae ei addysg yn cael ychydig o ergyd.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

**4.64** Nododd rhiant arall, o ysgol D, mewn ymateb i'r arolwg rhieni ei fod wedi:

> 'teilwra fy fersiwn fy hun o ddysgu yn y cartref... roedd yn bwysicach i fi i flaenoriaethu iechyd meddwl a lles fy mhlentyn yn ystod y cyfnod hwn dros ddilyn unrhyw gwricwlwm.'

**4.65** Mewn ymgais i osgoi'r tyndra hwn, roedd rhai rhieni wedi cwtogi ar y ddarpariaeth addysgol a gynigiwyd i'w plant. Oherwydd, fel y nododd un rhiant:

> ‘Nid yw'n deg i fi fel rhiant fod yn flin â'm mhlant am beidio â gwneud gwaith ar-lein!’ (ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

**4.66** Er lles cyffredinol ei fab, a sefydlogrwydd yr uned deuluol, bu'n rhaid rhoi'r ystyriaethau addysgol i'r naill ochr ar brydiau. Yn ogystal, nododd rhiant arall o ysgol H, Byddai'n well gen i fod yn hapus a sicrhau bod fy mhlentyn yn hapus', yn hytrach na gorfod ei wthio cymaint i gyflawni ei nodau addysgol nes y byddai 'dan straen' ac y byddai ei les yn dioddef.

**Ansefydlogrwydd ariannol cynyddol**

**4.67** Ystyriaeth allweddol arall oedd dwysáu anghydraddoldeb ariannol, a thanseilio seiliau ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Tynnodd y pandemig sylw ar natur sigledig llawer o deuluoedd a oedd yn byw ychydig yn uwch na'r ffin dlodi dan amgylchiadau arferol. Ond roedd effaith y pandemig wedi golygu bod y teuluoedd hynny wedi syrthio o dan y ffin honno. Gyda chostau sy'n gysylltiedig â chadw plentyn gartref, ac effaith incwm ffyrlo, nodwyd bod rhai teuluoedd mewn sefyllfa fregus iawn ac ar fin syrthio i dlodi. Wrth grynhoi'r ffigurau eFSM ar gyfer ei ysgol, nododd aelod o Uwch-dîm Arwain ysgol H:

> '[mae'r ffigurau] wedi hedfan lan yn y flwyddyn diwethaf. Er enghraifft, ar y lefel uwchradd mi oedd 7.8% gyda ni'n eFSM, ond yn yr uwchradd nawr mae e dros 13%. So, wrth cyfuno gyda'r ysgol gynradd, sydd tua 25%, gyda'r ysgol gyfan mi ydyn ni'n 16% eFSM, sydd yn newid anferth yn y blwyddyn diwethaf... [Yn] 2015 roedd e'n 5.6%, a pob blwyddyn wedi hynny mae e wedi bod yn mynd i fyny rhyw 1%, ond wedyn mae e wedi cynyddu dros 5% mewn blwyddyn! Ma rhaid fod effaith Cofid wedi cael effaith'.

**4.68** Roedd aelodau o staff ysgol K wedi dod yn ymwybodol o'r teuluoedd tlawd newydd hyn a oedd yn ei chael yn gynyddol anodd hyd yn oed bwydo eu teuluoedd. Fel y soniwyd mewn grŵp ffocws:

> 'Rydyn ni wedi sylweddol ymhellach ar] teuluoedd, a efallai yn fwy oherwydd Covid, sydd yn stryglo o rhan bwyd. Dwi wedi gorfod cysylltu gyda'r banc bwyd...a dwi di gorfod mynd a bwyd i'r drws i dau deulu yn ystod y cyfnod.'

**4.69** Yn ogystal, nododd aelod o Uwch-dîm Arwain ysgol H:

> 'Ma' rhai yn dod o teuluoedd lle nawr dydy'r mamau a'r tadau ddim yn gweithio, a bod dim gymaint o arian yn dod i mewn... ma na, felly, mwy o bobl o dan anfantais am nad yw eu rhieni nhw'n gweithio.'

**4.70** Nodwyd y bu'n rhaid i eraill chwilio am gyflogaeth ychwanegol i ategu eu sail economaidd. O ganlyniad, effeithiwyd mwy fyth ar ryddid yr unigolion hyn i gefnogi eu plant:

> 'Rydyn ni'n dau'n gweithio'n llawn amser, rydyn ni hyd yn oed wedi dechrau swyddi ychwanegol oherwydd ein bod ni wedi colli incwm o dreuliau teithio.

> Mae bron yn amhosibl i ni ddarparu'r lefel barhaus o gymorth sydd ei angen er mwyn i'n plentyn wneud cynnydd.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**4.71** Roedd costau cynyddol sicrhau'r ddarpariaeth angenrheidiol er mwyn i'w plant ymgysylltu â'u haddysg o gartref wedi costio'n ddrud i rai. Fel y nododd aelod o staff yn ysgol A:

> 'Mae'n gallu golygu dim mynediad yn y cartref at dechnoleg/rhyngrwyd.' (Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**4.72** Nodwyd bod cost cysylltedd yn herio bregusrwydd economaidd cynyddol rhai teuluoedd. Cofiodd staff yn ysgol J enghraifft arbennig o dorcalonnus lle roedd un fam wedi nodi:

> '[Roedd] bill BT wedi cynyddu gymaint fel roedd hi'n brin o arian ar gyfer y Nadolig.'

**4.73** Yn ogystal, nododd un rhiant:

> 'Roedd yn well gan fy mab weithio yn yr heulfan am ei bod yn oleuach ond gwnaeth hynny gostio mwy mewn tanwydd i ddefnyddio'r gwresogydd olew yn ystod y dydd.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)

**Mynediad at adnoddau**

**4.74** O ran adnoddau, nododd un cyfranogwr:

> 'Mae gennych ddisgwyliadau penodol y bydd teuluoedd yn gallu manteisio ar ddysgu ar-lein a bod ganddynt liniaduron ac mae'n syndod [pan na fydd ganddynt eitemau penodol].' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

**4.75** Roedd diffyg adnoddau rhai aelwydydd yn destun pryder difrifol i staff a rhieni. Roedd diffyg adnoddau syml mewn rhai cartrefi oherwydd amddifadedd economaidd, siopau'n cau a diffyg angen am y cyfryw adnoddau yn gyffredinol. Fel y nododd aelodau staff ysgol K, cawsant eu synnu gan ddiffyg:

> '[y] pethau sylfaenol fydden i ddim yn meddwl am pan oedden nhw yn yr ysgol pob dydd...'

**4.76** Er gwaethaf yr ymdrechion gorau i ystyried yr angen am ddiffygion technolegol amlwg, nid ystyriwyd yr angen am adnoddau mwy cyffredin. Y tu hwnt i offer mathemategol penodol fel onglyddion ac ati, nid ystyriwyd cynnwys casys pensiliau yn draddodiadol am fod eitemau o'r fath yn hawdd i'w benthyg neu am fod cyflenwad ohonynt ar gael yn y dosbarth. Ac eto, os nad oedd adnoddau o'r fath ar gael gartref, ni allai disgyblion wneud y gwaith. Cyfaddefodd y staff eu bod wedi dod i ystyried amrywiaeth lawer ehangach o brinder adnoddau, er enghraifft, ‘dim pensiliau na siswrn, ac yn y blaen, felly oedd rhaid mynd a rheina i’r drws.’ O ganlyniad:

> ‘[Roedd rhaid i ni] creu pecynnau rili sylfaenol i un neu ddau deulu lle doed ddim papur, pensiliau, creonau... siswrn, glud, na phren mesur. Y pethau yna fyddech chi’n cymryd yn ganiataol fod gan blentyn.’

**4.77** Derbyniwyd bod tueddiad i gredu os nad oedd gan ddisgybl eitem benodol ei fod wedi'i hanghofio neu ei cholli, yn hytrach na bod hynny'n arwydd o dlodi adnoddau.

**4.78** Yn ogystal â pharatoi pecynnau adnoddau, bu'n rhaid darparu copïau caled o'r deunyddiau a ddarparwyd gan yr ysgol i lawer o ddisgyblion. Oherwydd, fel y nododd athro/cynorthwyydd cymorth dysgu o ysgol A, roedd llawer o blant:

> 'yn mynd i gartrefi heb fynediad i'r rhyngrwyd.'

**4.79** Yn ogystal, hyd yn oed lle roedd mynediad i'r rhyngrwyd, nid oedd gan aelwydydd y caledwedd na'r gallu ariannol i argraffu taflenni gwaith o'r fath. Nododd un rhiant yn ysgol K mewn ymateb i'r arolwg rhieni pa mor anodd ydoedd i:

> 'argraffu'r taflenni gwaith am fod cymaint ohonynt. Un diwrnod, roedd bron 20 [tudalen]!'

**4.80** Roedd yn anodd iawn ar rai, a ofynnodd i aelodau o'r teulu agos am help gydag inc ac argraffwyr, tra roedd eraill wedi methu'n llwyr. O ganlyniad, bu'n rhaid i staff yn gynyddol baratoi a dosbarthu'r pecynnau hyn yn ystod diwrnodau cynnar y pandemig.

**4.81** Yn ogystal, gwelwyd bod diffyg adnoddau a fyddai wedi cynorthwyo datblygiad addysgol plant yn y cartref, fel llyfrau. Byddai ysgol H fel arfer yn rhannu llyfrau a chylchgronau, ond:

> ‘[Er] rydyn ni yn trio hyrwyddo darllen yn yr ysgol, achos y cyfyngiadau ar rannu papur dydyn ni ddim wedi bod yn gallu rhannu llyfrau iddyn nhw fynd adref a nhw...’

**4.82** Roedd amddifadedd yn amlwg, gyda chynifer o deuluoedd heb adnoddau o'r fath adref. Cynyddodd rôl yr ysgol fel cyflenwr adnoddau yn ystod y cyfyngiadau symud. Fel y nododd aelodau o staff ysgol K, roedd athrawon, yn syml:

> ‘Ni wedi cymryd pethau yn ganiataol rhy hir’

**Gweithfan**

**4.83** Roedd sawl cyfranogwr wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau gweithfan effeithiol i ddisgyblion gartref. Roedd ardaloedd gweithio yn aml yn cael eu rhannu gan aelodau o'r teulu a brodyr a chwiorydd. Er enghraifft, nododd un rhiant yn ysgol K rwystredigaeth am mai dim ond 'un Swyddfa' oedd ganddynt yn y cartref ac felly dim ond un weithfan benodol lle gellid meithrin amgylchedd gwaith arferol. Bu'n rhaid i lawer o ddisgyblion ddefnyddio bwrdd y gegin. Er gwaethaf y manteision, er enghraifft fod cymorth wrth law, nid oedd yn addas defnyddio ardaloedd cyhoeddus o'r fath am fod llawer o bethau i dynnu eu sylw, fel aelodau o'r teulu yn dod heibio, a phrysurdeb bywyd beunyddiol, yn enwedig wrth baratoi prydau bwyd. Fel y nododd disgybl o ysgol I wrth ymateb i'r arolwg:

> ‘Roedd yn anodd ceisio canolbwyntio gartref gyda phopeth oedd yn digwydd yn y tŷ.’

**4.84** Bu'n rhaid i eraill ddefnyddio eu hystafelloedd gwely. Golygai hyn fod llawer o ddisgyblion yn wynebu, fel y nododd disgybl o ysgol H wrth ymateb i'r arolwg, 'diffyg lle addas i ddysgu gartref am fy mod yn rhannu ystafell'. Yn ogystal, pan oedd plant yn gweithio mewn ystafelloedd gwely, oddi wrth yr ardaloedd cymunol, nid oedd mor hawdd monitro i ba raddau roeddent yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu. Ni allai rhieni 'gadw llygad' a gofalu nad oedd pethau'n tynnu sylw eu plant i'r un graddau pan oedd eu plant y tu ôl i ddrws caeedig, fel y nododd rhiant yn ysgol H wrth ymateb i'r arolwg. O ganlyniad:

> 'mae rhieni yn gadael [i'r plant] fynd i'w hystafelloedd gwely gan dybio eu bod yn gwneud eu gwaith cartref. Mae'r dybiaeth honno yn cael ei gwneud nawr

am y diwrnod ysgol cyfan ac mae llawer o blant yn chwarae gemau drwy'r dydd ond yn dweud wrth eu rhieni eu bod yn gweithio!' (Ymateb Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol J)

**4.85** Roedd ffactorau negyddol eraill i'w hystyried yn ogystal â phethau oedd yn tynnu sylw disgyblion. Roedd blinder yn bryder arall a oedd yn gysylltiedig â gweithio gartref, mewn amgylchedd nad oedd yn addas ar gyfer addysg, ym marn y plant. Soniodd rhiant yn ysgol H mewn cyfweliad fod ei blentyn wedi ymateb yn dda, i ddechrau, i weithio wrth fwrdd y gegin. Dywedodd:

> '[A]r y dechrau roedd hi'n dygymod yn eithaf da efo'r sefyllfa.... [ond] ma hi jest di cael absoliwt llond bol o dysgu ar lein, ar cyfrifiadur, o adref [erbyn hyn].'

**4.86** Nodwyd y niwed emosiynol a oedd yn gysylltiedig â gweithio yn yr un lleoliad cyfyngedig am wythnosau yn ddi-ben-draw gan riant yn ysgol J mewn cyfweliad. Nododd fod un o'i ferched yn dioddef yn gynyddol o 'ddiffyg cymhelliant llwyr a theimlo'n ddigalon ac yn isel', a oedd, yn ei farn ef, yn deillio o gael ei chyfyngu i weithio gartref am gyfnod mor estynedig, heb gyfathrebu ystyrlon y tu allan i'r aelwyd. Fel y nododd athro yn ysgol I:

> 'mae llawer mwy o blant nag rydyn ni'n gwybod amdanynt, ac sydd wedi cael eu nodi i ni drwy gyfathrebu â rhieni sy'n ei chael hi'n anodd gartref ac mae angen i'r plant hynny ddod mewn... mae'r plant hynny sy'n dioddef o orbryder - yn fwy na dim - yn dod mewn [i'r ysgol] erbyn hyn.  Rwy'n credu eu bod yn dioddef am nad ydynt yn cael unrhyw gyswllt â'u ffrindiau. Felly os ydyn nhw'n gofidio, neu'n unig blentyn neu os ydyn nhw'n dioddef mewn unrhyw ffordd o ran eu lles, gallwn drefnu iddynt ddod i mewn.'

### Crynodeb

**4.87** Tynnwyd sylw at natur y gefnogaeth yn y cartref fel ystyriaeth allweddol o ran lles addysgol dysgwyr pan fyddant wedi cael eu tynnu allan o amgylchedd traddodiadol yr ysgol.

**4.88** Nodwyd bod parodrwydd rhieni i fynd i'r afael â'r disgwyliadau ohonynt, fel hwyluswyr a chefnogwyr addysg, yn hollbwysig. Os oedd rhieni yn barod i gynorthwyo a helpu eu plant, roedd y manteision yn glir i'w gweld, yn ôl staff

ysgolion. Ac eto, gallai'r profiad o ddysgu yn y cartref fod yn anodd ac yn dlawd i'r dysgwyr hynny nad oedd ganddynt yr un lefelau o gefnogaeth.

**4.89** Yn ogystal, gallai diffyg ymrwymiad rhieni i addysg arwain at ddysgwyr yn colli diddordeb yn gynyddol yn y profiad addysgol am na fyddai eu diffyg ymgysylltiad yn cael ei herio gan rieni ymrwymedig.

**4.90** Roedd natur y ffactorau hynny a oedd yn cyfrannu at gyfyngu ar lefel y cymorth gan rieni yn amlwg, o effeithiau ymrwymiadau gwaith yr ystyriwyd eu bod yn 'hanfodol' yn ystod y pandemig, i'r disgwyliadau gwaith anhyblyg oedd ar rai cyflogeion. Roedd y ffactorau hyn, ymhlith eraill, yn rhoi rhai rhieni dan anfantais glir.

**4.91** Ac eto, mae'n rhaid cydnabod hefyd nad oedd llawer o rieni wedi'u paratoi'n ddigonol, a'u bod yn teimlo na chawsant y cymorth cywir, i ddechrau, i ymgymryd â'u rôl newydd fel addysgwyr.

**4.92** Yn ogystal, roedd llawer nad oeddent wedi'u paratoi'n ddigonol o ran yr adnoddau ychwanegol roedd eu hangen i gynnal dysgwyr a'u lles addysgol gartref, o ran technoleg ac adnoddau addysgol eraill fel papur a phensiliau. Nid oedd llawer o aelwydydd hefyd wedi paratoi'n ddigonol i ddarparu lle i ddysgwyr weithio'n effeithiol.

**4.93** Oherwydd y gofyniad i sicrhau adnoddau o'r fath, er gwaethaf cymorth gan ysgolion, a'r pwysau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chadw plant gartref am gyfnodau hir, ynghyd â sefyllfaoedd cyflogaeth bregus, roedd llawer o aelwydydd wedi dioddef o fregusrwydd ariannol cynyddol.

## 5. Canfyddiadau o ran darpariaeth ysgol

### Cyflwyniad

**5.1** Canfuwyd bod y mater ynghylch sut roedd yr ysgolion yn yr astudiaeth wedi parhau i ddarparu profiadau dysgu ac adnoddau cysylltiedig yn ystod y cyfyngiadau symud yn eang ac yn gymhleth. Cafodd y canfyddiadau am ddarpariaeth ysgol eu hisrannu felly yn saith categori, er mwyn canolbwyntio ar y meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Dyma'r meysydd allweddol:

- Cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r amgylchedd dysgu yn y cartref
- Gwella hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r gallu i'w addasu
- Ymatebion i'r amrywiaeth o ddeunyddiau addysgol a ddarparwyd a'u hansawdd, gan gynnwys adnoddau digidol a ffisegol.
- Y cymorth bugeiliol a ddarperir i ddisgyblion a theuluoedd / gofalwyr
- Cymorth a chyfleusterau addysgol a ddarperir ar y safle gan ysgolion Hyb dynodedig i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed.
- Darpariaeth a chymorth i ddisgyblion sy'n pontio rhwng ysgolion neu gyfnodau allweddol yn ystod y cyfyngiadau symud ac wrth ddychwelyd i'r ysgol wedi hynny.
- Darpariaeth a chymorth i ddisgyblion mewn blynyddoedd arholiadau yn ystod y cyfyngiadau symud ac wrth ddychwelyd i'r ysgol wedi hynny.

**Cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r amgylchedd dysgu yn y cartref**

**5.2** Ystyriwyd mai lefel ac ansawdd y cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd neu ofalwyr oedd y ffactor pwysig cyntaf wrth gefnogi'r ddarpariaeth, a bod hyn yn gyfrwng ar gyfer cadw mewn cysylltiad rhwng ysgolion a disgyblion a'u teuluoedd neu ofalwyr. Yn ogystal, byddai cadw mewn cysylltiad da a rheolaidd yn galluogi ysgolion i gasglu gwybodaeth am sefyllfa disgyblion unigol a'u teuluoedd neu ofalwyr ac, yn seiliedig ar hyn, addasu'r ddarpariaeth lle bynnag y bo'n bosibl i adlewyrchu anghenion addysgol, bugeiliol ac ymarferol yr unigolyn. Ystyriwyd felly fod sefydlu cyfathrebu clir ac effeithiol yn hanfodol bwysig fel cam cyntaf angenrheidiol yn y ddarpariaeth.

**5.3** Roedd arweinwyr ysgolion ac athrawon a oedd yn rhan o'r astudiaeth wedi disgrifio prosesau, amlder a phwysigrwydd cadw mewn cysylltiad:

> 'Dyfeisiodd ein hysgol adnodd olrhain dysgwyr agored i niwed er mwyn sicrhau nad oedd y dysgwyr hyn heb gefnogaeth neu gyswllt gan yr ysgol am ormod o amser. Caiff yr adnodd olrhain hwn ei ddiweddaru bob wythnos ac mae hefyd yn ystyried pob brawd a chwaer sydd yn yr ysgol. Mae wedi golygu ein bod ni fel athrawon yn gallu gwneud cyswllt personol â'r teulu hwnnw a'r plant hynny er mwyn cael gwybod beth y gallwn ei wneud i gefnogi ac annog dysgu yn y cartref. Mae wedi gweithio'n dda ar sawl achlysur.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

> ‘...roedd yn dibynnu ar deuluoedd. Roedd athrawon yn cadw mewn cysylltiad yn wythnosol neu'n amlach, naill ai dros e-bost neu drwy alwad ffôn. Gyda rhai teuluoedd, roedd yn amlach nag unwaith yr wythnos. Gan ddibynnu eto ar eu sefyllfa, weithiau byddai teuluoedd un rhiant eisiau siarad am y gwaith neu drafod problemau ymddygiad roeddent yn eu hwynebu gyda'u plentyn'. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**5.4** Roedd llawer o rieni o'r farn bod lefelau cyswllt yn bwysig, a gwnaethant ganmol ymdrechion a ffocws ysgolion wrth gadw mewn cysylltiad:

> ‘Mae'r cyfathrebu wedi bod yn dda erioed, ond rwy'n meddwl bod y cyfathrebu gan yr athro dosbarth, y rhwydwaith cynorthwyol sydd ganddi yn y dosbarth a'r Pennaeth wedi gwella hefyd, am fod y pennaeth yn cyfathrebu'n gyson â'r rhieni i gyd drwy ap Dojo.’ (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol A)

> ‘...mae'r ysgol bob amser yn barod i siarad os bydd gen i unrhyw bryderon.’ (Arolwg Rhieni, Ysgol D)

**5.5** Fodd bynnag, dywedwyd bod rhai rhieni yn amheus o lefel y cyswllt a gynigiwyd ac a gynhaliwyd gan yr ysgol, neu, mewn rhai achosion, hyd yn oed yn teimlo ei bod yn fygythiad. Gwnaeth un uwch-arweinydd sylwadau am agweddau mwy problematig ar ymgais ysgolion ac athrawon i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd neu ofalwyr:

> ‘...erbyn tua chanol y cyfyngiadau symud, dechreuodd cymunedau fynd mewn i swigen o ryw fath. Yna, cynyddodd yr apathi mewn rhai teuluoedd. Roedd hi'n anodd cysylltu ag unrhyw un yn ystod y cyfnod hwn i rai. Byddwn yn gofyn i'r staff roi adroddiadau rheolaidd i mi a chadw cofnod cyfathrebu a rhoi eu barn ar sut roedd y teuluoedd yn dod yn eu blaen. Roeddech yn gweld patrymau lle gellid cysylltu â rhai dair neu bedair gwaith yr wythnos, eraill unwaith yr wythnos ac roedd eraill yn gyndyn iawn o gael y lefel honno o gyswllt hyd yn oed, am eu bod yn meddwl ein bod yn fusneslyd ac yn tarfu arnynt. Ac weithiau, roedd yn cael ei weld fel beirniadaeth, 'pam ydych chi'n gofyn y cwestiynau hyn, pwy ydych chi i ofyn y math hwn o gwestiynau? Ydych chi'n meddwl ein bod ni'n gwneud rhywbeth o'i le? Roedd rhai yn meddwl ein bod yn busnesa. Ac roedd yn rhaid i mi reoli fy staff yn y sefyllfaoedd hynny a thawelu eu meddyliau a gofyn iddynt ddefnyddio synnwyr

cyffredin. Os ydych chi'n synhwyro nad yw'r teulu'n gwerthfawrogi'r cyswllt. Ac efallai, eich bod yn synhwyro y bydd gwrthdaro tebyg i 'pwy ydych chi'n feddwl ydych chi yn checio arnon ni drwy'r amser?' A chofiwch, roedd gwasanaethau arbenigol yn cysylltu â llawer o deuluoedd hefyd, felly roedd lefelau cyswllt yn uchel ar brydiau a oedd yn achosi straen mewn rhai teuluoedd. Y cyfan roedden ni'n ceisio ei wneud oedd cadw mewn cysylltiad i gynnig cymorth ond nid yw teuluoedd bob amser yn gweld hynny pan fyddant dan bwysau, ac o ystyried y mathau o gyfrifoldebau a phwysau a all fod ar riant plentyn ag anawsterau dysgu. Felly, bu'n rhaid i ni fod yn ofalus a thawelu meddyliau ac ategu'r neges mai cyswllt addysgol oedd hwn a'n bod yn cynnig ein cymorth ag addysg y plentyn. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**Gwella hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r gallu i'w addasu**

**5.6** Yn fuan, daeth yn glir i ysgolion y byddai'n rhaid i'r ymatebion i'r amodau a achosir gan gyfyngiadau symud, yn enwedig o ran darparu cyfleoedd ac adnoddau dysgu fod yn amrywiol, yn ymaddasol ac yn hyblyg i'r sefyllfa a'r amgylchedd newydd yr oedd y dysgwyr ynddynt.

**5.7** Disgrifiwyd dull ymaddasol a chadarnhaol o ddarparu, yn dibynnu ar anghenion y plentyn yn ei amgylchedd dysgu presennol, fel a ganlyn:

‘Cael amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, o waith wedi'i argraffu, cyfarfodydd ar-lein i weithgareddau gosod, Google Classroom i osod gemau a thasgau. Nid oedd TG ar gael i rai plant ac nid oedd eraill yn fodlon ymgysylltu ag addysgu ar-lein. Roedd yn effeithiol sicrhau amrywiaeth o ddulliau gwahanol o gael mynediad i ddysgu er mwyn diwallu anghenion plant a theuluoedd gwahanol. Roedd cadw mewn cysylltiad drwy alwadau ffôn, negeseuon testun, ac e-bost yn gweithio i lawer o rieni.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol F)

**5.8** Roedd rhai athrawon yn rhwystredig ynghylch diben canfyddedig y ddarpariaeth, a ph'un a ddylai'r pwyslais fod ar gymorth bugeiliol neu gymorth addysgol:

'Mae yna ddeuoliaeth. Beth ydych chi eisiau gennym ni? Mae'r gwasanaethau bugeiliol yn barhaus ac mae llif o bethau o'r gwasanaethau bugeiliol yn

ymwneud â disgyblion unigol, a negeseuon cyffredinol gan y rheolwyr canol hefyd, yn dweud wrthym ni i beidio â rhoi pwysau. Ond wedyn, o fewn adrannau, mae disgwyliad o hyd fod angen i ni wthio pethau. Gallwn wneud y ddau, ond weithiau nid yw'n glir beth yn union y mae angen i ni ganolbwyntio arno.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol J)

**5.9** Roedd aelodau o uwch-dîm rheoli'r un ysgol wedi nodi rhwystredigaeth debyg mewn ymateb i'r galwadau i ddarparu deunyddiau dysgu o bell amrywiol:

> ‘rhoddwyd nifer o bethau ar waith er mwyn gwneud ein gorau i'w cefnogi [disgyblion], ond rydych chi'n cael eich gadael yn y byd hwn o deimlo na allwch chi fyth wneud digon, achos allwch chi ddim [cefnogi pawb].’ (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

**5.10** Canfu'r astudiaeth enghreifftiau da o ddarpariaeth a oedd yn canolbwyntio ar gymorth academaidd a bugeiliol, yn enwedig wrth gefnogi teuluoedd difreintiedig ac agored i niwed:

> 'Gwnaethom baratoi gliniaduron ac adnoddau eraill i wahanol blant. Er enghraifft, mae un plentyn yn fy nosbarth i wedi cael gliniadur, am ei bod hi'n benthyg ffôn clyfar ei mam ar ôl iddi orffen gwaith am 9 o'r gloch yn y nos. Felly, gwnaethom nodi sefyllfaoedd o'r fath a cheisio helpu gyda nhw o leiaf. Hefyd, mae rhai disgyblion nad ydynt wedi dod ar-lein o gwbl oherwydd anfantais a thlodi yn y cartref. Felly rydym wedi ceisio cefnogi'r teuluoedd hyn drwy gysylltu a chynnig cymorth ym mha bynnag ffordd y gallem. Felly, yn yr achosion hyn, byddem fel arfer yn gwahodd y plentyn i ddod i'r ysgol i gael ei addysgu. Mae hwn yn fath newydd o fregusrwydd neu anfantais yr oedd modd i ni ei nodi a gweithredu arno er mwyn cefnogi'r plentyn. Y ffordd hawsaf o ymateb i'r sefyllfaoedd hyn, yn hytrach na cheisio dibynnu ar ewyllys neu adnoddau gartref, yw dod â nhw i mewn i'r ysgol.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol F)

**5.11** Roedd gallu darpariaeth ysgol i addasu wedi datblygu, mewn llawer o achosion, mewn ymateb i'r amgylchiadau a orfodwyd gan gynnydd y pandemig a'r amodau a grëwyd gan gyfyngiadau symud ac ailagor ysgol yn raddol. Daeth yn amlwg bod ysgolion yn dysgu sut i addasu eu darpariaeth wrth i'r pandemig a'r amodau cysylltiedig ddatblygu:

'Byddwn yn dweud bod y cyfyngiadau cyntaf yn seiliedig ar waith papur. Gwnaethom anfon pecynnau papur mawr gartref, ac yna byddai'r rhieni yn ein ffonio i roi gwybod a oedd gormod o waith neu brinder gwaith. Roedd rhai heb wneud dim ac roedd llawer o rieni na wnaethant unrhyw waith o gwbl gyda'r plant. Cyn y Nadolig, gwnaethom fuddsoddi mewn SeeSaw, roedd yn llawer haws paratoi gwaith digidol ar gyfer y cyfyngiadau symud hyn. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi defnyddio mwy o dechnoleg ar gyfer ein timau, e.e. Google Classroom, Google Meet. I mi, mae'n ffordd i'r disgyblion weld ei gilydd yn hytrach na gwneud gwaith ac ati. Bu modd i ni ddefnyddio SeeSaw fel llwyfan i anfon gweithgareddau syml adref, ond rydym yn pwysleisio i'r rhieni nad oes rhaid iddynt gwblhau'r gwaith. Weithiau byddan nhw'n gwneud llawer o waith, ac weithiau fyddan nhw ddim. Rydym wedi bod yn anfon pecynnau gwaith hefyd. Rwy'n meddwl y bu 'cam i fyny' o ran yr ochr ddigidol, fel ysgol ac i mi fel athro dosbarth hefyd.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)

**5.12** Mae'r sylwadau canlynol gan uwch-arweinydd ysgol sy'n cefnogi dysgwyr ag amrywiaeth o ADY yn adlewyrchu'r dull ymaddasol a ddaeth yn angenrheidiol oherwydd natur gymhleth y sefyllfa i lawer o blant a'u teuluoedd neu ofalwyr:

‘Roedd tri math o ymateb i hyn. Yr anffurfiol, y lled-ffurfiol a'r ffurfiol. I ddechrau, y ffurfiol, lle gwnaethant dderbyn copïau caled o'r gwaith. Eu cwblhau a'u hanfon i mewn. A sicrhau bod hyn yn cael ei adnewyddu fel rhan o'r gwaith hwnnw.  Roeddent hefyd yn gweithio ar-lein ond ddim yn fyw. Roedd y lled-ffurfiol yn fwy o gymysgedd a dweud y gwir. Mae cysylltiad clir rhwng eu lefelau gallu a'u gallu i ymrwymo a chwblhau’r gwaith. Ac yna roedd yr anffurfiol. Gyda'r disgyblion hyn roedd yn fwy o broses lle roedd staff yn siarad â'r rhieni i egluro’r mathau o bethau y gallent eu gwneud gartref. Ceisio sefydlu trefn ddyddiol o ryw fath drwy egluro'r mathau o weithgareddau y gallent eu gwneud. Math o gymorth gweithredol mewn ffordd, fel gwisgo cot, gwisgo esgidiau, gwisgo dillad. Sgiliau bywyd. Helpu i wneud byrbryd neu fwyta wrth y bwrdd. Yn yr achosion hyn, roedd y staff yn cyfathrebu dros y ffôn, ac yna yn ddiweddarach, gwnaethant ddechrau defnyddio offer cyfathrebu fel Purple Mash, ac ers mis Medi, SeeSaw. Rydym wedi dechrau defnyddio llawer mwy o hwn i drosglwyddo lluniau, a gall tystiolaeth gael ei rhannu a'i lanlwytho ac ati. Ond yn arbennig yn ystod y deufis cyntaf, yn

> hytrach na rhoi cynnig ar unrhyw ddull arall neu unrhyw gyfrwng, dechreuwyd gyda'r ffôn. Bron fel mesur brys pan nad oedd neb yn gwybod rhyw lawer am y pandemig na sut i ymateb iddo. Mae'r ffôn yn ddull poblogaidd a ddefnyddir yn gyffredin gan yr athrawon am fod gan lawer o'r rhieni ffôn. Am ei bod yn haws o lawer iddynt. Dydych chi ddim yn gwybod yn iawn beth yw'r sefyllfa gartref a pha fath o allu sydd gan y rhieni o ran dyfeisiau a dulliau cyfathrebu technolegol. Neu hyd yn oed a oes ganddynt ddyfeisiau ac yn eu defnyddio. Rhaid i chi hefyd ystyried yr elfen breifatrwydd. Hyd yn oed pe byddent yn deall y ddyfais, dydyn nhw ddim bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu sgrin fel eich bod yn gallu gweld i mewn i'w cartref. Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd iawn ag ystafelloedd a chartrefi ein gilydd erbyn hyn oherwydd y defnydd o ddyfeisiau a meddalwedd telegyfathrebu. Bu'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o hyn wrth gyfathrebu â rhieni ac felly roedd y ffôn yn ddull poblogaidd iawn o gyfathrebu. Dydyn nhw ddim eisiau cael eu gorfodi i gael rhywun yn edrych i mewn i'w tŷ. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**5.13** Serch hyn, gallai dull rhy ymaddasol o ddarparu profiadau dysgu ac adnoddau ddrysu rhai rhanddeiliaid. Newidiodd rhai ysgolion y cyfrwng a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddarpariaeth yn ystod y pandemig, er enghraifft yn unol â chyfarwyddebau ar y mathau o lwyfannau dysgu rhithwir i'w defnyddio i gefnogi disgyblion a chyflwyno gwersi. Gallai'r newidiadau hyn beri dryswch a rhwystredigaeth i rieni a oedd yn ceisio cefnogi dysgu eu plant yn y cartref:

> ‘... roedd yn ddryslyd i ni rieni am ein bod wedi defnyddio system o'r enw Go for Schools, a arferai gael gwaith cartref arno, a byddem yn edrych arno i weld beth oedd y gwaith cartref. Ond yna roeddem yn ceisio dod i ddeall, ac yn cael llawer o negeseuon e-bost gwahanol ac mae pethau'n newid yn barhaus. Felly, dechreuon ni ddefnyddio Go for Schools, ac yna dywedwyd wrthym fod yn rhaid i ni fewngofnodi i HWB. Roedd oedi o ryw saith i ddeuddeg wythnos, dwi'n meddwl - y broblem oedd nad oedden nhw'n gallu defnyddio HWB am nad oedd gan yr ysgol gyfrif... yna bu'n rhaid i ni ddefnyddio HWB, ac yna bu'n rhaid i ni fynd ar Teams. Ac, a dweud y gwir, roedd yn anodd ceisio ymdopi â'r holl bethau... Ac yna, yn y pen draw, cawsom ni rywbeth o'r enw Moodle, sy'n

dda iawn, ond doedd hynny ddim yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

**Ymatebion i'r amrywiaeth o ddeunyddiau addysgol a ddarparwyd a'u hansawdd, gan gynnwys adnoddau digidol a ffisegol**

**5.14** Daeth yn amlwg bod angen datblygu profiadau a chyfleoedd dysgu addas yn gynnar iawn yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, a bod angen dull ymaddasol o ddarparu'r adnoddau hyn. Teimlwyd bod disgyblion ar eu colled o ran y ddarpariaeth a gynigir yn draddodiadol ar safleoedd ysgolion i ddisgyblion o bob gallu:

> 'Gyda rhai rhieni a theuluoedd, mae diffyg o ran yr adnoddau a'r sgiliau TGCh sydd eu hangen i gwblhau gweithgareddau ar y we. Hefyd, mae llawer yn colli allan ar y gweithgareddau synhwyraidd fel y pwll hydrotherapi, y dosbarthiadau coginio a'r sgiliau bywyd ymarferol sy'n hanfodol i'n disgyblion ni.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol G)

> 'Oes - mae angen arbenigedd a mewnbwn ar blant ag anghenion ychwanegol. Nid yw mor hawdd rhoi iPads iddyn nhw neu roi ffilm ar y teledu ac ati a disgwyl iddynt ddiddanu eu hunain. Roedd yr angen cyson hwnnw am sylw ac adnoddau arbenigol yn heriol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol F)

**5.15** Roedd rhai rhieni o'r farn bod y profiadau dysgu a'r adnoddau a ddarparwyd gan ysgolion yn ystod y cyfyngiadau symud yn annigonol, neu o ansawdd gwaeth o gymharu â'r hyn y byddent yn ei gael yn yr ysgol fel arfer:

> ‘roedd yn cynnwys croeseiriau, chwileiriau, ac rwy ond yn rhoi enghreifftiau sylfaenol i chi o'r pethau a oedd yn y pecyn. Y math o beth y byddech yn edrych arno ac yn meddwl, wel, fel rhiant, dwi ddim yn credu bod hyn yn fuddiol iddo. Rwy'n credu y gallai fod yn gwneud pethau eraill. Ydych chi'n deall? Roedden nhw'n rhoi rhywbeth i chi i lenwi'r amser, i geisio llenwi'r bwlch, sbo.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

> ‘...mae'n ymddangos bod y disgwyliadau ar gyfer dosbarth blwyddyn saith yn isel iawn iawn. Rwy'n synnu. Nes i gadarnhau sawl gwaith a oeddwn i'n

> edrych ar y gwaith cywir achos mae'n rhywbeth y byddwn i'n ei gyffelybu i'r hyn roedd fy mab yn ei wneud yn nosbarth dau a thri yn yr ysgol gynradd. A phan wnes i gadarnhau, dywedwyd wrthyf, wel mae rhai plant yn gweithredu ar y lefel honno... Mae gen i blentyn 12 oed a'r aseiniad mathemateg un diwrnod oedd 10-? =4?! Dywedais wrth fy mab, 'paid â rhoi'r sbwriel 'na i fi. Ble mae dy waith go iawn?' Dyma fe. Dywedais wrtho, 'Dwi ddim yn dy gredu di.' 6+? = 8? Felly, gofynnais i rieni eraill hefyd, 'a ydw i wedi colli rhywbeth?' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

**5.16** Yn yr un modd, roedd rhai o'r rheini a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn feirniadol iawn o gyfyngiadau darparu gwersi byw, ar-lein a phrofiadau dysgu i ddisgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud:

> 'Roedd y gwersi ar-lein yn wych ar gyfer y byrdymor, ond rwy'n poeni bod y plant ar eu colled o beidio â chael yr addysgu a'r cymorth angenrheidiol arferol, ac y bydd hyn yn cael effaith ar eu haddysg, a'u sgiliau cymdeithasol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**5.17** Fodd bynnag, rhannodd llawer o randdeiliaid gan gynnwys athrawon, rhieni a dysgwyr, sylwadau cadarnhaol dros ben am amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth a gynigiwyd yn ystod y cyfyngiadau symud:

> 'Roedd fy mab wedi mwynhau'r gweithgareddau ar-lein. Gwnaeth yr athrawon ymdrech fawr i'n cefnogi a chafodd deunyddiau eu hanfon allan, neu, wrth i'r athrawon ymgyfarwyddo â'r dechnoleg yn well, byddai mwy o weithgareddau a gemau ar-lein a oedd yn helpu'r plant i ddod at ei gilydd. Mae'r rhan gymdeithasol mor bwysig i blant sy'n wynebu heriau o'r math hwn. Felly, roedd yn braf gweld hynny.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol G)

> 'Rwy'n meddwl bod y gwersi byw a gynhaliwyd gan yr athro dosbarth o gymorth mawr ac roedd yn dda i'r plant gael ymgysylltu â'r athro a'r disgyblion eraill.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

> 'Mae'r sesiynau ar-lein yn dda iawn am eu bod yn debycach i fywyd arferol lle gall y plant dreulio amser gyda'i gilydd a gwneud rhai gweithgareddau dysgu gyda'i gilydd.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

'Gwnes i fwynhau gwneud fy ngwaith ysgol gartref am fy mod yn teimlo y gallwn ganolbwyntio'n well ac roedd fy nheulu yno i'm helpu ac roedd yn dawel hefyd, felly gallwn ganolbwyntio ar fy ngwaith. (Tasg Dysgwr, Ysgol E)

'Yn ystod y cyfyngiadau symud, ces i fy newis i fod yn rhan o brosiect gyda disgyblion anghenion arbennig fel fi. Ysgrifennais gân a gafodd ei chwarae ar y radio.' (Tasg Dysgwr, Ysgol D)

**5.18** Nododd rhieni eraill fod y ddarpariaeth addasedig wedi helpu i feithrin set arall o sgiliau amgen, ond yr un mor werthfawr, ymhlith disgyblion:

'Yn gyffredinol, rwy'n teimlo bod ein plant wedi elwa ar orfod dysgu sgiliau TGCh penodol yn eithaf cyflym, fel mewngofnodi i Teams a defnyddio'r nodweddion gwahanol (mud, llaw i fyny) ac ati. Roedd hyd yn oed y plant iau wedi addasu i hyn yn gyflym iawn a byddant yn elwa ar hyn yn y dyfodol.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**5.19** Cafodd y sylwadau hyn eu hategu gan sylwadau myfyrwyr AGA, a ddywedodd eu bod wedi meithrin sgiliau penodol mewn darpariaeth ar-lein ac, yn hytrach na bod y cyfyngiadau symud a'u heffaith ar gyfleoedd ar gyfer profiadau mewn ysgolion wedi eu rhoi dan anfantais, roeddent o'r farn eu bod wedi dod yn ased gwerthfawr i'r ysgol fel rhan o'r dulliau arloesol a roddwyd ar waith ar gyfer rhyngweithio â disgyblion:

‘... mewn ffordd, bu gennym ni rywbeth i'w gynnig i'r ysgolion hefyd. Sef defnyddio gwahanol ffyrdd o geisio annog disgyblion i ryngweithio. Menti a Kahoot! a'r mathau hynny o bethau. Rwyf wedi siarad â'm mentor ac mae'n hapus iawn â'r ffordd y mae'r plant wedi bod yn ymateb fel hyn. Mae'n edrych fel bod rhai yn fwy cyfforddus yn ymateb drwy gytuno neu ddefnyddio emoji neu adborth felly. Mae'r ysgol yn ystyried hyn o ddifrif fel rhan o ddull newydd o ystyried y ffordd rydym yn ymgysylltu â'r disgyblion. Y rhai nad ydynt yn hapus i ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth ac ati. Mae dulliau arloesol o'r fath wedi tyfu ac mae'n bosibl y byddant yn parhau i dyfu oherwydd y sefyllfa hon. Felly, nid yw'r holl beth wedi bod yn ddrwg, na. (Trafodaeth Grŵp Ffocws, Myfyriwr AGA)

> 'Gallwn ddweud efallai mai ni yw arloeswyr y dull hwn. Ac efallai y bydd addysg yn symud i'r cyfeiriad hwn ta beth. Pwy a ŵyr sut fydd hi ymhen pum neu ddeng mlynedd. Ond efallai y bydd pobl ac athrawon sydd wedi gweithio yn y maes ers amser yn edrych arnon ni fel arbenigwyr o ryw fath. Rwy'n teimlo ein bod ni wedi helpu yn ein ffordd ein hunain. (Trafodaeth Grŵp Ffocws, Myfyriwr AGA)

**5.20** Dywedwyd bod rhai rhieni yn gefnogol o'r arloesedd a ddangoswyd gan ysgolion ac athrawon wrth gynnig mathau gwahanol ac unigryw o gymorth a darpariaeth yn amgylchedd y cartref. Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut y gwnaeth un ysgol lwyddo i roi adnoddau i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol yn eu cartrefi eu hunain er mwyn cynnal eu dysgu a'u cynnydd:

> 'Gwnaethom anfon switsys adref gyda rhai dysgwyr ac rwyf newydd dderbyn addaswyr y gellir eu defnyddio er mwyn defnyddio'r dechnoleg hon yn y cartref. Rydym yn adolygu ac yn adnewyddu'r hyn rydyn ni'n ei wneud i gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus. Efallai y byddant felly yn gallu defnyddio'r addaswr swîts gyda'r teledu gartref er mwyn newid y sianel ac ati. A gallai hyn fwydo i mewn i raglenni sy'n eu helpu i goginio, gan gysylltu'r addaswr swîts â chymysgwyr neu ficrodonau. Rydyn ni'n cysylltu â'r teulu ac yn trafod y ffordd orau o ddefnyddio'r addaswyr i gefnogi rhaglenni dysgu unigol a datblygu sgiliau. Mae tri o blant gartref o hyd am fod eu hiechyd mor fregus. Maen nhw'n cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd drwy Facebook a systemau cyfathrebu fel eu bod yn dal i fod yn rhan o'r dosbarth. Os byddwch yn edrych yn ofalus, gallwch weld nad yw'r unigolyn hwnnw yn y dosbarth. Ond mae'n anodd iawn dweud felly mae hon yn agwedd newydd ar y dechnoleg rydym wedi ei mabwysiadu ac sydd wedi newid ein hymarfer. Ffyrdd eraill y gallwn gefnogi unigolion. Mae'n wych. Ac mae rhai o'r athrawon wedi llwyddo i wneud yn siŵr y gall yr holl ddisgyblion fod yn rhan o'r ysgol hyd yn oed mewn sefyllfaoedd fel hyn. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

> 'Gwnaethom gynnal rhwng 30 a 40 o wersi byw mewn meysydd gwahanol. Roeddent ar gael ar ein gwefan. Roeddent yn cynnwys llawer o weithgareddau cerddorol a symud a oedd yn boblogaidd iawn ymhlith y plant a'r rhieni. Roedd llawer o anogaeth. Y briff oedd i athrawon ym meysydd

gwyddoniaeth, cerddoriaeth ac ati gynnig syniadau am weithgareddau gwahanol yn gysylltiedig â'r math o bethau y bydden yn ei wneud yn yr ysgol. Anogwyd rhai o'r plant i gopïo symudiadau'r athrawon ac yn y ffordd syml honno, eu hannog i symud, meddwl a bod yn greadigol. Roedd yn llwyddiannus iawn, yn fy marn i. Bu'n sbardun ac yn anogaeth i rieni barhau â'r ffurf hon o greadigrwydd wrth gefnogi eu plant gartref. Roedd hynny'n sicr yn gadarnhaol iawn.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**5.21** Roedd rhai ysgolion wedi anfon copïau caled o dasgau neu adnoddau ffisegol adref i gefnogi dysgwyr yn y cartref. Esboniodd uwch-arweinydd un ysgol y rheswm dros ddosbarthu copïau caled neu adnoddau ffisegol:

> 'Ychydig bach o bopeth. Unwaith eto, gan ddibynnu ar ein teuluoedd. Roedd rhai teuluoedd yn gallu defnyddio Google Classroom yn hyderus. Roedd eraill yn gallu defnyddio Google Classroom yn hyderus ond roeddent hefyd eisiau adnoddau papur i'w ategu. Dydyn ni ddim yn defnyddio Google Classroom yn yr ysgol gynradd. Gwnaethom ddefnyddio SeeSaw yn yr ysgol gynradd. Unwaith eto, gan ddibynnu ar y teulu a'r unigolyn, gwnaethom ddosbarthu llawer o becynnau papur hefyd. Nid oes gan bawb argraffydd. Felly cafodd pecynnau ychwanegol eu hanfon at deuluoedd difreintiedig. Gwnaethom ragweld sgyrsiau ynghylch a oedd gan deuluoedd argraffwyr neu inc ac ati a'u hosgoi. Felly, gwnaethom ofyn beth fyddai orau i'r teuluoedd unigol. Yna cafodd y rhain eu hanfon allan drwy'r post. Ac fe gostiodd ffortiwn i ni mewn costau dosbarthu.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**5.22** Gwnaeth uwch-arweinwyr eraill sylwadau ar gost postio'r adnoddau hyn, tra bod eraill wedi troi at y staff addysgu a chymorth i ddosbarthu pecynnau o adnoddau ffisegol â llaw i rai aelwydydd.

> 'Byddem yn postio copïau caled o'r taflenni gweithgareddau a'r adnoddau addysgu i'r disgyblion. Ni oedd yn gyfrifol am dalu'r costau oedd yn gysylltiedig â'r broses hon. Roedd yn gostus ond roedd pethau eraill mwy costus o lawer yn ystod y cyfnod hwn. Cawsom ddau ddiwrnod o rybudd mewn ffordd ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, felly cafodd y pecynnau cyntaf eu hanfon adref gyda'r plant. Rwy'n cofio un diwrnod ei bod hi'n gyfyngedig iawn oherwydd y rota athrawon. Aeth un aelod o'r staff o gwmpas y dalgylch ym mws yr ysgol

yn dosbarthu'r deunyddiau hyn i gartrefi disgyblion unigol. Byddem yn eu gadael ar garreg y drws.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**5.23** Roedd ymateb rhieni i'r copïau caled o'r deunyddiau dysgu a ddarparwyd yn gadarnhaol ac roeddent yn croesawu'r adnoddau:

> 'Cafodd pecynnau eu dosbarthu'n rheolaidd. Roedd gennym lawer o waith i'w wneud - gormod weithiau. Ond bu modd i ni ddewis a rheoli amseriad y rhain. Roedd yr ysgol yn dda iawn wrth anfon a dod â'r deunyddiau i ni, fel ein bod yn gwybod pryd roedd gennym waith i'w wneud. Rydyn ni'n defnyddio'r deunyddiau maen nhw'n eu rhoi ar SeeSaw nawr hefyd. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol D)

> 'Roedd fy mab yn hoffi derbyn gwaith ysgol drwy'r post. Roedd yr ysgol yn dda iawn am ffonio a byddai bob amser yn gwneud yn siŵr bod fy mhlentyn yn deall y gwaith a roddwyd. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol D)

**Y cymorth bugeiliol a ddarperir i ddisgyblion a theuluoedd / gofalwyr**

**5.24** Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod y gofal bugeiliol a ddarparwyd i ddisgyblion a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn nodwedd ganolog hollbwysig o rôl yr ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud.

**5.25** Er bod amrywiaeth o randdeiliaid wedi gwneud sylwadau am enghreifftiau lu o rôl fugeiliol ysgolion, mae'r achos isod yn dangos natur gwbl unigryw'r ddarpariaeth fugeiliol mewn achosion unigol. Mae'n dangos hefyd y lefelau eithriadol o ymrwymiad a ddangoswyd gan lawer o athrawon a staff cymorth dysgu i ofal bugeiliol dysgwyr yn ystod y cyfyngiadau symud:

> ‘Gan ddibynnu eto ar eu sefyllfa, weithiau byddai teuluoedd un rhiant eisiau siarad am y gwaith neu drafod problemau ymddygiad roeddent yn eu hwynebu gyda'u plentyn. Mewn un cartref, byddai plentyn yn gwrthod mynd i'r gwely. Roedd hi'n meddwl ei bod yn gyfnod gwyliau a'i bod hi felly yn cael aros ar ei thraed yn hwyr bob nos. Byddai'r athro yn ffonio bob nos am 7 o'r gloch er mwyn helpu mam gydag arferion i baratoi'r plentyn i fynd i'r gwely. Dweud stori a gofyn 'Wyt ti'n gwisgo dy byjamas nawr?' Jest mynd drwy'r arferion hynny. Felly, rhoi cymorth i fam am ei bod hi'n ei chael hi'n anodd rhoi plentyn yn y

gwely. Llawer o senarios o'r fath.’ (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**5.26** Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi parhau â'r ymrwymiad i gynnig prydau ysgol am ddim i rai disgyblion. Gallai eu darparu fod yn gymhleth, fodd bynnag, a hynny i'r ysgol ac i rai teuluoedd neu ofalwyr, fel y dangosir gan yr achos canlynol:

> 'Rydyn ni'n ysgol fach sy'n adnabod ein teuluoedd yn dda ac mae gennym gydberthynas agos â nhw. Weithiau, yn enwedig yng Nghymru, efallai eich bod yn meddwl y gallai rhai teuluoedd fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond dydyn nhw ddim eu heisiau. Rydyn ni'n adnabod y teuluoedd hyn yn dda iawn. Mae'r categori prydau ysgol am ddim yn rhoi'r wybodaeth honno i'r ysgol mewn ffordd fwy swyddogol. Roedd system prydau ysgol y rhanbarth yn pennu bod teuluoedd yn dod i gasglu prydau o'r ysgol. Ond wrth gwrs, sylweddolon ni o'r dechrau na fyddai hynny'n gweithio i ni fel ysgol arbennig. Doedd yr awdurdod ddim wedi ystyried y peth yn drylwyr, am fod gennym ni blant yn dod o ddalgylch mor eang. Llawer mwy nag ysgol brif ffrwd. Gallai fod yn daith deirawr i gasglu un pryd. Felly, gwnaethom benderfynu y byddai'r ysgolion a oedd yn lleol i gartref y plentyn yn cael gwybod fel bod y teuluoedd yn gallu casglu prydau o'r ysgolion lleol. Wrth gwrs, roedd angen amser i drefnu hyn a deall y sefyllfa yn y lle cyntaf. Felly, roedd y rhain yn effeithiau na chawsant eu rhagweld, sy'n benodol i'n math ni o ysgol ac efallai na fyddent yn berthnasol i ysgolion eraill. Gwelsom hyn o fewn yr wythnos gyntaf. Cafodd un neu ddau deulu broblemau yn eu cymunedau lleol lle nad oedd y trefniant wedi'i gyfleu'n ddigon effeithiol, yn enwedig gyda phlant o deuluoedd cyfrwng Saesneg. Nid oedd yr ysgolion lleol yn adnabod y teuluoedd lleol ac yn meddwl efallai eu bod ar wyliau. Ac efallai fod hyn yn un o effeithiau cudd eraill y cyfyngiadau symud. Cefais un rhiant ar y ffôn yn ei dagrau yn dweud bod rhai o'r rhieni eraill wedi bod yn ei chwestiynu, gofyn pwy oedd hi a pham roedd hi yn yr ardal, heb sylweddoli ei bod hi'n rhiant i un o ddisgyblion yr ysgol am fod y dalgylch mor fawr.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**Cymorth a chyfleusterau addysgol a ddarperir ar y safle gan ysgol Hyb dynodedig i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed**

**5.27** Yn gysylltiedig â'r mater uchod ynghylch gofal bugeiliol, ac effaith andwyol bosibl y pandemig a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig ar blant a theuluoedd/gofalwyr agored i niwed a difreintiedig, mae'r vignette canlynol yn dangos y rôl bwysig a chwaraewyd gan ysgolion Hyb i blant agored i niwed a difreintiedig:

**Ffigur 5.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â darpariaeth ysgolion.**

'Mae gennym hyb yn yr ysgol lle gallai rhieni oedd yn cael anawsterau anfon eu plant. Gwelsom fod y defnydd ohono wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfyngiadau symud diwethaf. Mae'r ysgol wedi helpu drwy gefnogi'r plant hyn i ddod mewn, ac felly wedi helpu'r rhieni gartref a oedd yn ei chael hi'n anodd cael y plentyn gartref drwy'r amser. Mae hyn yn ffordd arall o weld dylanwad anfantais, yn unol â graddau a difrifoldeb anghenion dysgu'r plentyn. Neu pa mor anodd ydoedd hi i gefnogi'r plentyn mewn amgylcheddau cartref penodol os oedd y rhieni'n gweithio ac ati. Nid oedd bob amser yr un fath â'r ffordd roedd anfantais yn cael ei hystyried o'r blaen. Roedd yn wahanol. Mathau gwahanol o anfantais. Y mwyaf cyfyngedig roedd pethau gartref, y mwyaf yr oedd angen i ni gamu i mewn a chefnogi anghenion dysgu gwahanol i blant gwahanol. Daeth yn gliriach ac yn haws gweld ble roedd yr anfantais gan ddibynnu ar y lefelau cyswllt a'r ffordd roeddech yn cyfathrebu â rhieni.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)
'... mae llawer nad ydynt yn deall beth sy'n digwydd heblaw eu bod wedi gorfod mynd adref, a bod y drefn o fynd i'r ysgol wedi'i thorri. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar yr hyn y maen nhw'n ei ystyried fel normalrwydd, ac mae wedi effeithio ar eu trefn ddyddiol ac mae eu problemau ymddygiad wedi gwaethygu o'r oherwydd. Felly bydd effaith hynny i'w theimlo am amser hir. Mae cyfnodau hir heb allu mynd allan i'r awyr agored wedi effeithio ar lawer o'n disgyblion hefyd. Weithiau, mae hynny'n creu problemau ymddygiad pan fydd y plentyn naill ai ddim yn fodlon mynd allan neu ddim yn fodlon aros i mewn. Fel arfer, gellir datrys materion o'r fath ond nid yw rhai o'n dysgwyr yn deall, maent yn mynd yn rhwystredig a gall hyn weithiau droi'n broblemau ymddygiad ac weithiau, yn drais. Byddai plentyn arall yn dilyn mam o gwmpas y tŷ. Daeth mor gyfarwydd â bod yn y tŷ gyda mam fel bod ofn arno adael iddi fynd o'i olwg, felly byddai'n ei dilyn. Rydym ni'n sôn am blentyn 18 oed yn dilyn ei fam i'r toiled neu'r ystafell ymolchi. Roedd hyn yn rheswm arall pam y gwnaethom gynnig iddo ddod i'r ysgol, er

mwyn torri'r arfer hon. Mae wedi effeithio ar ein dysgwyr gwahanol mewn llawer o wahanol ffyrdd.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol F)

**5.28** Nododd rhai ysgolion gynnydd yn nifer y plant a oedd yn manteisio ar gyfleusterau ysgol Hyb rhwng y cyfyngiadau symud cyntaf a'r ail:

> 'Gan gyfeirio at bwynt a wnaed yn gynharach, roedd mwy o blant yn dod i'r ysgol hyb oherwydd amodau yn y cartref. Pa mor anodd oedd hi ar rieni nid yn unig i gael y plentyn gartref, ond nifer o frodyr a chwiorydd eraill hefyd. Mae nifer y plant sy'n dod i'r ysgol hyb wedi dyblu yn ystod y cyfyngiadau symud diwethaf. Mae'n gyfuniad o rieni yn ffonio i ofyn am help, a ni yn defnyddio ein greddf i gynnig cymorth yn dibynnu ar wybodaeth a gawn drwy gyfathrebu. Mae'n anodd bod gartref drwy'r amser. Ac mae rhai ohonynt yn eithaf bregus. Ie, mae'r niferoedd wedi dyblu.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)

**5.29** Fodd bynnag, roedd y gallu i roi'r dewis i deuluoedd plant agored i niwed ddod i'r ysgol hyb ar y safle yn sefyllfa gymhleth a chynnil, ac nid oedd yn gwbl amlwg o'r dechrau. Mae'r disgrifiad canlynol yn cynnig manylion am yr anawsterau roedd rhai disgyblion ag ADY yn eu hwynebu pan gynigiwyd iddynt naill ai cael eu haddysgu gartref neu ddod i'r ysgol hyb:

> 'Rydyn ni fel ysgol wedi gorfod cydweithredu'n agos iawn â'r teulu a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau yn addas i'r unigolyn. Wrth gwrs roedden ni ar agor i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, ond nid oedd yn addas i rai plant fod yn yr ysgol ond heb fod yn eu hystafell ddosbarth arferol, heb eu cymheiriaid a heb fod y staff arferol yn gweithio yno. Roedd yn ormod iddynt. Nid oeddent yn gallu deall beth oedd yn digwydd ac roedd yn ormod i rai, fel plant ag anghenion dysgu dwys a lluosog. Roedd yn cael effaith ddramatig ar eu hiechyd meddwl. Felly roedd angen cydweithredu â'r rhieni ac asiantaethau allanol fel gwasanaethau cymdeithasol er mwyn penderfynu, 'iawn, gallwn ni helpu gyda'r staffio ambell ddiwrnod, ond nid yw bod yn yr ysgol yn addas i'r plentyn hwn'. Efallai nad ydym yn siarad am fod gartref, ond efallai mewn lleoliad arall ar wahân i'r ysgol. Dod o hyd i leoliad mwy niwtral. Roedd angen trefn ddyddiol ar y disgyblion hyn. Nid oeddent yn gallu deall, er enghraifft, pam fod y pwll hydro

ar gau ac na allent ei ddefnyddio na pham fod yr ystafelloedd synhwyraidd ar gau. A pham nad oedd bron neb yn yr ysgol. Roedd yn sefyllfa ddryslyd iawn iddynt ac ni allai rhai ymdopi â hyn. Byddai eu hymddygiad yn waeth nag erioed. Roedd gennym hefyd blant ag anghenion iechyd neu anghenion meddygol, er enghraifft problemau â dannedd ond na allai'r disgybl weld y deintydd. Roedd mewn poen ofnadwy ac nid oedd modd esbonio pam nad oedd modd dod o hyd i rywun i'w helpu. Arweiniodd hyn at hunan-niwed a oedd yn ddifrifol iawn, tan iddo, yn y pen draw, gael ei dderbyn i'r ysbyty am driniaeth frys. Felly bu'n rhaid ymdrin â sefyllfaoedd fel hyn ar ben y disgwyliadau arferol o geisio darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion a'u hadnoddau a'u cynnydd addysgol. Mae'n ddigon anodd egluro i blant eraill, os gallwch chi alw unrhyw blant yn normal, fod ganddynt boen yn eu dannedd ac angen meddyginiaeth. Ond ni allai rhai o'r disgyblion ag anghenion dysgu dwys a lluosog ddweud wrthym pan oedd effaith y feddyginiaeth yn peidio. Ac nid oedden ni'n gallu esbonio pam iddynt chwaith. Felly, problemau meddygol o'r fath a neb ar gael i'w gweld nhw. Ychwanegodd hyn yn sylweddol at effaith y pandemig, ar ben amharu ar eu trefn ddyddiol. Gallech ddweud bod yr effaith wedi dyblu a bod yr effeithiau yn fwy amlwg ar y mathau o ddisgyblion sy'n mynychu ein hysgol ni. Pe bai rhywun yn gofyn i mi ar bwy roedd yr effaith fwyaf difrifol neu'r effaith fwyaf, byddwn yn dweud mai'r unigolion hynny sy'n dibynnu ar drefn ddyddiol mewn sefyllfa sefydlog. Mewn ffordd, y garfan honno a'r rhai sy'n ymddwyn yn heriol o ganlyniad i rwystredigaeth a newidiadau i'r drefn ddyddiol ac na allant, efallai, wneud synnwyr o'r sefyllfa. Mae llawer o'r disgyblion yn dibynnu ar raglenni ymddygiad ac yn datblygu ymddygiadau mwy heriol pan fydd rhywbeth yn tarfu ar eu trefn ddyddiol neu os na fydd ganddynt unrhyw beth i'w wneud. Maent yn diflasu. Nid yw llawer o'r disgyblion yn gallu diddanu eu hunain, felly mae diddanu eu hunain yn troi mewn i symudiadau neu synau ailadroddus, ac weithiau bydd hyn yn datblygu'n hunan-niweidio. Rydym wedi cael gwybod am gynnydd yn yr ymddygiadau hyn mewn cartrefi lle mae'r rhieni'n ei chael hi'n anodd cefnogi plant am resymau gwahanol. Roedd hyn yn digwydd mewn ysgolion hefyd oherwydd newidiadau i'r drefn ddyddiol a staffio mewn dosbarthiadau a lleoliadau. Rydyn ni'n ffodus, fodd bynnag, achos ychydig iawn o hyn a

ddigwyddodd gyda ni. Gallaf gyfrif ar un llaw nifer y disgyblion a oedd yn y categori hwn.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**Darpariaeth a chymorth i ddisgyblion sy'n pontio rhwng ysgolion neu gyfnodau allweddol yn ystod y cyfyngiadau symud ac wrth ddychwelyd i'r ysgol wedi hynny**

**5.30** Maes arbennig sy'n peri pryder i rai rhieni oedd profiad disgyblion mewn cyfnodau pontio. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Cafodd y pryderon hyn eu rhannu yn bennaf drwy'r arolygon rhieni a gofalwyr a'r dasg dysgwyr. Rhannodd un rhiant ei farn ar y mater hwn mewn cyfweliad:

> 'Dim cymorth pontio o ddysgu Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7, sydd mor wahanol.' (Tasg Dysgwr, Ysgol J)

> 'Mae wedi bod yn drychineb i'r mab ieuengaf. Cafodd y plant eu hanfon adref ar unwaith ond dylai ef, fel disgybl blwyddyn 6, fod yn paratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd. Cafwyd bron ddim gan yr ysgol, ac roedd yr hyn a ddarparwyd yn annigonol. Cafodd gwpwl o ddiwrnodau blasu yn yr ysgol uwchradd, ac roedd hynny'n iawn, ond chafodd yr athrawon ddim cyfle i ddod i adnabod y dosbarth cyn iddynt gael eu hanfon adref oherwydd y cyfyngiadau symud eto.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

**5.31** Mynegwyd pryderon hefyd am ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hŷn a oedd yn dod i ddiwedd eu profiadau ysgol ac yn gorfod paratoi ar gyfer bywyd ar ôl ysgol a dechrau mewn addysg uwch yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud. Cafodd y pryderon hyn eu mynegi'n bennaf gan athrawon mewn arolygon athro a staff cymorth dysgu:

> 'Ddim yn barod ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol, coleg, prifysgol ac ati' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu)

> 'Pryderon pellach am Addysg Uwch. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol J)

> Pryderon difrifol am y dyfodol a theulu a chymdeithas. Addysg i ddisgyblion chweched dosbarth.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol J)

**5.32** Roedd y pryderon hyn wedi'u cyfiawnhau gan y ffaith bod rhai disgyblion yng ngharfan 2020-21 wedi gorffen eu profiadau ysgol yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud cyntaf, ar adeg o ansicrwydd ynghylch penderfyniadau am arholiadau blwyddyn olaf a mynediad wedyn i addysg uwch neu lwybrau gyrfa.

**Darpariaeth a chymorth i ddisgyblion mewn blynyddoedd arholiadau yn ystod y cyfyngiadau symud ac wrth ddychwelyd i'r ysgol wedi hynny**

**5.33** Roedd maes arall o ddarpariaeth ysgol a oedd yn peri pryder yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r disgyblion hynny mewn blynyddoedd arholiadau yn ystod y cyfyngiadau symud a dychwelyd i'r ysgol wedi hynny. Roedd sylwadau gan amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol yn cyfleu ymdeimlad o ansicrwydd ymhlith arweinwyr ysgolion, athrawon, rhieni a disgyblion am asesiadau ac arholiadau yn ystod y cyfyngiadau symud. Cafodd yr ansicrwydd hwn a'r rhwystredigaeth a deimlwyd gan ddisgyblion ei ddisgrifio gan uwch-arweinydd:

> 'Doedden ni ddim yn gwybod pa mor hir y byddem i ffwrdd ac roedd hyn yn rhoi pwysau dwys iawn ar y grwpiau arholiadau am nad oeddent yn cael eu haddysgu yn ystod cyfnod pan fydden nhw, fel arfer.... yn gorffen gwaith cwrs ac yn gwneud ffug-arholiadau ac yn paratoi'n fanwl ar gyfer yr arholiadau. Felly, roedd y pwysau gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yn dangos, yn fy marn i, nad oeddent yn hapus â'r dull dysgu.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

**5.34** Disgrifiwyd effeithiau andwyol canfyddedig y pwysau hyn ar rai o'r disgyblion fel a ganlyn:

> 'Iechyd meddwl wedi dirywio ac wedi'i chael hi'n anodd dychwelyd i'r ysgol - roedd angen ymyriad gan CAMHS. Nid yw'n teimlo y gall gwblhau Safon Uwch.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

> 'Sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer y brifysgol, heb sefyll unrhyw arholiadau. Mae'r pwysau ar ein merch wedi bod yn gyson am fod asesiadau

wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ysgol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol L)

**5.35** Roedd y rhesymau uniongyrchol dros bryderon ac anfoddhad yn ymwneud yn bennaf ag ansicrwydd ynghylch yr asesiadau a fyddai'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod asesu ac arholi 2020-21, a diffyg gwybodaeth am y weithdrefn arholi yn ystod y cyfnod hwn.

> 'Ymdrin ag ansicrwydd ynghylch y ffordd y byddant yn cael eu hasesu.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)
>
> 'Ansicrwydd cyffredinol am ddychwelyd i'r ysgol ac arholiadau, heb wybod beth i baratoi ar ei gyfer.' (Tasg Dysgwr, Ysgol H)
>
> ‘Mae'r ffaith nad yw athrawon yn gwybod os fydd blwyddyn 10 ac 11 angen cymryd arholiadau yn 2020/21 yn golygu eu bod nhw'n gorfod parhau i gadw'r pwysau gwaith i fynd.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

**5.36** Roedd athrawon a rhieni wedi disgrifio canfyddiadau o'r effeithiau eang a thymor hwy posibl ar ddisgyblion mewn grwpiau arholi gwahanol yn yr ysgolion:

> 'Dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 4 a 5. Mae rhai myfyrwyr heb sefyll arholiadau TGAU ond mae disgwyl iddynt weithio ar safon UG. Nid yw grwpiau Safon Uwch wedi sefyll arholiadau UG. Amharwyd yn llwyr ar gwrs blwyddyn 11 ac eto bydd angen rhoi gradd iddynt yn yr haf. Nid effeithiwyd cymaint ar flwyddyn 10 hyd yn hyn, ond unwaith eto, mae'r cwrs ar ei ganol ac mae'r sefyllfa hon yn tarfu arno. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)
>
> 'Gan fod arholiadau wedi'u canslo, nid yw'r disgyblion wedi meithrin sgiliau adolygu a gallai hyn effeithio ar berfformiad yn y dyfodol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol J)
>
> 'Poeni am yr effaith hirdymor ar eu dysgu. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos grwpiau hŷn, fel TGAU a Safon Uwch. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol J)

> 'Unedau gwaith cwrs blwyddyn 12, oherwydd diffyg mynediad at adnoddau arbenigol neu offer y gallai'r ysgol eu darparu.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

> 'Wnaeth fy merch ddim sefyll TGAU am ei bod wedi'u colli nhw, ac oherwydd hyn, fydd hi ddim yn sefyll ei harholiadau UG nawr ac felly mae'n bosibl mai arholiadau Safon Uwch fydd ei harholiadau nesaf. Gallai hynny fod yn ddiddorol o ystyried nad yw hi'n gwybod sut i adolygu, achos fu ddim rhaid iddi adolygu, ac os ydych chi'n gwneud llanastr o'ch arholiadau Safon Uwch, yna rydych chi ar dir peryglus. Beth wnewch chi? Gallen nhw fod wedi sefydlu system gymedroli yn gyflym yng Nghymru am fod ganddynt yr holl gymedrolwyr. Roedd y byrddau arholi wedi ein gadael ni lawr. Collwyd llawer o gyfleoedd yn fy marn i.  Ac a dweud y gwir, rwy'n meddwl y byddan nhw'n ceisio dychwelyd i'r un drefn yn union ag o'r blaen. Rwy'n poeni am arholiadau y flwyddyn nesaf achos yn amlwg bydd hynny'n effeithio ar fy merch hynaf a fydd yn sefyll ei harholiadau Safon Uwch. Ie. Ac yna bydd y llall yn sefyll ei TGAU ac maen nhw wedi colli cymaint o flwyddyn 12 a blwyddyn 10. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

**Crynodeb**

**5.37** Cafwyd ymatebion cymysg gan randdeiliaid i'r profiadau a'r adnoddau dysgu a ddarparwyd gan ysgolion yn ystod y cyfyngiadau symud.

**5.38** Roedd llawer o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn fodlon ar ansawdd ac amlder y ddarpariaeth. Roedd llawer o rieni o'r farn y byddai'r amrywiaeth a'r arloesedd a'r sgiliau technoleg newydd a gyflwynwyd yn fuddiol i'r disgyblion yn y tymor hir.

**5.39** Roedd rhai rhieni'n poeni bod yr adnoddau a ddarparwyd yn eu barn nhw o ansawdd gwaeth na'r hyn a fyddai wedi cael ei ddarparu fel arfer ar safle ysgolion cyn COVID-19. Mynegwyd pryderon am effaith y ddarpariaeth hon ar gynnydd academaidd hirdymor y disgyblion.

**5.40** Roedd y ddarpariaeth yn amrywiol iawn ac roedd enghreifftiau o arloesedd sylweddol. Roedd rhai myfyrwyr AGA o'r farn eu bod wedi bod yn rhan o ymateb

arloesol i addysgu o fewn ffiniau'r cyfyngiadau symud ac y gallai fod goblygiadau hirdymor i'r dulliau newydd hyn o ran cefnogi dysgwyr yn y dyfodol, e.e. wrth ddefnyddio ffyrdd arloesol o ennyn ymateb gan ddysgwyr.

**5.41** Roedd rhieni'n croesawu'r syniad o ddefnyddio adnoddau a phrofiadau dysgu digidol yn ogystal â chopïau ffisegol, caled fel deunyddiau dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud.

**5.42** Roedd cynhyrchu a dosbarthu copïau caled, ffisegol o'r deunyddiau dysgu yn ddrud i ysgolion.

**5.43** Cynigiodd ysgolion ffurfiau gwahanol o gymorth bugeiliol i ddisgyblion a theuluoedd / gofalwyr, gan ddibynnu ar angen.

**5.44** Yn aml, roedd ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion ag ADY wedi defnyddio'u cyfleusterau fel ysgol hyb i gefnogi plant agored i niwed a'u teuluoedd, neu ddisgyblion a theuluoedd/gofalwyr a oedd wedi dod yn agored i niwed oherwydd yr amodau a achoswyd gan y cyfyngiadau symud, drwy gynnig addysg ar y safle i'r disgyblion hynny. Cafodd y disgyblion hyn eu nodi'n aml fel rhan o ddull cydweithredol rhwng ysgolion, yr awdurdod lleol a gwasanaethau cymdeithasol.

# 6. Canfyddiadau yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol

## 6.1 Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19 ac yn ystod y cyfnod pan ail-agorodd ysgolion ar ôl y cyfyngiadau symud

**6.2** Gwelwyd effeithiau ehangach y pandemig a'r cyfyngiadau symud wrth i faterion yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol ddatblygu, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion agored i niwed a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gwasanaethau cymorth arbenigol a'r ffordd maent yn rhyngweithio ag ysgolion, disgyblion unigol a'u teuluoedd yn rhan hanfodol o fabwysiadu dulliau amlddisgyblaethol o gefnogi pob disgybl. Ymhlith yr asiantaethau a all ddarparu cymorth i ysgolion a chydweithredu â nhw wrth gefnogi disgyblion unigol, o fewn fframwaith cymorth mwy cyffredinol mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol, mae gwasanaethau cymdeithasol, therapïau fel therapi galwedigaethol a therapi lleferydd ac iaith, gwasanaethau meddygol i ddisgyblion ag anghenion gofal iechyd gan gynnwys meddyg teulu'r plentyn, seicolegwyr addysg ac aseswyr arbenigol. Gall y ddibyniaeth ar y gwasanaethau arbenigol hyn fod yn uwch mewn ysgolion â chyfran uwch o ddisgyblion ag ADY.

**6.3** Roedd effeithiau'r cyfyngiadau symud, y mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r gofyniad i weithio gartref lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ar lefel y cydweithrediad rhwng ysgolion a gwasanaethau cymorth arbenigol yn amrywio yn ôl ysgolion ac achosion unigol. Sylwodd un ysgol, er enghraifft, fod rhai teuluoedd, heb gydgysylltiad agos rhwng y gwasanaethau hyn yn yr ysgol, wedi gorfod defnyddio'u sgiliau a’u profiadau eu hunain o weithio gydag asiantaethau arbenigol er mwyn sicrhau cymorth i'w plant:

> '...mae craidd cadarn o rieni sydd â phlant â'r anghenion dysgu mwyaf dwys. Maent yn eitha' da. Maen nhw'n dangos blaengaredd wrth sicrhau bod gwasanaethau'n dod i'r tŷ a'r cartref i gefnogi anghenion clinigol a meddygol weithiau. Maent fel arfer yn barod i weithredu a gallant wneud y pethau hyn drostynt eu hunain am eu bod wedi brwydo mor hir ers y cychwyn cyntaf i sicrhau cymorth i'w plant. Yn yr un modd, roedd rhieni gartref ac felly roeddent

yn gallu ffonio a sicrhau'r math o wasanaethau y byddent fel arfer yn eu cael yn yr ysgol, ond eu bod yn cael eu cynnal yn y cartref.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**6.4** Ystyried bod rôl gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfyngiadau symud. Heb fod monitro agos yn yr ysgol, roedd yn hanfodol bod gwasanaethau cymdeithasol yn cadw mewn cysylltiad â theuluoedd agored i niwed ac yn monitro effeithiau'r cyfyngiadau symud arnyn nhw a'r cydberthnasau o fewn y teuluoedd hynny, er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Mynegwyd sylwadau cadarnhaol am waith ac argaeledd gwasanaethau cymdeithasol, a'u rôl wrth gysylltu â theuluoedd unigol a monitro eu sefyllfaoedd. Yn benodol, ystyriwyd bod eu heffeithlonrwydd a'u gallu i addasu wrth nodi achosion penodol lle roedd angen cymorth ychwanegol, yn hollbwysig.

'Yn ystod yr wythnosau cyntaf, roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion, wrth ddod i ddeall nad oedd yn rhaid iddynt fynd i'r ysgol, wedi setlo i'r drefn newydd ac roedd fel gwyliau estynedig cynnar iddyn nhw. Ond wrth gwrs, wrth i'r wythnosau a'r misoedd fynd heibio, roedd mwy yn wynebu anawsterau. Y rhieni yn fwy na'r dysgwyr efallai. Ac roedd yn anodd iawn taro cydbwysedd rhwng ystyried beth oedd orau i iechyd a lles yr unigolion o ran penderfynu pwy fyddai'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer dod i'r ysgol. Roedd rhai disgyblion yn fregus iawn iawn, ond yn ymdopi'n dda gartref. Roedd eraill nad oeddent. Felly, gwnaethom benderfynu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol pwy fyddai'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer dod i'r ysgol. Wrth gwrs, roedd yn anodd iawn, am fod yn rhaid i ni greu rota neu amserlen staff. Menywod ifanc â phlant yw 90% o'r gweithwyr yn yr ysgol. Gan fod ysgolion eu plant eu hunain ar gau, roedd goblygiadau ar gyfer ein gallu ni i staffio'r ysgol. Roedd gennym hefyd tua wyth aelod o staff a oedd yn agored i niwed ac allen nhw ddim dod i'r gwaith chwaith am eu bod yn gwarchod. Roedd hyn yn lleihau'r nifer oedd ar gael i fynd ar y rota. Gwnaethom sefydlu system a threfn yr oedd pawb yn gytûn yn eu cylch. Cawsom gyfarfodydd rheolaidd â gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod lleol. Rhaid i mi ddweud y bu'r awdurdod yn gefnogol iawn. Tra roedd rhai o dimau'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwthio i'r plant gael dychwelyd i'r ysgol, bu'r cyfarfodydd â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod lleol o gymorth i roi darlun ehangach a'r sefyllfa

Iawn i nodi'r blaenoriaethau ymhlith y plant o deuluoedd a oedd yn fregus ar yr adeg honno.'  (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**6.5** Mae sylwadau'r ysgol yn awgrymu bod y gydberthynas rhwng ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol wedi dod yn ddynamig ac yn ymaddasol i amgylchiadau'r disgyblion, wedi'i nodweddu gan newid cyson, ac yn ddibynnol ar anghenion dysgu'r disgybl a newidiadau yn amgylchedd y cartref:

> 'Daeth rhai disgyblion i'r ysgol a'r rhain, fwy neu lai, oedd y disgyblion y byddech yn eu hystyried yn ddisgyblion bregus. Roedd rhai yn yr ysgol bum diwrnod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn ystod y gwyliau. I eraill, roedd yn dibynnu sut roeddem yn eu grwpio. Gwnaethom eu grwpio yn unol â chytundebau â'r rhieni a'r gwasanaethau cymorth plant arbenigol. Byddem yn cynnal cyfweliadau â'r gwasanaethau cymorth plant arbenigol. Mae anghenion rhai o'r plant yn ddwys iawn, roedd rhai yn yr ysgol bum diwrnod yr wythnos. Roedd eraill i mewn am ddau neu dri diwrnod; roedd eraill i mewn am ddau ddiwrnod yr wythnos. Ond gallai hynny newid. Roedd hynny'n hyblyg yn ystod y cyfnod hwn. Pe byddem yn cael galwad ffôn neu neges yn egluro bod rhywun wedi cael wythnos wael, byddem yn penderfynu beth i'w wneud. Roedd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau dynamig yn seiliedig ar y sefyllfa yn y cartref a’r heriau a wynebwyd gan ddisgyblion a'u rhieni. Byddem yn ceisio tynnu pwysau oddi ar y cartref fel hyn.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**6.6** Daeth cymorth o'r fath drwy gydweithredu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn fwy cynnil a chymhleth wrth i'r pandemig ddatblygu, ac yn unol ag anghenion dysgu'r disgybl. Roedd angen i ymatebion fod yn ymaddasol ac yn hyblyg, yn unol ag anghenion penodol y disgyblion a'r effaith ar y cartref neu'r ysgol.

> 'Rydyn ni fel ysgol wedi gorfod cydweithredu'n agos iawn â'r teulu a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau yn addas i'r unigolyn. Wrth gwrs roedden ni ar agor i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, ond nid oedd yn addas i rai plant fod yn yr ysgol ond nid yn eu hystafell ddosbarth arferol, heb eu cymheiriaid a heb fod y staff arferol yn gweithio. Roedd yn ormod iddynt. Doedden nhw ddim yn deall beth oedd yn digwydd ac roedd yn ormod i rai, fel plant ag anghenion dysgu dwys a

> lluosog. Roedd yn cael effaith ddramatig ar eu hiechyd meddwl. Felly roedd angen cydweithredu â'r rhieni ac asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn penderfynu, 'iawn, gallwn ni helpu gyda'r staffio ambell ddiwrnod, ond nid yw bod yn yr ysgol yn addas i'r plentyn hwn'. Efallai nad ydym yn siarad am fod gartref, ond efallai mewn lleoliad arall ar wahân i'r ysgol. Dod o hyd i leoliad mwy niwtral. Roedd angen trefn ddyddiol ar y disgyblion hyn. Nid oeddent yn gallu deall, er enghraifft, pam fod y pwll hydro ar gau ac na allent ei ddefnyddio na pham fod yr ystafelloedd synhwyraidd ar gau. A pham nad oedd bron neb yn yr ysgol. Roedd yn sefyllfa ddryslyd iawn iddynt ac ni allai rhai ymdopi â hyn. Byddai eu hymddygiad yn waeth nag erioed.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol G)

**6.7** Roedd effeithiau'r cyfyngiadau symud, y disgwyliadau i gadw pellter cymdeithasol a'r cyfarwyddyd i weithio gartref yn aml yn cyfuno i greu sefyllfaoedd cymhleth iawn a allai arwain at gynyddu'r straen rhwng ysgolion a'r gwasanaethau cymorth arbenigol, fel y disgrifir yn y vignette canlynol.

**Ffigur 6.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol**

Dywedodd rhai ysgolion fod y cyfyngiadau symud wedi amharu ar y gwasanaethau cymorth arbenigol a bod y lleihad cysylltiedig ym mhresenoldeb y gwasanaethau yn ystod y cyfyngiadau symud, ac yn benodol yn ystod y cyfnod rhwng y cyfyngiadau symud pan ailagorodd yr ysgolion, wedi cael effeithiau annisgwyl a phroblematig yn aml. Roedd hyn yn wir, er enghraifft, yn achos ysgol sy'n cefnogi dysgwyr ag amrywiaeth eang o ADY:

> '...mae mathau eraill o ddarpariaeth y bu'n rhaid i ni eu gwneud yn ystod y cyfnod hwn ... Ond wrth gwrs, roedd hynny'n anodd weithiau am fod y cyfyngiadau a'r gofyniad i gadw pellter yn atal pobl rhag dod i mewn i'r cartref ac ati. Ni allaf siarad ar ran byrddau iechyd a'r therapyddion ac ati. Roedd cyfnod o amser lle'r ymddengys fod y mathau hyn o wasanaethau wedi diflannu'n llwyr, bron. Penderfynais o'r cychwyn na fyddwn yn cael fy llusgo i mewn i'r math hwn o ficro wleidyddiaeth. Nid broceriaeth ydym ar y pwynt hwn. Rydym yn cefnogi rhieni â sgiliau i gyfathrebu yn y ffordd honno. Ond wrth i'r cyfnod fynd yn ei flaen, gwelwyd rhai problemau yn codi o ran pwy o blith y gwasanaethau arbenigol oedd i fod i gynnig darpariaeth. Doedden ni ddim yn teimlo y dylen ni gael ein llusgo i mewn i ddyfarnu mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae'n anodd am nad ydym wedi gweld unrhyw un o'r therapyddion yn dod i mewn. Nid yw asesiad rhithwir yn gweithio gyda phlentyn pedair neu bump oed sydd ag anghenion dysgu dwys. Nid yw'n gweithio. Sgil-effaith y sefyllfa o ran Covid-19. Dwi ddim yn gwybod beth yw'r polisïau gwaith yn yr asiantaethau hyn. Ers mis Medi, fy marn i yw, os yw'n ddigon da i ni, mae'n ddigon da iddyn nhw. Mae'n syml - rwy'n

disgwyl eu gweld ar y safle. A dwi'n dweud hyn wrth rieni. Mae gwahaniaethau rhwng y rhieni. Roedd rhai yn dda iawn wrth sicrhau eu bod yn cael y ddarpariaeth roedd gan y plant hawl iddi. Hynny yw, pan oedd yn ymarferol bosibl o ystyried y sefyllfa a'r cyfyngiadau. Gydag eraill, bu'n rhaid i ni ymyrryd a gweithio gyda rhieni, neu byddai athrawon yn synhwyro drwy gyfathrebu â rhieni fod angen cymorth ychwanegol yn y meysydd hyn. Rydym yn cyfeirio'n effeithiol iawn, ac erbyn tua adeg y Pasg, roeddem wedi sefydlu trefn gyda'r staff lle gallem fonitro a chynnig cymorth yn yr achosion hyn. A gallem gynnig cyngor ymarferol a chymorth wrth gyfeirio rhieni i ddangos sut y gallent, o dan y cyfyngiadau, sicrhau neu apelio am gymorth a darpariaeth i'w plant yn y cartref.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

**6.8** Teimlai rhai ysgolion fod y cyswllt â'r gwasanaethau cymorth arbenigol wedi'i golli a'i bod yn anodd cael gafael arnynt yn ystod y cyfnod rhwng y cyfyngiadau symud, pan oedd llawer o ddysgwyr wedi dychwelyd i ysgolion. Yn ystod cyfnod a oedd eisoes yn heriol oherwydd amodau a chyfarwyddebau yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol a diogelu disgyblion, dywedodd arweinwyr rhai ysgolion bod anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau cymorth allweddol wedi arwain at brofiadau heriol i'r ysgol.

> 'Byddwn yn dweud, ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi fy mod i wedi bod yn delio â staff sydd wedi bod yn eithaf blin a gofidus. Ym maes addysg, mae'r staff i gyd yn ôl. Mae llawer ohonom yn yr ysgol mewn adeilad cymharol fach and felly nid oes modd cadw pellter cymdeithasol. Mae llawer o heriau yn gysylltiedig â hyn. Mae cydweithwyr ym maes addysg, fel swyddogion, yn parhau i weithio gartref wrth gwrs, felly roedd llai o wasanaethau ar gael i'r dysgwyr ar ffurf y gwahanol therapïau ac ati. Ac roedd pryderon am hyn yn gwneud i bobl deimlo'n bryderus ac yn flin, ac yn fyr eu hamynedd. Ond, yn ddiddorol ddigon, erbyn hyn, mae'r staff wedi dod i delerau â hyn ac yn delio'n dda â'r sefyllfa.  Ond rydym yn gweld hyn yn codi ymhlith y plant. Yn fy marn i, mae'r cyfnod hir i ffwrdd a'r pryder sydd gan rai plant sydd nôl yn yr ysgol nawr ar ôl bod gartref, ac nad ydynt yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf yn peri straen ymhlith y plant. A hefyd, mewn gwasanaethau tebyg sy'n ein cefnogi ni a'r dysgwyr, er enghraifft gyrwyr tacsi, sy'n cyflawni tasg bwysig iawn wrth hebrwng y plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Gallwch weld pryderon yn adeiladu, ac weithiau straen a dicter. Yr hyn y mae hynny'n ei olygu i mi yw

> cwynion gan rieni am y gwasanaethau, pan fydd y gweithwyr dan straen a bod hynny'n achosi anghydfod. Felly, efallai bod effeithiau mwy cudd nad oes cymaint o sôn amdanynt, ar y gwasanaethau rydym yn dibynnu arnynt i ddarparu addysg i'r plant sy'n dod i'n hysgol.  Mae hyn yn effaith y cyfnod cyfan, yn fy marn i. ' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol F)

**6.9** Cafodd materion tebyg, yn ymwneud ag anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau cymorth arbenigol, eu disgrifio gan rieni dysgwyr ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd.

**6.10** Er bod rhai rhieni o'r farn bod ysgolion wedi gweithio'n galed o fewn y cyfyngiadau gyda'r adnoddau oedd ar gael i ddarparu'r cymorth priodol i ddisgyblion, teimlai rhai rhieni fod natur anghenion eu plant yn golygu bod anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau cymorth arbenigol yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad eu plant:

> '...mae'n ei chael hi'n anodd derbyn y dylai fod yn dysgu yn y cartref oherwydd natur ei anabledd... collodd allan ar flwyddyn gyfan o ymyriadau - ymweliadau dyddiol â'r gampfa, ffysiotherapi, therapi lleferydd ac iaith wyneb yn wyneb... fyddwn ni byth yn gallu dal i fyny. Ni chafodd gwersi ar-lein eu cynnig oherwydd natur anawsterau dysgu yr holl blant yn nosbarth fy mab.  Mae fy mab yn cael amrywiaeth o ymyriadau gan amrywiaeth o arbenigwyr (lleferydd ac iaith, ffysio, nam ar y clyw ac ati) a does gen i ddim y profiad o wneud hyn... ni allwn gefnogi dysgu fy mab yn effeithiol yn y cartref oherwydd ei wrthwynebiad - mae ganddo ffiniau clir iawn ynghylch beth yw ysgol a beth yw gartref, ac roedd bron yn amhosibl iddo oresgyn y ffiniau hynny. Mae gorfod edrych ar ôl plentyn anabl, a cheisio gwneud fy swydd fy hun a hwyluso dysgu fy mhlant eraill wedi bod yn heriol.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

**6.11** Roedd asiantaethau allanol a dulliau a fyddai wedi bod ar waith wedi'u cyfyngu gan y cyfyngiadau a roddwyd ar ysgolion, yn ogystal â'r cyfyngiadau symud a oedd yn effeithio ar rannau helaeth o'r boblogaeth oedran gweithio yn gyffredinol. Roedd rhai rhieni ac athrawon o'r farn bod y plant a gafodd anawsterau wrth gael gafael ar y gwasanaethau cymorth ehangach hyn yn ystod y cyfyngiadau symud o dan anfantais gynyddol:

> ‘...cyn Covid-19 roedd yn cael sesiynau dyddiol yn y gampfa ac roedd yr uned drws nesaf i'r gampfa felly roedd yn mynd yno i gael sesiynau ymarfer corff

dyddiol. Roedd hefyd yn dilyn rhaglen ffysiotherapi ac mae ganddynt yr holl offer yn yr ysgol, a'r arbenigedd ac roedd hynny'n cael ei oruchwylio gan y ffisiotherapydd. Mae hefyd yn cael cymorth lleferydd ac iaith. Mae ganddo nam ar ei glyw hefyd, felly roedd yn cael cymorth gan athro i blant â nam ar eu clyw. Mae'r holl ymyriadau hynny wedi dod i ben. Nid yw hynny i ddweud nad ydynt yn rhan o'r penderfyniadau am y ddarpariaeth. Ond am ei fod yn gwarchod ta beth, nid oes ffordd y gallai fynd i'r gampfa bob dydd am hanner awr. Ac nid oes campfeydd ar agor ta beth. Felly nid yw ymyriadau o'r fath yn cael eu cynnig, ac nid oes bai ar yr ysgol am hynny, ond fydd e byth yn dal i fyny. Bydd yn anodd iddo ddal i fyny ar ôl colli blwyddyn o weithgarwch corfforol pan mae wedi'i gyfaddawdu'n gorfforol ar y gorau, yn enwedig gan mai dim ond blwyddyn sydd ganddo ar ôl yn yr ysgol ta beth.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

'Mae'n ei chael hi'n anodd yn yr ysgol fel y mae, ac mae'r ysgol yn dda iawn. Os yw'n ei chael hi'n anodd, mae ganddo gyfleusterau cymorth yn yr ysgol, a does ganddo ddim hynny gartref. Fi yw ei gyfleuster cymorth gartref, ac weithiau bydda i'n brysur neu'n ceisio gweithio am fod gen i ddwy swydd a, diolch byth, gallaf weithio gartref. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

'Am ei fod wedi mynd nôl i'r ysgol ym mis Medi, ac nad oedd neb yn cael mynd i'r ystafell ddosbarth ar wahân i'r cynorthwywyr unigol, roedd yn cael cyfarfodydd Teams gyda'r timau lleferydd ac iaith. Ond i blant fel fy mab, mae'n anodd ymgysylltu ar-lein yn yr un ffordd. Mae'r ysgol yn gwneud ei gorau. Mae'n ymwneud â natur cyflwr fy mhlentyn.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

'Dim darpariaeth ar gael iddynt - e.e., apwyntiadau â'r tîm Lleferydd ac Iaith' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

**Crynodeb**

**6.12** Roedd y cyfnod rhwng y cyfyngiadau symud, pan oedd y plant wedi dychwelyd i'r ysgol, yn heriol iawn i lawer o ysgolion, yn enwedig (ond nid dim ond) y rheini â chyfran uchel o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y cyfuniad o

orfod rheoli disgyblion o fewn 'swigod' a gorfod atal y disgyblion rhag cymryd rhan yn eu harferion a mynd i'w hardaloedd o ganlyniad i'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig wedi creu anawsterau i arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth dysgu, ac, yn fwy penodol, i ddysgwyr. Ystyriwyd bod yr elfennau hyn yn cael eu gwaethygu gan anawsterau wrth gael gafael ar y mathau o wasanaethau cymorth arbenigol a allai fod wedi gwella amodau i'r dysgwyr.

**6.13** Ystyriwyd bod trefniadau cydweithio rhwng yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion yn bwysig iawn yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Rolau allweddol y tair asiantaeth dan sylw oedd nodi anghenion disgyblion a'u teuluoedd / gofalwyr, cynnig a darparu cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd / gofalwyr a chydweithredu er mwyn nodi'r disgyblion hynny a allai elwa ar fynychu'r ysgolion Hyb.

**6.14** Mae'n bosibl y caiff y diffyg gwasanaethau cymorth arbenigol i ddisgyblion, yn enwedig y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, effaith hirdymor ac andwyol ar gynnydd disgyblion unigol mewn rhai achosion.

# 7. Canfyddiadau yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles

### Cyflwyniad

**7.1** Roedd gan randdeiliaid lawer i'w ddweud am iechyd meddwl a lles y dysgwyr pan oedd yr ysgolion ar gau. Trafodwyd hefyd iechyd meddwl a lles y rhai a oedd yn cefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn, fel athrawon a rhieni/gofalwyr.

**7.2** Yn fras, mae pum is-thema wedi deillio o ddata'r astudiaethau achos.

- Pryderon am iechyd meddwl a lles dysgwyr, rhieni a staff
- Unigedd cymdeithasol dysgwyr
- Materion diogelu a phryderon yn atal sesiynau byw i ddechrau
- Profiadau cadarnhaol o ddysgu yn y cartref
- Dysgu yn y cartref

**7.3** Mae'r vignette canlynol yn rhoi enghraifft o nifer o'r is-themâu, a ddadansoddir ymhellach isod.

**Ffigur 7.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles**

Roedd cynnal lles eu dysgwyr yn ystod y cyfyngiadau symud yn bryder allweddol i bob ysgol a oedd yn rhan o'r ymchwil. Rhoddwyd llawer o sylw i'r rhai y nodwyd eisoes eu bod yn wynebu risg cyn y cyfyngiadau symud, boed hynny oherwydd cyflawniad isel, anghenion dysgu ychwanegol, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, cyswllt â gwasanaethau plant, neu ymwybyddiaeth yr ysgolion o broblemau yn yr uned deuluol. Y dysgwyr hyn, felly, oedd y brif garfan y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod pontio i addysgu o bell. Fel y nododd aelod o Uwch-dîm Arwain ysgol J wrth grynhoi polisi ei ysgol:

> 'Gwnaethom adnabod ein disgyblion agored i niwed, felly roedd gennym restr gynhwysfawr o bawb yn yr ysgol a oedd yn agored i'r elfennau bugeiliol niferus yn yr ysgol, ac yn gyflym iawn, dechreuodd y tîm gysylltu â'r disgyblion agored i niwed bob wythnos, weithiau fwy nag unwaith yr wythnos. Weithiau, gyda rhai disgyblion, roedd cyfathrebu unwaith bob pythefnos yn ddigon.'

Nodwyd bod rhyngweithio uniongyrchol â'r plentyn, a'r ddealltwriaeth a geir drwy sgwrsio â'r plentyn yn unigol, bob amser wedi chwarae rhan bwysig wrth nodi anfantais. Yn ystod y cyfyngiadau symud, fodd bynnag, cafodd y gallu hwnnw i asesu dysgwyr yn unigol ei golli. O ganlyniad, roedd yn rhaid datblygu strategaethau newydd. Wrth grynhoi ymateb yr ysgol, nododd un aelod o uwch-dîm arwain ysgol I:

> 'Yn ein cyfarfod staff wythnosol...byddem yn siarad fel staff ac yn rhoi gwybod os nad oeddem wedi clywed gan rywun, ac yn trafod sut oedd

> pethau'n mynd yn ein barn ni. Roedd yn amser gwerthfawr i ni rannu fel staff, ac i nodi unrhyw faterion neu broblemau. Yna byddai'r dirprwy yn ffonio'r myfyrwyr y byddem yn poeni amdanynt, dim ond i gadarnhau bod popeth yn iawn... neu weld a oedd unrhyw beth y gallem ei wneud. Felly, fel staff, roeddem yn siarad yn agored i geisio nodi unrhyw broblemau, ac yn enwedig os oedd brodyr a chwiorydd mewn gwahanol ddosbarthiadau... Roeddem yn ceisio gweithio gyda'n gilydd i nodi unrhyw broblemau.'

Cafodd elfen gref o ystyried lles ei meithrin felly ochr yn ochr ag ystyriaethau ynghylch natur y tasgau eu hunain. Fel y nododd un cyfrannwr o ysgol L, ymddengys fod y plant wedi colli'r gallu i ‘joio yn gyffredinol’. Nododd athrawon o ysgol K:

> 'Roedd y cyfyngiadau symud wedi effeithio ar les rhai disgyblion ac er bod yr ysgol/penaethiaid cynnydd wedi gweithio'n galed i gysylltu â dysgwyr agored i niwed, roedd rhai heb ymgysylltu. Roedd y cyfyngiadau symud wedi achosi iselder ymhlith rhai disgyblion.'

I lawer, yr ysgol oedd yr unig ffynhonnell o ryngweithio cymdeithasol. Datblygodd llawer o ysgolion systemau'r timau bugeiliol o gysylltu a chefnogi mewn ymateb i anghenion y disgyblion. Cafodd disgyblion penodol a'u teuluoedd alwadau ffôn a negeseuon.

Nododd disgyblion eu bod yn teimlo'n ynysig a'u bod yn gweld eisiau eu ffrindiau. Er eu bod yn gweld ei gilydd ar lwyfannau dysgu, roeddent yn dal i deimlo'n ynysig ac yn gweld eisiau bod yn yr un ystafell â'u cymheiriaid a'u hathrawon. Nododd nifer sylweddol o'r disgyblion eu bod yn gweld eisiau gallu chwarae gyda'u ffrindiau. Dywedodd rhai disgyblion eu bod yn mwynhau treulio mwy o amser gartref gyda'u teuluoedd a dysgu yng nghysur eu cartrefi eu hunain.

Nododd un rhiant o ysgol I:

> 'Mae'n anodd iawn, iawn i'w gymell i wneud unrhyw waith. Yn aml, yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, ac i ryw raddau yn ystod y cyfyngiadau hyn, byddai hyn yn arwain at ddadlau yn y teulu. A fan hyn yw ei fan diogel ar hyn o bryd. Dydyn ni fel rhieni ddim yn fodlon iddo gael ei ypsetio gymaint wrth feddwl amdanon ni'n gorfod ei ddysgu gartref. Felly, gwnaethon ni benderfynu bod yn rhaid i'w fan diogel fod yn ddiogel, ac nid yn lle ar gyfer ffraeo dros ei addysg.' 'Mae yna ddigalondid mawr yn perthyn iddi. Mae iechyd meddwl yn gyffredinol yn broblem fawr yn hyn o beth.' Nododd un arall 'Roedd diffyg cymhelliant llwyr a theimlad o iselder a digalondid. Roedd yn ddigalon ac wedi diflasu ar beidio â gallu gweld ei ffrindiau, a bu'n rhaid i fi gysylltu â'r ysgol. A nawr fy mod i wedi codi helynt am y peth, rydyn ni'n derbyn galwadau wythnosol i gadarnhau ei bod hi'n iawn, ond mae'n teimlo bod hynny ond yn digwydd am fy mod i wedi creu helynt, ac na fyddai dim wedi digwydd pe bawn i heb wneud hynny. Rwy'n meddwl am ddisgyblion eraill na fyddai eu rhieni wedi bod yn barod i'w wneud. A dwi ddim yn meddwl y byddai gan [yr ysgol] syniad am beth sy'n digwydd.'

Nododd un rhiant fod gorbryder ei blentyn wedi lleihau ers bod gartref a bod llai o straen o lawer yn y cartref bob bore.

**Iechyd meddwl / lles**

**7.4** Nododd staff bryderon am iechyd meddwl a lles dysgwyr yn ystod y pandemig. Esboniodd ysgolion eu bod wedi ceisio cefnogi iechyd a lles eu dysgwyr a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod hwn.

> 'Rwy'n meddwl bod llawer o bobl ac athrawon yn gwybod ac yn ei chymryd yn ganiataol y bydd yn rhaid i ni weithio'n galed i leihau'r effaith ar iechyd meddwl dysgwyr. Mae rhai unigolion nad ydynt am ddychwelyd i'r ysgol o gwbl. Mae disgybl arall rwy'n gwybod amdano, er enghraifft, wedi datblygu obsesiwn â glanhau a saniteiddio ei ddwylo. Mae ganddo awtistiaeth ac mae'n cyfrif i 20 yn uchel wrth saniteiddio a glanhau ei ddwylo. Mae'r pandemig hwn wedi cael effeithiau eithaf sylweddol ar blant mewn ysgolion prif ffrwd ond pan rydych chi'n sôn am y math o ddysgwyr sydd gennym ni, gallwch weld bod yr effeithiau yn fwy amlwg o lawer. Mae'n saniteiddio os yw'n cyfarfod ag unrhyw un. Felly, mae bywydau llawer o'n dysgwyr yn troi o gwmpas y pandemig ar hyn o bryd. Gan fod llawer ddim yn deall beth sy'n digwydd heblaw eu bod wedi gorfod mynd adref, a bod y drefn o fynd i'r ysgol wedi'i thorri.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol F)

> 'Gwnaethom rannu pobl yn dimau. Roedd ein tîm lles yn cadw trefn dda, yn gwneud galwadau ffôn rheolaidd ac yn siarad â'r rhieni.  Sut wyt ti? Ydi popeth yn iawn? Oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud? Roeddem yn cadw llygad ar bobl drwy ddosbarthu bwyd hefyd. Dosbarthu'r prydau ysgol am ddim, y pecynnau bwyd,' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

> 'Unwaith eto, roedd yr athrawon yn ceisio meddwl am ffyrdd iddynt dreulio amser gyda'r aelod o'r teulu, fel coginio. Neu greu darn o gelf yn yr ardd gan ddefnyddio unrhyw beth y gallwch ddod o hyd iddo, ac ymarfer ysgrifennu eich enw i blant Derbyn ac ati'. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol A)

**7.5** Wrth i'r angen i ddysgu yn y cartref barhau drwy gydol y flwyddyn, roedd pryderon y staff addysgu a'r rheini yn dechrau canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles y plant. Roeddent i gyd yn cydnabod ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r materion hyn fe sail ar gyfer dysgu ac ymgysylltu effeithiol.

> 'Mae disgyblion wedi colli tir o ran eu perfformiad academaidd ac mae Covid-19 wedi effeithio'n negyddol ar les plant. Hefyd, yn fy marn i, nid oes llawer o

blant wedi bod yn gwneud gweithgarwch corfforol nac ymarfer corff yn rheolaidd yn ystod y cyfyngiadau symud, sydd wedi effeithio'n negyddol ar iechyd a lles.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'rwy'n poeni'n fawr am bwysau'r plant hefyd. Mae llawer o blant wedi bod yn magu llawer o bwysau. Mae rhai wedi mynd yn ordew. Mae bod gartref a bwyta beth bynnag y maen nhw eisiau yn elfen arall o amharu â'r drefn ddyddiol. Pan fyddan nhw yn yr ysgol, maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n mynd i'w gael i'w fwyta a chaiff y prydau eu paratoi'n ofalus. Maen nhw'n mynd allan i chwarae. Maen nhw'n cael addysg gorfforol. Ond yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'r holl arferion hyn wedi peidio. Rwy'n poeni'n fawr am hyn. Mae hyn wir yn effeithio ar iechyd y plant. Rydym wedi bod yn ceisio cynnal gwersi addysg gorfforol ac ioga ar-lein. Mae plant nad ydyn ni byth yn eu gweld ar-lein, ac rydym yn tybio nad ydynt yn cael sesiynau ymarfer corff o'r fath, felly rydych yn poeni am yr hyn y maent yn ei fwyta a faint maen nhw'n symud yn ystod y dydd. Rwy'n adnabod un plentyn; mae'n cael ei drin fel babi gan weddill y teulu ac mae'n cael unrhyw beth y mae ei eisiau, ac mae'n edrych fel ei fod yn gorfwyta ac nad oes neb yn atal hyn. Mae'n sefyllfa anodd iawn. Sut ydych chi'n dweud wrth rieni sy'n caniatáu iddo wneud hyn fod hyn yn cael effaith ar ei iechyd? (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol D)

'Iechyd meddwl yw'r prif bryder ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Dysgwyr nad yw eu rhieni mor hyderus yn gweithio gyda'u plant, sy'n eu rhoi dan anfantais enfawr'. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**7.6** Esboniodd cyfranogwyr fod pryderon dysgwyr yn deillio o amrywiaeth o faterion.

‘Roedd pryderon ein plant yn deillio o amrywiaeth o faterion. Hefyd, pan oedd y rhieni'n weithwyr allweddol, roedd hynny'n creu haen ychwanegol o bryder i rai plant. Oherwydd ymrwymiadau gwaith i rai, ac i eraill, ddiffyg gwybodaeth dechnegol, problemau cysylltedd, problemau iechyd meddwl yn ymwneud ag ynysu i rai rhieni a phlant. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

'Hefyd, oes oedd gan riant broblemau iechyd meddwl, e.e. iselder, gall fod yn cael diwrnod gwael a throsglwyddo’r egni gwael hwnnw i'w blentyn.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol B)

'Mewn rhai teuluoedd, mae'r ddau riant yn weithwyr allweddol - mae'r plant hynny'n poeni'n barhaus am eu rhieni ac mae'n achosi straen a'i gwneud yn anoddach iddynt ganolbwyntio ar eu gwaith ysgol. Diffyg mynediad digonol i'r rhyngrwyd neu ddim dyfais ddigidol i'w defnyddio ar gyfer gwaith ysgol.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

'Rwy'n poeni y bydd fy merch yn fwy pryderus pan ddaw at ddysgu. Mae ei hunanhyder yn isel yn barod ac mae hi'n mynd i banig pan fydd hi'n wynebu anawsterau. Nid yw'r ffaith bod ei hamgylchedd diogel bellach yn amgylchedd llawn straen yn helpu ei hyder. Mae hyn yn effeithio ar ei hawydd i ddysgu. Rwyf hefyd yn poeni, am ei bod yn bedair, ei bod yn colli allan ar flynyddoedd dysgu datblygiadol hanfodol, a fydd yn arwain at oedi yn y blynyddoedd dysgu nesaf, gan ei rhoi dan anfantais o ran y cyfle i gael addysg lawn a theg. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

'Gorbryder ynghylch mynd allan. Materion iechyd meddwl yn ymwneud â gweld eisiau eu cymheiriaid. Pwysau a straen ar rieni i gydbwyso gwaith, gofalu am y plant gartref, a cheisio eu haddysgu ar yr un pryd. Mae hyn yn effeithio'n anfwriadol ar y plant.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**7.7** Effeithiwyd ar iechyd a lles rhieni yn ystod y cyfnod wrth i rai wynebu anawsterau wrth gydbwyso swyddi a dysgu eu plant; effeithiodd hyn ar y dysgwyr.

'Rwy'n poeni am fy mhlant yn dychwelyd i'r ysgol ar hyn o bryd am fy mod i'n disgwyl babi ac mae gan fy mhlentyn ieuengaf broblemau â'i frest'. Mae'r risg o gael Covid-19 yn y cartref yn codi ofn arnon ni a byddai'n cael effaith enfawr.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

Byddai'n well gen i pe bai fy mab gartref gyda fi, rwy'n ei roi ar y bws ysgol bob bore gan boeni fy mod yn ei anfon i amgylchedd anniogel. Ni all neb gadw fy mab yn ddiogel a gofalu amdano yn well na fi.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol D)

'Ie, dim ond dau blentyn sydd gen i, ond maen nhw'n wahanol iawn. Mae gan rai teuluoedd lawer mwy ond rwy'n rhiant sengl. Effeithiwyd ar iechyd a lles

pawb eleni, a'r cwestiwn yw a ydych chi'n gallu ymdopi o dan gymaint o bwysau.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol D)

''Rwy'n meddwl y buom ni yn lwcus am fy mod i a'm gŵr yn gweithio gartref ac felly roeddem wedi gallu rhoi amser i'n plentyn i'w helpu i wneud ei waith ysgol. Roeddem yn ffodus iawn hefyd am fod ein plentyn yn ymddwyn yn dda iawn ac mae'n gallu ymdopi â'r newid i'w drefn ddyddiol.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol D)

**7.8** Cydnabu rhai athrawon a staff addysgu'r her roedd rhieni yn ei wynebu wrth geisio cael dysgwyr hŷn i ymgysylltu â'u dysgu.

'Mae'n bosibl y bydd rhai o'r dysgwyr, oherwydd yr amodau, yn mynd yn ymosodol a gallent ymateb yn negyddol i rieni am awgrymu eu bod yn gwneud y gwaith, yn enwedig pan fyddant yn hŷn, efallai 18 oed ac yn hŷn. Ni all y rhieni eu gwthio cymaint yn y cartref er mwyn ceisio eu hannog i ymgysylltu â''u haddysg.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol F)

'Rydym yn poeni, os cânt eu hanfon adref, y byddwn ni'n dioddef sgil-effeithiau'r newid hwnnw i'w trefn ddyddiol, fel y tro diwethaf, a arweiniodd at ddifrod i'r tŷ.’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol D)

**7.9** Trafododd uwch-arweinwyr y bu athrawon hefyd yn bryderus ynghylch dychwelyd i'r ysgol gyda'r haint yn dal i ledu ymhlith y boblogaeth.

'Y pryder mwyaf yw'r ffaith ein bod ni dal yn ei chanol hi. A dydyn ni ddim yn gweld diwedd arno ar hyn o bryd, o ran yr effaith y mae'n ei chael ar ddysgwyr a sut rydyn ni'n gorfod ymateb ar eu rhan. Byddwn yn dweud, ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi fy mod i wedi bod yn delio â staff sydd wedi bod yn eithaf blin a gofidus. Ym maes addysg, mae'r staff i gyd yn ôl. Mae llawer ohonom yn yr ysgol mewn adeilad cymharol fach and felly nid oes modd cadw pellter cymdeithasol. Mae llawer o heriau yn gysylltiedig â hyn. Mae cydweithwyr ym maes addysg, fel swyddogion, yn parhau i weithio gartref wrth gwrs, felly roedd llai o wasanaethau ar gael i'r dysgwyr ar ffurf y gwahanol therapïau ac ati. Ac roedd pryderon am hyn yn gwneud i bobl deimlo'n bryderus ac yn flin, ac yn fyr eu hamynedd. Ond, yn ddiddorol ddigon, erbyn hyn, mae'r staff wedi dod i delerau â hyn ac yn delio'n dda â'r sefyllfa. Ond rydym yn gweld hyn yn

codi ymhlith y plant. Yn fy marn i, mae'r cyfnod hir i ffwrdd a'r pryder sydd gan rai plant sydd nôl yn yr ysgol nawr ar ôl bod gartref, ac nad ydynt yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf yn peri straen ymhlith y plant. A hefyd, mewn gwasanaethau tebyg sy'n ein cefnogi ni a'r dysgwyr, er enghraifft gyrwyr tacsi, sy'n cyflawni tasg bwysig iawn wrth hebrwng y plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Gallwch weld pryderon yn adeiladu, ac weithiau straen a dicter. Yr hyn y mae hynny'n ei olygu i mi yw cwynion gan rieni am y gwasanaethau, pan fydd y gweithwyr dan straen a bod hynny'n achosi anghydfod. Felly, efallai bod effeithiau mwy cudd nad oes cymaint o sôn amdanynt, ar y gwasanaethau rydym yn dibynnu arnynt i ddarparu addysg i'r plant sy'n dod i'n hysgol. Mae hyn yn effaith y cyfnod cyfan, yn fy marn i. ' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol F)

**7.10** Ymddengys fod absenoldeb athrawon oherwydd haint Covid-19/profion positif wedi rhoi straen ychwanegol ar ysgolion wrth iddynt geisio cynnal trefn ddyddiol.

'O ran yr addysg, mae'n parhau fel o'r blaen yn fy marn i. Yr unig heriau yw pan fyddwn yn colli staff am fod yn rhaid i mi eu hanfon i gael profion, ac os bydd unrhyw staff yn cael canlyniad prawf positif wrth gwrs. Mae'n sefyllfa heriol mewn unrhyw ysgol ond mae newidiadau staff cyson oherwydd y pandemig yn cael effaith sylweddol iawn ar y math o blant a dysgwyr sydd gennym ni am fod cymaint ohonynt yn dibynnu ar gynefindra, a gall newidiadau cyson o'r fath beri gofid ac effeithio ar ystod gyfan o ddysgwyr. Felly, mae llawer o sgil-effeithiau ar ysgolion fel ein hysgol ni erbyn hyn oherwydd y pandemig, a'r galwadau i brofi a'r gofynion a wneir gan y system profi ac olrhain. Erbyn hyn, mae'r elfennau emosiynol yn effeithio ar y ffordd y gallwn weithredu fel ysgol. Ac rwy'n meddwl bod y plant yn teimlo’r effeithiau hyn i'r byw. Llawer o wylltio, plant yn dioddef o straen oherwydd newidiadau i'r drefn ddyddiol neu gael eu cadw allan o leoedd yr oeddent yn cael mynd iddynt yn y gorffennol.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol F)

**7.11** Roedd athrawon a rhieni hefyd o'r farn fod diffyg trefn ddyddiol a rhyngweithio cymdeithasol yn effeithio ar iechyd meddwl a lles, gan ei gwneud yn fwy heriol i rai dysgwyr ddysgu yn ystod y cyfnod hwn.

'Mae ein dysgwyr ADY yn dibynnu ar drefn a gallu rhagweld beth fydd yn digwydd, ac mae colli'r ddau beth hyn wedi achosi cryn bryder.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Plant sy'n ei chael hi'n anodd pan fydd eu trefn ddyddiol yn wahanol.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

'...peidio â chael grwpiau ffrindiau, trefn ddyddiol a sefydlogrwydd, pryder plant a rhieni ynghylch cwblhau unrhyw waith a osodwyd gan yr ysgol nad ydynt wedi'i gwblhau.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Rwyf hefyd yn gallu gweld, ymhlith y plant sydd â'r anghenion mwyaf sylweddol, er enghraifft y rhai heb iaith a lleferydd, fod cynnydd pendant mewn lefelau straen ymhlith y plant hyn. Dwi ddim yn siŵr a yw hyn o ganlyniad i'r cyfnod neu oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r adeilad rydym ynddo. Oherwydd mae'n rhaid i ni gadw at y swigod ac weithiau, nid yw'r plant yn gallu mynd allan i'r ardaloedd y maent yn gyfarwydd â bod ynddynt.  Mae llawer o gyfyngiadau yn gysylltiedig â hyn.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol F)

'Diffyg rhyngweithio cymdeithasol. Diffyg strwythur/trefn ddyddiol yn peri pryder a gorbryder i blant. Ychydig iawn neu ddim dysgu yn y cartref, sy'n golygu bod rhai plant yn colli tir o gymharu â'u cymheiriaid.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

'Gwnaethant weld eisiau eu ffrindiau a threfn bywyd yr ysgol. Plant agored i niwed yn treulio mwy o amser yn eu cartrefi, ond yr ysgol oedd eu man 'diogel'. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

**Unigedd cymdeithasol dysgwyr**

**7.12** Fel y dangosir yn rhai o'r vignettes uchod, ymddengys fod ynysu cymdeithasol wedi effeithio'n uniongyrchol ar les ac iechyd meddwl dysgwyr.

'Mae llawer o rieni/gofalwyr wedi dweud bod yr effaith ar hapusrwydd eu plant yn deillio o'u hanallu i fynd i'r ysgol a chyfarfod â'u ffrindiau a'u cymheiriaid.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

'Mae anallu i gymdeithasu â'u ffrindiau a'u cymheiriaid wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

**7.13** Er bod rhyngweithio cymdeithasol yn cael ei ystyried yn hanfodol i gefnogi dysgu dysgwyr, ymddengys fod ymgysylltu â'u cymheiriaid yn heriol i rai dysgwyr iau:


'Ond, ie, mae wedi bod yn llawer gwell iddynt allu gweld eu ffrindiau [ar-lein]. Serch hyn, mae'n rhwystredig na allant siarad â'u ffrindiau'n iawn. Maen nhw'n rhyngweithio ac maent i'w gweld yn mwynhau hynny. O ran yr un ifancaf - fe gymerodd gryn dipyn o amser iddi hi ymgysylltu mewn gwirionedd. Dwi'n meddwl ei bod yn eithaf anodd iddi hi, yn feddyliol. Dim ond chwech yw hi, felly mae'n anodd ymgysylltu ar-lein.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**7.14** Roedd pob tasg dysgwyr o bob ysgol wedi cyfeirio at ynysu cymdeithasol a bod oddi wrth eu ffrindiau.

'Neb i helpu gyda gwaith cartref. Braidd unrhyw adnoddau gartref i helpu. Teulu prysur, byw gartref ar fy mhen fy hunan gyda mam. Teimlo'n benysgafn. Methu â gwneud fy ngwaith am oriau. Rwy'n syllu ar y blodau drwy'r amser. Mae pobl yn gweld fy mod yn ei chael hi'n anodd a dydyn nhw ddim yn poeni. Siaradais i â rhywun ond mae hi'n cael help gan ei theulu, mae hi'n rhy brysur. Rwy'n teimlo'n drist iawn ac yn unig' (Tasg Dysgwyr, Dysgwr 2. Blwyddyn 5, Ysgol B)

**Ffigur 7.2: Delwedd o ymateb a ddarparwyd gan ddysgwr 2, blwyddyn 5, ysgol B[2].**

[2] Mae'r ddelwedd hon yn arteffact o'r broses ymchwil ac mae'n dod o ysgol cyfrwng Saesneg. Nid oes arteffact cyfatebol wedi'i gynhyrchu o ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn oherwydd natur y prosesau casglu data yn ystod cyfnod casglu data, a gafodd ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19.



cm,mm,l,ml and other things the reason because no one
is there to help me with my difficult home work and
I barley have any recources to help me. I had r
communication my family is busy and me and my
mum only live together and I always feel dizzy when
I am stuck on my work for hours and I always
stare at the flowers and it's not fair for some peop-
le to see me struggle and dosen't care and I
have no one to share with and the fifth time I strug-
ggle with. At least I could talk to someone but that
person can't explain but gets help from her family and
when I call that person is too busy. It felt like sad

….cm, mm, l, ml a phethau eraill. Y rheswm achos does neb yna i helpu fi gyda fy ngwaith cartref anodd a does gen i braidd dim adnoddau i helpu fi.  Doedd gen i ddim cyfathrebu mae fy nheulu yn brysur a dim ond mam a fi sydd yn byw gyda'n gilydd ac rydw i yn teimlo pendro bob tro rydw i yn sownd gyda fy ngwaith am oriau ac rydw i yn syllu ar y blodau a dydi hi ddim yn deg i rai pobl weld fi yn ei chael yn anodd a ddim yn poeni a does gen i neb i rannu efo a'r pumed tro i fi ei chael yn anodd. O'r ddiwedd gallwn siarad gyda rhywun ond roedd y person hwnnw yn methu esbonio, ond mae'n cael help gan ei theulu ac ….

**Materion a phryderon yn ymwneud â diogelu**

7.15 Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, ymddengys fod materion a phryderon yn ymwneud â diogelu wedi atal defnydd eang o wersi byw. Fodd bynnag, newidiodd hyn ar ôl mis Ionawr 2021, yn ystod yr ail gyfyngiadau symud, gyda'r data'n dangos bod mwy o wersi byw wedi cael eu cynnal.

**Profiadau cadarnhaol o ddysgu yn y gartref**

7.16 Roedd yn haws i rai dysgwyr ddysgu yn y cartref am fod llai o bethau i dynnu eu sylw a llai o straen.

> 'Roedd rhai canfyddiadau yn ymwneud â bechgyn blwyddyn wyth, naw a deg. Doed Covid-19 braidd wedi effeithio arnyn nhw, ac efallai wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl am nad oeddent dan bwysau yn meddwl am orfod mynd i'r ysgol bob dydd, a'r holl oblygiadau sydd i hyn fel arfer. Felly,

roedd y pethau hyn hefyd yn berthnasol i ni. Ond yn sicr, mewn sefyllfaoedd lle bu modd i deuluoedd gysylltu a chydweithredu â'u plant yn eu haddysg, teimlwn fod y sefyllfa hon wedi bod yn brofiad cadarnhaol. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

'Gwnes i fwynhau gwneud fy ngwaith ysgol gartref hefyd am fy mod yn teimlo y gallwn ganolbwyntio'n well ac roedd fy nheulu yno i'm helpu ac roedd yn dawel hefyd, felly gallwn ganolbwyntio ar fy ngwaith. (Tasg Dysgwr, Ysgol E)

Yn ystod y cyfyngiadau symud, roeddwn wedi hoffi gwneud y ffolder gwaith yn fy amser fy hun a gallwn gymryd fy amser i'w gwblhau. (Tasg Dysgwr, Ysgol E)

**7.17** Roedd rhai enghreifftiau lle roedd hyder dysgwyr wedi cynyddu wrth weithio gyda'u rhieni.

'Roedd hi'n amlwg yn teimlo pwysau yn yr ysgol. [anghlywadwy] wedi mynd, felly roedd rhai o'r pethau roedd yn eu hanfon ataf yn brydferth. Ac yna dechreuodd greu fideos ohoni hi ei hun yn gwneud y tasgau a byddai ei mam yn anfon y fideos ataf. Gwelais ochr arall iddi, dynes fach allblyg, fwy hyderus, a gwnaeth yr ochr hon ddatblygu yn ystod y cyfnod hwnnw o amser. ' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

**7.18** Pan oedd plant ag ADY yn gallu mynd i'r ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud heb fod y rhan fwyaf o'r plant eraill yno, gwelwyd bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar rai:

'I blant ADY, roedd cael bod yn eu swigen fach eu hunain yn llesol iawn iddynt, fel y gwyddoch. [O'r blaen] byddwn yn gwylio rhai o'm rhai i a bydden nhw'n cerdded o gwmpas ymyl yr iard ar eu pen eu hunain. Mae'n siŵr eu bod eisiau rhyngweithio, ond doedden nhw ddim yn gwybod sut i fynd ati. Ond nawr, dim ond ni sydd yma ac rydyn ni'n adnabod ein gilydd mor dda, maen nhw i gyd yn sgrechian ac yn rhedeg o gwmpas y tu allan weithiau, wrth eu bodd!' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

**7.19** Roedd rhai teuluoedd wedi elwa ar yr amser ychwanegol gyda'i gilydd a dysgu yn yr awyr agored.

'Roedd yn fuddiol i'r teulu cyfan dreulio amser gyda'i gilydd yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae rhieni fel arfer yn gweithio drwy gydol y flwyddyn. Mae'n dda i ni chwarae mwy o ran yn ei addysg drwy addysgu yn y cartref, er ei bod yn anodd ei annog i ganolbwyntio ar brydiau.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol F)

'Mae rhai o'r rhieni a'r bobl sy'n rhan o hyn wedi nodi rhai elfennau cadarnhaol. Soniwyd bod teuluoedd wedi meithrin cydberthnasau agosach. Mae gan lawer o rieni erbyn hyn ddealltwriaeth ddofn o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, a disgwyliadau academaidd. Mae hyn yn fwy perthnasol i'r dysgwyr ffurfiol a'r disgyblion mwy abl. Nid yw mor berthnasol i'r dysgwyr anffurfiol a lled-ffurfiol. Rwy'n credu mewn teuluoedd bod cydberthynas agos iawn wedi'i meithrin rhwng rhieni a'u plant. Neu bwy bynnag sydd gartref gyda nhw. Byddwn yn awgrymu bod llawer mwy, efallai tua 40% o deuluoedd, wedi gallu meddwl am ffyrdd mwy creadigol o fagu ac addysgu plant. Eu goruchwylio a gwneud mwy o weithgareddau yn yr ardd, gwneud pethau mwy creadigol yn y tŷ, cerddoriaeth weithiau, animeiddio weithiau, beth bynnag oedd ar gael. Mae'n golygu bod gennym gyfran o rieni nawr sy'n deall sut i gefnogi eu plant gartref yn well ac yn deall ystyr addysg. A gallant ddweud eu bod nhw wedi llwyddo i gefnogi eu plentyn am 9 mis.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol D)

'Mae wedi bod yn braf cael treulio amser gyda'n gilydd fel teulu. Mae'r plant hefyd wedi hoffi gweld eu ffrindiau a'u hathrawon yn y cyfarfodydd ar-lein.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

'Treulio amser fel teulu. Coginio gartref. Cerdded yn yr ardal leol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

'Treulio mwy o amser gyda'n gilydd fel teulu.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

'Mae'n gadarnhaol ein bod wedi treulio mwy o amser fel teulu ond gallai hyn beri straen oherwydd pryderon / pwysau’r cyfyngiadau symud.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

'Mwy o amser fel teulu... llai o bethau i dynnu sylw.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**7.20** Roedd canlyniadau cadarnhaol i rai teuluoedd, a oedd yn ystyried y cyfnod hwn yn gyfle i atgyfnerthu cydberthnasau teuluol ac a oedd yn gwerthfawrogi'r amser ar gyfer gweithgareddau hamdden.

> 'Roeddwn yn y sefyllfa ffodus iawn o fod gyda fy mab bob dydd ac felly roedd wedi cael budd cymorth 1:1, a oedd yn gymorth mawr i'w ddysgu o gymharu â bod mewn dosbarth ysgol mawr, sy'n cyflwyno llawer o heriau i athrawon ac i ddysgu'r myfyrwyr (e.e. sŵn, ymddygiad rhai dysgwyr yn tarfu, athrawon yn gorfod treulio mwy o amser gyda'r disgyblion sy'n cael anawsterau, cymaint o fyfyrwyr ei bod yn anodd i'r athro sylwi ar holl alluoedd a phersonoliaethau'r myfyrwyr na dod i'w hadnabod). Roeddem yn llwyddo i wneud cymaint o waith mewn bore gartref ag a fyddai'n cael ei wneud mewn diwrnod ysgol cyfan fel arfer. Gallen ni wedyn gael y prynhawn i ffwrdd i fwynhau ymarfer corff yn yr awyr agored, awyr iach a byd natur, a oedd yn wych i iechyd meddwl pawb.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

> 'Gwnaethant helpu ei gilydd fwy, cydweithio mwy a dod yn agosach fel brodyr. Roedd cyfle iddynt osod cyflymder eu gwaith yn unol â'u galluoedd gan wneud rhai tasgau yn gyflymach a rhai'n arafach nag a fyddai wedi cael ei ganiatáu yn y dosbarth. Os oedd ganddynt ormod o egni i eistedd a chanolbwyntio, gallent wneud rhywbeth corfforol, archwilio'r coetir lleol ac wedyn dychwelyd at y dasg.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

> 'Rhoddodd fwy o amser i ni ddysgu gwersi "bywyd" mwy ymarferol fel beicio a chlymu careiau.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

> 'Y nodweddion cadarnhaol oedd yr amser a dreuliodd fy mhlentyn â'i brawd bach a'r cyfle ychwanegol i ddysgu'n annibynnol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

> 'Roedd yn saib yr oedd ei angen yn fawr arnon ni fel teulu, mwy o amser gyda'n gilydd, dim rhuthro o gwmpas, eithaf hamddenol. Roedden ni wedi bod drwy flwyddyn anodd ers mis Ionawr! (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

**7.21** I'r gwrthwyneb, i blant a oedd wedi cael eu bwlio neu'n dioddef o bryder cymdeithasol, roedd hyn yn gyfle i ymgysylltu'n well â'u dysgu, heb y pwysau sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

> 'Ddim yn gorfod gweld y bwlis yn yr ysgol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

> Nid oedd fy mhlentyn am ymgysylltu o gwbl â'r tasgau a osodwyd am yr ychydig wythnosau cyntaf am ei fod yn cysylltu'r gwaith â'r bwlio roedd yn ei ddioddef yn yr ysgol. Aethom ati i weithio ar bethau eraill ac yn y pen draw, roedd yn teimlo'n ddigon cryf yn feddyliol i ymgysylltu â rhai o weithgareddau'r ysgol o bell. 'Ni chafodd unrhyw broblemau wrth wneud y gwaith, ar wahân i arafwch llwyfan j2e.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**7.22** Fel y dangoswyd yn gynharach, cafwyd effaith andwyol ar rai teuluoedd, gan roi pwysau ar gydberthnasau yn y teulu. Daeth ysgolion i wybod am amgylchiadau cartref eu dysgwyr a sut roedd hyn yn effeithio ar eu dysgwyr.

### Dysgu yn y cartref

**7.23** Roedd yn gyfle i rieni werthfawrogi o'r newydd yr hyn y mae addysgu yn ei olygu a'r hyn y mae ysgolion yn ei wneud i gefnogi dysgwyr. Dywedodd un rhiant na fyddai'n ystyried addysgu yn y cartref ar ôl ei brofiad yn ystod y cyfyngiadau symud.

**7.24** Roedd rhieni a oedd wedi ystyried y syniad o Addysgu yn y Cartref yn flaenorol, ond a gydnabu fanteision ehangach amgylchedd yr ysgol o ganlyniad i'r profiad hwn.

> 'Roedd yn brofiad braf, ond ar yr un pryd roedd yn peri straen. Roedden ni yn bersonol yn ystyried addysgu ein plant yn y cartref ond nawr rydyn ni wedi penderfynu'n bendant na fyddwn yn gwneud hynny am fod arnynt angen eu bywydau cymdeithasol a'u ffrindiau, ac mae'r pethau hynny mor bwysig iddyn nhw.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

> 'Dydw i ddim yn athro.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

### Crynodeb

**7.25** Nododd nifer o randdeiliaid bod y cymorth, y drefn, y cyfleoedd chwarae ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a'r arweinyddiaeth ddysgu a gynigiwyd gan ysgolion yn

bwysig wrth gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr. Fel y mae ein hymchwil wedi'i ddangos, rhaid nodi a gwerthfawrogi pwysigrwydd hanfodion o'r fath mwyfwy er mwyn sicrhau cynnydd a chyflawniadau effeithiol i ddysgwyr.

**7.26** Rhaid cofio faint o waith a wnaed gan ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr yn ystod y pandemig, a gyflwynodd her sylweddol i weithwyr proffesiynol a oedd eisoes yn brysur ac a ysgwyddodd faich cynyddol wrth symud yn gyflym i drefniadau dysgu o bell, a'r nifer o strategaethau a fabwysiadwyd i gynnig y ddarpariaeth honno.

**7.27** Maen bosibl yr ystyrir bod dealltwriaeth ysgolion ac aelodau unigol o staff o amgylchiadau cartref dysgwyr, a'u heffaith ar iechyd meddwl a lles, yn allweddol wrth gefnogi dysgu effeithiol. Felly, dylid ystyried pwysigrwydd gwybodaeth o'r fath yn gynyddol, ac fel mater o drefn, fel rhan o Addysg Gychwynnol i Athrawon.

**7.28** Yn galonogol, ymddengys fod rhieni wedi meithrin gwerthfawrogiad newydd/dyfnach o'r gwaith a wnaed gan athrawon a staff addysgu o ganlyniad i'w profiadau uniongyrchol o addysg cartref yn ystod y pandemig.

**7.29** Mabwysiadwyd nifer o strategaethau i ddiogelu iechyd meddwl a lles dysgwyr, yn ogystal â lles y rhieni a'r gwarcheidwaid hynny a oedd yn gynyddol gyfrifol am ddarparu addysg cartref. Cafodd y strategaethau hyn groeso cynnes ar y cyfan, ond nodwyd bod y ddarpariaeth yn ddiffygiol mewn rhai achosion. Yn benodol, nodwyd natur ymatebol y ddarpariaeth.

**7.30** Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn ffynnu o fewn grwpiau mawr. Mae amgylchedd yr ysgol yn heriol i rai plant ac mae'n bosibl y bydd amser i ffwrdd o'u cyfoedion wedi bod o fudd i rai dysgwyr, gyda'r cartref yn cynnig mwy o amser yng nghwmni'r teulu a llai o elfennau sy'n tynnu eu sylw.

# 8. Canfyddiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd

## Cyflwyniad

**8.1** Un o brif nodau'r astudiaeth hon oedd casglu data ar effeithiolrwydd y dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud amrywiol. Tra bod adrannau eraill o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaethau gwirioneddol yr ysgolion ac ymateb rhieni a disgyblion i hynny, roedd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r effaith uniongyrchol ar ddysgu plant a'u hymgysylltiad â dysgu a'u cynnydd yn hynny o beth. Nod yr adran hon yw crynhoi rhai o'r prif safbwyntiau a gododd yn ymatebion y cyfranogwyr. Caiff y rhain eu categoreiddio o dan yr is-themâu cyffredinol canlynol:

- Effaith ynysu ar ddysgu cymdeithasol
- Effaith ar ddysgwyr ag ieithoedd ychwanegol
- Amharodrwydd i ddychwelyd at ddysgu
- Annibyniaeth
- Cymhelliant
- Canolbwyntio
- Datblygu sgiliau
- Cyrhaeddiad
- Dysgu allgyrsiol

## Effaith ynysu ar ddysgu cymdeithasol

**8.2** Canlyniad anochel cau ysgolion yn ystod y pandemig oedd yr effaith ar ddysgu, ond tynnwyd sylw at werth rhyngweithio cymdeithasol ac effaith dysgu drwy gydweithredu cymdeithasol yn y data. Gwelwyd enghreifftiau o hyn ym mhob un o leoliadau daearyddol y cyfranogwyr ac ym mhob math o ysgol a phob grŵp oedran.

**8.3** Nodwyd y diffyg rhyngweithio cymdeithasol, ac effaith hynny ar ddysgu gan athrawon a rhieni, a nodwyd y gallai'r effaith fod yn fwy sylweddol ar blant iau y mae eu datblygiad cymdeithasol yn fwy dibynnol ar ryngweithio ag eraill.

> ‘Plant heb fod gyda neb arall yn ystod y cyfnod clo ac felly ei sgiliau cymdeithasol wedi cael effaith.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)

> ‘Na. Yn fy marn i, pan fydd plant yn mynd i'r ysgol ac yn gweld eu ffrindiau, mae eu gwybodaeth yn gwella. Mae'n effeithio mwy ar blant bach am fod

angen iddynt gael amser i chwarae gyda'u ffrindiau ac maent yn rhy ifanc i ddysgu ar-lein.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**8.4** Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i blant ifanc yn unig. Awgrymwyd yn gryf gan ddisgybl yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol uwchradd fod y rhyngweithio a'r cymorth a geir drwy weithio gyda chymheiriaid yn agwedd a gollwyd.

> 'Diffyg cymorth gan gymheiriaid, teimlo ar fy mhen fy hun yn fy ngwaith.' (Disgybl Blwyddyn 13, Tasg Dysgwr, Ysgol J)

**8.5** Cydnabuwyd yn gyffredinol fod cymorth gan rieni, lle y'i darparwyd, yn helpu i wneud iawn am yr ymyrraeth i ddysgu cymdeithasol, sef rhywbeth yr oedd llawer o rieni o'r farn ei fod yn rhan hanfodol o ddysgu, ond roedd hyn yn gyfyngedig ei natur.

> 'Pwyntiau cadarnhaol - roedd fy merch yn cael anawsterau gyda mathemateg, felly bu modd i ni ganolbwyntio ar y maes hwnnw yn benodol ac mae hi wedi gwneud cynnydd gwirioneddol. Rwy'n credu iddi gael budd mawr hefyd o gymorth un i un. Oherwydd y cynnydd y mae wedi'i wneud, mae hi'n fwy hyderus yn ei galluoedd 'nôl yn yr ystafell ddosbarth. Pwyntiau negyddol - mae hi'n unig blentyn ac roedd hi'n gweld eisiau cwmni plant eraill yn fawr.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**8.6** Nodwyd yr un effaith yn y cyd-destun ysgolion arbennig oherwydd y diffyg dysgu cymdeithasol a thynnwyd sylw at bwysigrwydd trefn ddyddiol ym mywyd bob dydd yr ysgol, a bod hyn wedi creu anawsterau ac anesmwythyd sylweddol i ddisgyblion. Mae'r vignette canlynol yn cofnodi rhai o'r prif effeithiau negyddol a chadarnhaol.

**Ffigur 8.1: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd.**

> 'Mae'r prif effeithiau yn gysylltiedig â tharfu ar drefn ddyddiol y plant. Mae llawer o'r rhieni o'r farn bod y drefn sefydledig rydym yn eu cynnig i'r plant, o'r funud y byddant yn dod i'r ysgol tan iddynt ein gadael, yn rhan hollbwysig o'r hyn rydym yn ei ddarparu a'r cymorth gyda'r dysgu. Mae ochr gymdeithasol eu datblygiad yn hanfodol bwysig, sy'n rhywbeth nad ydych yn ei weld nac yn sylwi arno mewn ysgolion prif ffrwd. Dyma'r newid mwyaf y bu'n rhaid i ni ymdopi ag ef, a bu'n rhaid i ni gynllunio'n ofalus i liniaru effeithiau tarfu ar arferion a allai gael effaith ar y plant, ac mae'r newid hwn wedi'i deimlo ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Nawr, rydym yn ystyried yr effeithiau ar y plant ifanc sy'n dod i'r ysgol pan fyddan nhw'n dysgu am gymdeithasu, mynd i'r toiled, gofalu am eu hunain wrth iddynt dyfu'n hŷn. A

hefyd gyda rhai o'r disgyblion hŷn, sydd wedi magu hyder yn yr amgylchedd rydyn ni'n ei ddarparu. Rhai o'r effeithiau ar y disgyblion hyn. Maen nhw'n gweld straeon yn y newyddion am effeithiau ar les ac iechyd meddwl ac mae rhai yn ei chael hi'n anodd deall hyn ac ymateb iddo. Mae'n anoddach rhagweld canlyniadau a sut y gall ac y bydd pob plentyn unigol yn ymateb i'r ffaith yr amharwyd ar ei arferion. Amharu ar ei drefn ddyddiol arferol. Mae i'w weld yn y ffordd y caniatawyd i rai ohonynt ollwng gafael ar y gwaith. Treulio llawer o amser yn gwneud pethau eraill. Chwarae gemau cyfrifiadurol ac ati. Mae gennych chi hefyd y rhai y mae eu hanghenion mor ddwys eu bod yn dod i ddibynnu ar drefn ddyddiol neu ar dechnoleg. Sut y mae hyn wedi helpu i ddatblygu eu llais. Ac yna, torrwyd ar hyn. Nid yw'r mathau hyn o beth yn rhad ac ni allant gael eu darparu yn y cartref. Felly, mae'r effaith yn ddeublyg. Rydym wedi ceisio darparu rhai o'r adnoddau a'r dechnoleg, ond ni allwn ddarparu popeth, am resymau ymarferol yn fwy na dim.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol E)

**8.7** Yn ogystal, nid oedd dychwelyd i amgylchedd yn yr ysgol yn ateb syml i'r agwedd ar ddysgu cymdeithasol, a bu'n anodd i rai dychwelyd i'r drefn ddyddiol ac i gyd-destun gwahanol o ran rhyngweithio cymdeithasol, a deall a rheoli hyn.

> 'Rwy'n addysgu rhai o'r disgyblion iau a bu'n anodd iawn iddynt, er nad ydynt mor ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac nad yw'n effeithio arnynt yn y ffordd honno gymaint â'r dysgwyr hŷn. […] Mae fy rhai i ychydig yn iau, ond mae'n anodd gyda materion eraill, fel peidio â gallu cael cysylltiad mor agos â'i gilydd neu bobl eraill yn yr ysgol. Mae addysgu mewn ysgol o'r math hwn yn wahanol iawn. Mae cymaint yn dibynnu ar ddatblygu cymdeithasol, ond hefyd, maent yn agos iawn i'r cynorthwywyr dosbarth. Sut mae esbonio i'r rhai bach nad ydynt i fod i fynd yn rhy agos i'w gilydd nac i'w hathro neu gynorthwyydd dosbarth? Mae gen i ferch fach â nam ar ei chlyw hefyd. Mae'r masgiau'n gwneud popeth yn anodd iddi, a hwn yw'r cyfnod y gall wneud camau breision o ran meithrin y sgiliau hyn yn gynnar iawn. Ond mae'n anoddach iddi nawr. Mae hynny'n berthnasol gartref a hyd yn oed yma yn yr ysgol, ac yn effaith wahanol y byddai'n rhaid i athrawon eraill ei hystyried hefyd.' (Grŵp Ffocws Athrawon, Ysgol G)

**8.8** Roedd hyn yr un mor wir i blant mewn addysg brif ffrwd, fel y nodwydd gan riant:

> 'Mae trefn a chysondeb yn bwysig iawn i'm plentyn er mwyn datblygu mwy o sgiliau bywyd. Mae amharu ar hyn yn cael effaith negyddol ar ei ddysgu a'i ymddygiad.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol F)

**Effaith ar ddysgwyr ag ieithoedd ychwanegol**

**8.9** Ystyriwyd yn gyffredinol fod cau ysgolion wedi rhoi pob disgybl dan anfantais, ond roedd staff a rhieni o'r farn bod hyn yn arbennig o wir am y rhai a oedd yn dysgu drwy gyfrwng eu hail iaith. Nodwyd bod hyn yn wir i'r ddau grŵp o blant a oedd â'r Gymraeg a'r Saesneg yn iaith ychwanegol, yn enwedig pan oedd gallu cyfyngedig i gynnig cymorth yn y cartref.

**Ffigur 8.2: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd.**

Roedd uwch-arweinwyr ac athrawon o'r farn bod cau ysgolion wedi effeithio'n anghymesur ar y disgyblion hynny a oedd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn enwedig am na fyddent yn clywed yr iaith darged yn cael ei siarad yn rheolaidd ac na fyddent yn cael llawer o gyfle i'w defnyddio nac ymarfer yr iaith.

> 'Yn fy marn i, y grwpiau o ddysgwyr y mae effeithiau Covid-19 wedi cael yr effaith fwyaf arnynt yw myfyrwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol, yn y lle cyntaf. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r grŵp hwn o ddisgyblion yn clywed Saesneg/Cymraeg yn rheolaidd. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol B)

> 'Nid yw'r plant hyn wedi cael budd o'r broses gyson o atgyfnerthu sgiliau sy'n eu helpu i gofio a gwneud cynnydd. Mae disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol wedi clywed a defnyddio llai o Saesneg. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol B)

> 'Anfantais a achoswyd gan ddefnyddio Saesneg/Cymraeg fel iaith ychwanegol.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

Cyfeiriwyd mewn un achos ar ddiffyg hyder y rhiant i ddarparu cymorth yn yr iaith honno yn gywir.

> ‘Nid Saesneg yw fy mamiaith ac mae fy acen yn wahanol.’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)

Mae'n bosibl bod lleoliad a natur ardaloedd daearyddol ysgolion y cyfranogwyr yn ffactor sy'n cyfrannu at y nifer cyfyngedig o gyfraniadau sy'n ymwneud â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, ond caiff ei awgrymu yng nghyd-destun y cyfraniadau canlynol, y byddai hyn wedi cael effaith sylweddol ledled Cymru.

**8.10** Nodwyd mai un o'r prif anawsterau a achoswyd gan gau ysgolion oedd diffyg cysylltiad â'r iaith darged. Mynegwyd hyn yn glir yng nghyd-destun dysgu Cymraeg, ond awgrymir bod yr egwyddorion yn berthnasol hefyd i gyd-destun Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

‘Colli eu Cymraeg’; ‘Dysgwyr heb ffynhonnell siarad Cymraeg adref’. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

'Nifer helaeth o ddisgyblion yn dod o deuluoedd di-Gymraeg nid oeddent yn clywed yr iaith yn ddyddiol.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

'Roedd plant o deuluoedd Cymraeg o fantais gan ei bont yn medru sgwrsio i'r plant y Gymraeg.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L

**8.11** Yn gysylltiedig â hyn, roedd yr ynysu'n golygu eu bod yn colli'r cyfleoedd arferol i ddod i gysylltiad â'r iaith a'i hymarfer yn yr ysgol.

'Anfantais' enfawr o ran Cymraeg ydy nad ydy dysgwyr wedi cael cyfle i siarad Cymraeg o gwbl mewn rhai sefyllfaoedd pan nad ydynt yn yr ysgol - yr ysgol ydy'r unig le maen nhw'n clywed y Gymraeg yn cael ei siarad. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

**8.12** Roedd lefel y cymorth yn y cartref yn ffactor hanfodol yng nghyflawniad dysgwyr yn eu hiaith darged, ac roedd rhai safbwyntiau cymysg o ran yr awydd i roi cymorth a lefel y cymorth a gynigiwyd. Dywedodd un athro fod diffyg cymorth yn y cartref yn y cyd-destun hwn - ‘diffyg cefnogaeth y Gymraeg adref.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol J) tra bod cyfraniadau gan rieni yn awgrymu bod awydd i gefnogi, ond nad oedd gallu i wneud hynny'n effeithiol.

‘Roedd fy merch ar yr ochr Gymraeg felly roedd yn anodd imi ei helpu i wneud ei gwaith gan nad wyf yn siarad Cymraeg (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

'Gallwn ddeall rhywfaint ond nid y cyfan [oherwydd y Gymraeg].' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

‘Roedd 75 y cant yn iawn ond wrth i bethau fynd yn fanylach, nid oedd fy Nghymraeg yn ddigon da i helpu fy meibion.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)

‘Dim ond yn Gymraeg y cafodd y cyfarwyddiadau ar gyfer rhai tasgau eu darparu, a oedd yn anodd i rieni Saesneg eu hiaith!’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol L)

'Mae rhai gofalwyr maeth yn ei chael hi'n anodd cefnogi'r dysgu yn Gymraeg gan nad ydynt yn siarad yr iaith.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol J)

**8.13** Ceisiodd yr ysgolion roi arweiniad a chymorth i ddisgyblion mewn amrywiaeth o ffyrdd i'w galluogi i barhau i wneud cynnydd â'u sgiliau iaith a chafwyd ymateb cymysg i hyn.

‘Ceisio rhoi gwaith lle roedden nhw'n gallu gwylio neu wrando ar y Gymraeg yn cael ei defnyddio e.e. ateb cwestiynau wrth wylio rhaglen Iaith ar Daith.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

**Ffigur 8.3: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd.**

Roedd rhieni yn wynebu anawsterau ar sawl lefel:

'Mae gennym rwystr o ran y Gymraeg hefyd. Felly, mae'n mynychu ysgol Gymraeg ac mae'n gymharol rugl yn y Gymraeg, ac maent bob amser wedi dysgu drwy gyfrwng yr iaith.  Ond nid ydym yn siarad Cymraeg gartref. Felly, yn amlwg, maent yn cael rhywfaint o waith yn Gymraeg, ac mae'n anodd i mi helpu'r un hynaf sy'n ddyslecsig, gan nad yw'n gallu ei ddarllen – gan ei fod yn ddyslecsig – ac nid wyf i'n gallu ei ddarllen gan ei fod yn Gymraeg. Byddant yn anfon darn cyfan o bapur A4 o waith darllen Cymraeg iddo ei wneud, ac nid yw'n gallu ei wneud, ac nid wyf i'n gallu ei wneud ychwaith. Does dim pwynt ei anfon atom! Anfonwch rywbeth atom y gall ei wneud! Mae'n dweud na ddylech ddefnyddio Google Translate. Wel, os yw e'n ddyslecsig a finnau'n methu siarad yr iaith, yna dyw'r gwaith ddim yn mynd i gael ei wneud heb ddefnyddio Google Translate. Roedd yn rhaid iddo ddarllen hysbyseb yn Saesneg, ac wedyn roedd y cwestiynau yn cael eu gofyn yn Gymraeg. Felly, doeddwn i ddim yn siŵr a ddylem fod yn ateb yn Gymraeg neu'n Saesneg. Pethau fel beth yw enw'r ysgol yrru. A'r enw oedd Casey's Cars…. Felly, dyna chi, dyna enw'r ysgol, felly dwi ddim yn mynd i'w ysgrifennu yn Gymraeg gan mai Casey's Cars yw'r enw. Beth bynnag, cafodd y gwaith a gwblhaodd ei ddychwelyd gan yr athro, gan ddweud wrtho fod angen iddo ail-wneud y gwaith i gyd a'i wneud yn Gymraeg. Felly, yn amlwg, gwrthodais wneud hynny, a dywedais, mae gennym ddigon o waith i'w wneud, mae wedi gwneud y gwaith, ac efallai nad oedd hynny yn Gymraeg ond y tro nesaf fe wnawn ni'n siŵr ar bob cyfrif ein bod yn ei wneud yn Gymraeg.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

**8.14** Rhannodd rhieni sut y gwnaethant gymryd camau penodol i geisio helpu eu plant wrth iddynt barhau i ddysgu Cymraeg ond nid oeddent bob amser o'r farn bod yr ysgolion wedi llwyddo i wneud digon i'w helpu.

'Roedd yn fwy anodd oherwydd y ffrwd Gymraeg. Roeddent yn dweud drwy'r amser, dyna chi, cadwch ati i siarad Cymraeg. Ceisiwch wylio S4C fel eu bod yn cael clywed Cymraeg. Bu'n rhaid i mi gysylltu â rhieni Cymraeg a gofyn beth oedden nhw'n ei wneud. Mae ffrind i mi yn Gymraes, ac roeddwn i'n anfon y llyfrau Cymraeg sydd gennyf ati, drwy anfon lluniau o'r llyfr, a byddai hi'n ei gyfieithu ar ffurf sain. Roedd rhywbeth ar Facebook ac ar sianel YouTube roedd menyw yn ei wneud â llyfrau sain. Felly, llwyddais i ddod o hyd i hynny. Ond ie, doedd yr ysgol ddim yn flaengar iawn. Mae wedi bod yn anodd, yn anodd iawn.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

'Fel aelwyd nad yw'n siarad Cymraeg, yn ddelfrydol, byddem wedi hoffi cyfleoedd i'n mab barhau â'i Gymraeg er mwyn osgoi syrthio ar ei hôl hi yn y maes, gan nad oedd modd i ni ei helpu mewn gwirionedd. Felly, bu'n rhaid i mi wneud llawer o'r gwaith ar fy mhen fy hun, mewn gwirionedd, drwy brynu llyfrau a cheisio ei annog i'w darllen. Daeth â chwpwl o lyfrau adref o'r ysgol, cwpwl o lyfrau darllen, ond, yn fuan iawn, roedd wedi eu darllen ac roedd angen rhywbeth arall arno. Felly, bu'n rhaid i mi brynu llyfrau, a threuliais gryn dipyn o amser yn ei annog i ddefnyddio BBC iPlayer ag S4C i wylio cartwnau, ac yn gofyn iddo dreulio hanner awr y dydd yn gwylio cartwnau yn Gymraeg er mwyn iddo allu clywed yr iaith bob dydd. Ond ni chawsom unrhyw gymorth ymarferol gan yr ysgol yn hynny o beth, dim o gwbl. Bu'n rhaid i mi ddangos blaengaredd er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

'Ar ôl yr ychydig wersi cyntaf, gwnaeth [rhieni] lawr y ffordd dynnu eu plant o'r gwersi gan eu bod o'r farn nad oeddent yn werth dim. Ac mae'n nhw'n deulu di-Gymraeg. Dwi'n credu mai eu prif gŵyn oedd nad oeddent yn cael unrhyw gymorth gan yr ysgol i'w helpu â'r Gymraeg. Ac felly mae hynny'n gŵyn dwi wedi'i chlywed gan bobl eraill, sy'n dweud, yn gyffredinol, edrychwch, os na allwch chi roi mwy o gymorth i ni a helpu ein plant i ddysgu Cymraeg gartref, wel, nid ydym yn mynd i gymryd rhan yn y wers. Roedd y wers gyfan weithiau'n Gymraeg i gyd, ond ar y cyfan, roedd yn iawn.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

**8.15** Roedd rhieni'n teimlo, wrth i amser fynd heibio, ac wrth i'r ddarpariaeth gan yr ysgolion addasu'n well i'w darpariaeth ar-lein, bod y cymorth ar gyfer yr agwedd hon hefyd wedi datblygu.

> 'Gallen nhw fod wedi gwneud yn well. Gwnaethon nhw'n dda yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud i raddau helaeth, ond gallen nhw fod wedi gwneud yn well wrth gefnogi teuluoedd di-Gymraeg.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

> 'Yn ystod yr ail gyfnod o gyfyngiadau symud, roedd pethau'n llawer gwell gan eu bod yn dysgu ar-lein.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

> 'Roedd yn cael clywed Cymraeg bob dydd yn ei wersi ar-lein, a oedd am hanner awr yn y bore, a 15 munud yn y prynhawn, bum diwrnod yr wythnos. Felly roedd yn beth da iddo glywed y Gymraeg a chael cyfle i'w siarad. Byddent yn eu gosod ar wefan HWB am yr wythnos gyfan ar fore dydd Llun, ac yn rhoi disgrifiad o bob un yn Gymraeg ac yn Saesneg... dim ond darllen yr atodiad oedd angen i ni ei wneud.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

**8.16** Fodd bynnag, codwyd pryderon am effaith tymor hwy cau ysgolion ar alluoedd disgyblion i barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

> 'Fy mhrif bryder oedd y byddent yn colli eu Cymraeg. Ymddengys ei bod wedi dychwelyd. Ond mae wedi codi amheuon o ran i ba raddau y dylent barhau yn y ffrwd Gymraeg drwy gydol eu haddysg.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

> 'Rwy'n pryderu na fydd fy mhlant yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig nac yn ail-addasu i amgylchedd Cymraeg.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol L)

**Amharodrwydd i ddychwelyd at ddysgu**

**8.17** Mae'n werth nodi bod rhai cyfranogwyr wedi rhannu sut yr effeithiodd y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau ar ddysgwyr penodol o ran eu parodrwydd i ail-ymgysylltu â'u haddysg am amrywiaeth o resymau. Roedd rhai am resymau strategol, ac roedd eraill yn seiliedig ar orbryder y disgybl neu'r rhiant ynghylch iechyd a diogelwch dychwelyd.

> ‘Yn enwedig rhai o’r ffermwyr sy gyda ni o gwmpas yma. Achos bo nhw di bod adre, a pan mae nhw adre ma’ nhw’n gweithio allan ar y fferm o 5yb tan 8yh. A ma cael nhw nol mewn i weithio yn anodd. Roedden nhw’n dweud – ‘Dwi ddim yn gweld pwynt gwneud hyn nawr. Rwy'n gwybod beth fydda i'n ei wneud y flwyddyn nesa, am fy mod i wedi bod yn ei wneud ers chwe mis erbyn hyn, a nawr rydych chi'n ceisio fy nghael i i wneud hyn.' So, ma hynna di bod yn tough gyda’r grŵp yna. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol H)

> ‘Ni di cael rhai sydd heb ddod mewn o gwbwl oherwydd bod nhw’n anxious, a/neu le mae’r rhieni’n anxious hefyd. Ma rhai wedyn sydd yn dod mewn, ond yn strugglo pryd ma nhw mewn, a ni’n disgwyl gweld lot mwy o hynna.’ (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol H)

**8.18** Ni wnaeth eraill, er eu bod wedi dychwelyd i'r ysgol, fwynhau'r profiad a byddai hyn wedi cael effaith ar allu disgybl i ddysgu'n effeithiol.

> 'Er bod yr ysgol yn hanfodol o ran dysgu a chymdeithasu, nid yw'r flwyddyn hon wedi bod yn ddelfrydol o bell ffordd i lawer. Ond i mi, cadw fy mab gartref a'i warchod rhag llwythi o newidiadau ac yn wir, rhag y feirws ei hun, oedd y peth iawn i'w wneud. Fodd bynnag, ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, mae'n dweud bob dydd 'dim ysgol heddiw'. Nid yw wedi mwynhau dychwelyd. Nid yw'r ysgol fel ag yr oedd.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol D)

**Annibyniaeth**

**8.19** Roedd tystiolaeth i awgrymu bod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddisgyblion penodol, a chofnodwyd hyn gan bob math o gyfranogwr. Roedd anallu rhai plant i fynychu'r ysgol yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu gwaith yn fwy annibynnol gan ddangos fwy o ymreolaeth ac ystyriwyd bod hynny'n ganlyniad cadarnhaol i'r disgyblion hynny.

> 'Mae'r plant y nodwyd bod ganddynt allu uwch wedi parhau i ddysgu'n annibynnol, a chredaf fod eu rhieni wedi eu gwthio i ymchwilio i hyn a'r llall [...] mae dangos mwy o flaengaredd wrth ddod o hyd i'r atebion eu hunain, yn

hytrach na chael athro wrth law, yn rhywbeth sydd yn bendant, yn fy marn i, wedi gwella' (Cyfweliad ag Aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol I)

‘Mae'n fwy hyderus ac yn gweithio'n dda gan ddefnyddio blaengaredd yn hytrach na dibynnu ar eraill i'w helpu neu ei dywys.’ (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol I)

‘Y rhai sy'n hoff o weithio'n annibynnol, yn hapus i balu ymlaen gyda'i gwaith a dilyn y cyfarwyddiadau'n rhwydd.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)

‘Gwnaeth myfyrwyr â lefelau uchel o hunangymhelliant fwynhau'r cyfle i reoli eu dysgu eu hunain gartref gan nodi eu bod wedi gwneud mwy nag arfer yn ystod un wers mewn rhai achosion.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

‘Daeth dysgu'n annibynnol yn fwy naturiol.’ (Tasg Dysgwr, Blwyddyn 11, Ysgol K)

‘Gallwch weithio'n fwy annibynnol ac ar eich cyflymder eich hun.’ (Tasg Dysgwr, Ysgol K)

**8.20** Nid y rheini y cydnabuwyd eu bod yn fwy deallus ac yn uwch eu cymhelliant oedd bob amser yn elwa ar fwy o annibyniaeth. Cafwyd awgrymiadau bod dysgwyr eraill, yn fwy annisgwyl, wedi ffynnu o gael mwy o ryddid.

‘Gwnaeth plant y byddech o bosibl weithiau wedi eu hystyried yn "blant llwyd" h.y. myfyrwyr canol y dosbarth yn dda iawn. Cysylltais â nifer o rieni i'w hysbysu bod eu plentyn yn gwneud yn dda iawn wir. Efallai mai diffyg ymyriadau neu'r ffaith eu bod yn gorfod bod yn fwy annibynnol neu gymorth rhieni oedd yn gyfrifol, ond gwnaeth rhai plant ffynnu'n sylweddol o dan yr amodau gweithio newydd.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

**8.21** Fodd bynnag, nid ystyriwyd bod y rhyddid newydd hwn o fudd i bawb. Mae'n bosibl na wnaeth y rheini a oedd yn teimlo bod angen mwy o arweiniad a chymorth arnynt addasu cystal i natur fwy annibynnol y dysgu a gallai hyn fod wedi effeithio'n benodol ar blant ifancach.

> ‘Mae [ganddo] ddiffyg hyder ac mae angen iddo gael sicrwydd gan yr athro. Roedd ganddo ddiffyg hyder ac nid oedd yn meddwl y gallai lwyddo i gwblhau ei dasgau. Ond, roeddwn o'r farn mai'r ffaith bod y plentyn yn dibynnu gormod ar ei athrawon am gymorth oedd yn gyfrifol am hynny'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

> ‘Na. Mae cael ei hynysu oddi wrth blant eraill, diffyg strwythur, amynedd a dealltwriaeth wedi bod yn anodd iddi. Fel rhiant, mae terfynau o ran yr hyn y gallwn ei wneud a'i ddarparu. Mae gan yr athrawon well gwybodaeth am yr hyn y mae angen iddynt ganolbwyntio arno a sut i'w hannog i wneud hynny. Mae bod gartref yn anodd gan fod pethau'n tynnu sylw a'r ffaith bod y cartref yn fan diogel iddynt, ond hefyd yn fan lle y gallant weindio lawr ac ymlacio. Mae ceisio ei wneud yn fan dysgu yn ddryslyd ac yn achosi gofid i blentyn 4 oed'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**Cymhelliant**

**8.22** Nododd nifer o gyfranogwyr sut roedd cau ysgolion wedi effeithio ar gymhelliant myfyrwyr a hynny'n aml mewn ffordd negyddol. Rhaid nodi mai canfyddiadau staff ysgolion a rhieni oedd hyn yn gyffredinol, yn hytrach na sylwadau'r disgyblion eu hunain. Roedd rhai o'r sylwadau yn sôn am yr anawsterau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chynnal cymhelliant wrth weithio o gartref, a nododd un rhiant (Arolwg Rhieni, Ysgol I) yr anawsterau cyffredinol o ran cymhelliant a chanolbwyntio gan fynegi euogrwydd am fethu â chwblhau'r gwaith. Nododd staff ysgolion hefyd eu canfyddiadau o'r anawsterau.

> ‘Colli awydd.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

**8.23** Nododd uwch-arweinydd yr effaith ar grŵp penodol o ddysgwyr.

> ‘Mae'n bosibl bod [y rheini] a nodwyd fel cyflawnwyr isel... wedi ymddieithrio ychydig. Ac rydym yn darganfod bylchau yn eu gwybodaeth.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol)

**8.24** Roedd staff ysgolion yn dueddol o gyfleu eu safbwyntiau o ran diffyg ymdrech ar ran y disgyblion.

‘Nifer o ddysgwyr heb ymdrechu i ddysgu o adref felly wedi rhoi eu hunain dan anfantais fel yma.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

‘Diffyg ymroddiad ac ymdrech tuag at waith; Disgyblaeth.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

‘Disgyblion yn Llai Parod i ymateb ag ymroi i gweithgareddau amrywiol.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)

**8.25** Gwelodd eraill fod ffactorau allanol ac ychwanegol o bosibl yn cyfrannu at y gostyngiad o ran lefelau cymhelliant.

‘Colli diddordeb yn y pwnc, dysgwyr yn gweld llai o ddiben yn y pwnc, anodd ennyn brwdfrydedd dysgwyr at y gwaith.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

‘Nid ydynt wedi gwneud unrhyw fath o waith ysgol ers cyn y cyfnod clo ac oherwydd hyn y maent wedi gweld gwaith yn y dosbarth yn anoddach.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)


**8.26** Ymhlith rhai o'r ffactorau mwy penodol a nodwyd a effeithiodd ar gymhelliant plant, roedd natur y technolegau a ddefnyddiwyd a'r rhyngweithio â rhieni. Ymdrinnir yn fanylach â'r ffactorau hyn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

‘Efallai na fydd gan rai plant y dechnoleg a fyddai'n caniatáu iddynt ddysgu gartref. Mae rhai plant yn gweithio'n well yn ymarferol ac nid ydynt yn gallu prosesu'r dysgu mewn ffordd fwy ffurfiol.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol A)

‘Mae fy mhlentyn wedi wir laru ar eistedd ar ben ei hun yn syllu ar gyfrifiadur yn trio cadw ei brwdfrydedd a'i hegni'n mynd tuag at ddysgu. Dwi'n meddwl fod y sefyllfa'n galed iawn arni hi a bobl ifanc eraill, a'r pwysau yn drwm arnyn nhw.’ (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

'Nid oedd yn anodd iddi fel y cyfryw ond nid yw mor frwdfrydig yn gwneud y gweithgareddau gartref i'w rhieni ag y byddai yn yr ysgol gyda'i chyfoedion.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**Ffigur 8.4: Llun gan Ddysgwr 3, blwyddyn 3, Ysgol B: ‘Y pethau gorau a'r pethau gwaethaf am y cyfyngiadau symud (1): lluniau o chwarae (gorau) y tu mewn a'r tu allan // gweithio (gwaethaf) 'gorfod gwneud llawer o waith', 'mwy o waith' - llun o blentyn â'i riant wrth liniadur, y plentyn â phen / papur.’[3]**




| | |
|---|---|
| *Gwaethaf*<br><br>*Gorfod gwneud llwythi o waith* | *Gorau*<br><br>*Chwarae cuddio o dan fy mlanced*<br><br>*Gwely uchaf*<br><br>*Gwely isaf* |
| *Mwy o waith*<br><br><br>*Fi, beiro, llyfr cyfrifiadur, Mam* | *Chwarae ar y trampolin* |

**8.27** Roedd yn galonogol clywed bod rhai gweithgareddau penodol wedi cymell ac wedi annog dysgwyr i ymgysylltu â'u gwaith, gan esgor ar ganlyniadau cyffrous.

[3] Mae'r ddelwedd hon yn arteffact o'r broses ymchwil ac mae'n dod o ysgol cyfrwng Saesneg. Nid oes arteffact cyfatebol wedi'i gynhyrchu o ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn oherwydd natur y prosesau casglu data yn ystod cyfnod casglu data, a gafodd ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19.

'Yn ystod y cyfyngiadau symud, ces i fy newis i fod yn rhan o brosiect gyda disgyblion anghenion arbennig fel fi. Ysgrifennais gân a gafodd ei chwarae ar y radio.' (Tasg Dysgwr, Ysgol D)

**Canolbwyntio**

**8.28** Pan ofynnwyd iddynt am y ddau beth gwaethaf am ddysgu gartref gan fod yr ysgolion ar gau, soniodd disgyblion am yr anawsterau wrth ganolbwyntio ar y gwaith gartref. Roeddent fel petaent yn teimlo bod mwy o bethau yn tynnu eu sylw gartref nag yn yr ysgol. Dywedodd un disgybl cynradd o Ysgol I 'Dwi ddim yn gallu canolbwyntio cystal gartref' er ei fod yn hoffi bod gartref ac yn mwynhau'r ffaith bod ganddo fwy o ryddid yno.

'Roedd yn anodd canolbwyntio a chadw ffocws'. (Tasg Dysgwr, Blwyddyn 11, Ysgol J)

'Weithiau'r gallu i ganolbwyntio, oherwydd anifeiliaid anwes, teulu ac ati'. (Tasg Dysgwr, Ysgol K)

'Yn anodd rhoi sylw i'r gwersi ac ymgysylltu â nhw'. (Tasg Dysgwr, Ysgol K)

**8.29** Nododd rhai athrawon effaith hyn ar ddychwelyd i'r ysgol ac i ddysgu ar-lein a'r gallu i ganolbwyntio ac ymgysylltu mewn gwersi mwy strwythuredig.

‘[colli] gallu i ganolbwyntio am gyfnodau hir.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

‘Ar y dechrau roedd diffyg canolbwyntio yn broblem gyda y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fy nosbarth.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)

**8.30** Ond roedd rhai rhieni o'r farn o bosibl bod y gallu i ganolbwyntio yn well yn y cartref neu fod mwy o hyblygrwydd er mwyn addasu a bwrw ati i ddysgu mewn ffordd wahanol.

'Llai o bethau yn tynnu sylw nag yn yr ysgol gan nad oes unrhyw blant aflonyddgar yn achosi helynt ac yn atal gweddill y dysgwyr sydd am ddysgu yn hytrach na chwarae'n wirion'. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

‘Mae rhai diwrnodau yn fwy cadarnhaol nag eraill. Os byddaf yn gweld nad yw pethau'n mynd yn dda, cawn sgwrs, cymryd egwyl, mynd am dro neu chwarae gêm efallai ac wedyn dychwelyd ati.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**Ffigur 8.5: Vignette yn cynnig cipolwg ar brofiadau yn ymwneud â dysgu a chynnydd academaidd.**

Mae'r amrywiaeth yn yr ymateb rhwng brodyr a chwiorydd yn dangos rhai o'r anawsterau a wynebwyd gan rieni wrth geisio sicrhau bod eu plant yn ymgysylltu ac yn canolbwyntio ar y gwaith ysgol.

> 'Cafodd ein plentyn ifancaf drafferth â'r holl waith a osodwyd gan yr ysgol, fwy neu lai. Nid am ei fod yn rhy anodd, ond credaf, yn enwedig ar y dechrau, ei bod yn pryderu nad oedd yn yr ysgol/bod pethau'n wahanol i'r arfer ac nad oedd yn hoffi cymysgu'r ffin rhwng yr ysgol a bywyd gartref. Roedd yn rhy ifanc i fod wedi cael gwaith cartref o'r blaen, felly roedd gwneud gwaith gartref yn teimlo'n rhyfedd iddi. Gwrthododd ymgysylltu ag unrhyw weithgaredd a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol am y rhan fwyaf o'r cyfnod clo. Mae ein mab yn hŷn ac ymdopodd yn llawer gwell. Ar y cyfan, gwnaeth fwynhau gwneud gwaith ysgol. Gwnaethom sylweddoli hefyd mai dim ond am gyfnodau byr iawn yr oedd y ddau ohonynt yn gallu canolbwyntio, efallai am nad oeddent yn yr ysgol/bod gormod o bethau yn tynnu eu sylw gartref – felly y gweithgareddau byrraf oedd orau.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**Datblygu sgiliau**

**8.31** Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau am effaith COVID-19 ar ddatblygu sgiliau ymhlith plant. Nododd rhai fod cau ysgolion wedi cael effaith andwyol yn hyn o beth, ond roedd eraill o'r farn bod y cyfnod wedi cynnig cyfleoedd i ddatblygu. Roedd rhai o'r sgiliau a nodwyd fel rhai diffygiol yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar lle ceir cryn bwyslais ar ddatblygu sgiliau hanfodol, yn wahanol i bobl ifanc, lle y bydd rhai meysydd pwnc yn gofyn am fwy o bwyslais ar sgiliau cwricwlaidd.

> ‘…sgiliau cullell a fforc yn wan ar ôl dod nol.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)

> ‘Dirywiad yn sgiliau darllen, mathemateg syml.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

> ‘Disgyblion yn colli allan ar brofiadau ymarferol mewn pynciau ymarferol a galwedigaethol.’ (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

> 'Roedd yn amlwg nad yw sgiliau cymdeithasol na sgiliau hunanreoli blwyddyn 7 wedi cyrraedd y lefel y byddai disgwyl i grwpiau blwyddyn 7 fod wedi'i chyrraedd. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

**8.32** Nododd rhieni fod cyfle i bwysleisio'r broses o ddatblygu sgiliau, gan ddangos safbwynt a oedd yn eu tywys y tu hwnt i'r tasgau a osodwyd gan yr ysgol.

> ‘[Angen] ‘gwahoddiad i’r plant gwneud pethau offline, fel gosod project, neu gwahodd nhw i ddatblygu prosiect ei hunain, ond fod y project yn rhywbeth ddim ar cyfrifiadur. Oherwydd ma rheoli a arwain dy ddysgu dy hun yn elfen bwysig o dy ddatblygiad hefyd.’ ‘Cyffroi ynglŷn a fod yn creadigol.’ (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

> 'Roeddem yn gallu canolbwyntio ar ymarfer ei allu i reoli pensil a ffurfio rhifau/llythrennau llawer mwy nag yn yr ysgol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol F)

> 'Roeddem yn gallu gwneud llawer o waith 1-2-1 ac yn gallu canolbwyntio ar agweddau roedd y plant yn eu cael yn anodd, gan fynd dros yr agweddau hynny a theilwra'r gwaith yn briodol. (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**Cyrhaeddiad**

**8.33** Roedd cytundeb cyffredinol, yn ôl pob tebyg, ymhlith cyfranogwyr nad oedd y disgyblion wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn ystod blwyddyn ysgol arferol, a'r farn oedd y byddai hynny'n cael effaith barhaus o ran hyder, gorbryder a dadrithiad. Ymddengys fod staff ysgolion yn ymwybodol o'r cyrhaeddiad cyfyngedig ond eu bod yn gwneud eu gorau i reoli sefyllfa a oedd yn newid yn barhaus.

> 'Byddwch o bosibl wedi'u darparu ... â phecyn sy'n cynnwys gweithgareddau estynedig, ond a yw hynny o ddifrif yn eu gwthio i'r un lefel â chael athro o'u blaenau, a gallu dod i adnabod y disgybl hwnnw go iawn a'i wthio hyd at y ffin y byddai wedi gallu ei gyrraedd yn yr ysgol? Mae hynny'n anos wrth ddysgu ar ffurf ddigidol.' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

> ‘Mae'n bosibl bod [y rheini] a nodwyd fel cyflawnwyr isel... wedi ymddieithrio ychydig. Ac rydym yn darganfod bylchau yn eu gwybodaeth. (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol I)

> 'Felly, mae disgyblion yn teimlo rhyw fath o banig: 'Dwi wedi colli cymaint o ddysgu,' a gall pwysau'r athro ar ben hynny achosi gofid mawr i ddisgyblion...' (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol J)

**8.34** Mynegodd rhieni eraill eu pryderon yn yr arolwg.

> 'Yn dysgu mwy yn yr ysgol na gartref'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)
>
> 'Nid yw'n gwneud cynnydd hyd at y lefel y dylai fod yn ei chyrraedd'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)
>
> 'Hyder wrth ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Ei fod wedi dysgu pethau gartref mewn ffordd wahanol i'r dull a ddefnyddir yn yr ysgol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)
>
> 'Aros yn ei unfan'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)
>
> 'Wedi colli llawer o amser yn yr ysgol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

**8.35** Mynegodd athrawon ymwybyddiaeth nad oedd y disgyblion nad oeddent yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth a oedd ar gael ar-lein yn cyrraedd lefelau cystal â'r rheini a oedd wedi ymgysylltu.

> 'Roedd bwlch i weld rhwng y plant wnaeth wneud y gwaith ar-lein ar rhai na wnaeth y gweithgareddau ar lein.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol L)
>
> 'Safon a gallu addysgol wedi dioddef o ran y disgyblion nad oedd yn ymrwymo i waith ar lein.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

**8.36** Dangosodd rhieni hefyd ymwybyddiaeth o gyrhaeddiad cyfyngedig eu plant a gwnaethant fynegi pryder am yr effaith tymor hwy – o ran eu cyflawniad academaidd ond yn hytrach o ran yr effaith bersonol ac agweddol ar ddysgu ac ymgysylltu yn y dyfodol.

> 'Mater o addysg sylfaenol ydoedd. Ond nid oedd yn herio'r disgyblion mwyaf disglair – cafodd ei dosbarth waith mathemateg a oedd yn hawdd iddi hi, ac roeddent wedi ei wneud y llynedd – er mwyn sicrhau bod y plant yr oedd angen mwy o help arnynt yn aros ar yr un dudalen sylfaenol. Ar y llaw arall, ymddengys fod bylchau mawr iawn yn ei gwybodaeth wyddonol, a bwlch llwyr lle y dylai fod wedi bod yn gwneud arbrofion a mynd ar ymweliadau maes. Roedd hi'n meddwl bod ei athro gwyddoniaeth ym mlwyddyn 8 yn ardderchog, ac roedd wir wedi ei hysbrydoli – gan ei hannog i anelu at raddau A – ond dyw hi ddim yn malio dim bellach.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

'Rwyf wedi gallu gweld ble yr oedd angen help ar fy merch hynaf. Yn amlwg, mae sefyllfaoedd yn yr ysgol lle nad ydynt yn sylwi gymaint ar y plant. A lle mae'r plant yn ei chael hi'n anodd, all yr athrawon ddim gweld pawb. A chredaf y bydd y cyfnod hwn o ddeuddeg mis allan o'r addysg honno yn gwneud hynny'n waeth byth... Bydd bwlch nawr lle na fyddant yn gallu gweld pa gynnydd a wnaeth y plentyn hwnnw a beth mae angen iddo ddysgu ac a yw'n methu mewn unrhyw ffordd. Credaf y bydd yn anodd dychwelyd plant at y lefel y mae angen iddynt ei chyrraedd, a dod i adnabod plentyn eto a chael gwybod sut y mae'r cyfnod hwn o 12 mis wedi effeithio arno a nodi pa help sydd ei angen arno er mwyn dysgu'n iawn eto.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

'Rwy'n poeni y bydd fy merch yn fwy pryderus pan ddaw at ddysgu. Mae ei hunanhyder yn isel yn barod ac mae hi'n mynd i banig pan fydd hi'n wynebu anawsterau. Nid yw'r ffaith bod ei hamgylchedd diogel bellach yn amgylchedd llawn straen yn helpu ei hyder. Mae hyn yn effeithio ar ei hawydd i ddysgu. Rwyf hefyd yn poeni, am ei bod yn 4 oed, ei bod yn colli allan ar flynyddoedd dysgu datblygiadol hanfodol, a fydd yn arwain at oedi yn y blynyddoedd dysgu nesaf, gan ei rhoi dan anfantais o ran y cyfle i gael addysg lawn a theg. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol A)

**Dysgu allgyrsiol**

**8.37** Un o'r agweddau cadarnhaol a nodwyd gan gyfranogwyr o ran cau ysgolion oedd bod plant, ynghyd â'u teuluoedd, wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu allgyrsiol, weithiau yn lle cyfleoedd dysgu ffurfiol ac ar adegau eraill, yn ogystal â chyfleoedd dysgu yn yr ysgol. Roedd y dysgu allgyrsiol hwn yn amrywio rhwng ysgolion a rhwng teuluoedd, ond i rai plant, gwnaethant ymuno â busnes y teulu neu helpu'r teulu mewn ffyrdd eraill, weithiau ar draul eu gwaith ysgol. Fodd bynnag, roedd rhai rhieni o'r farn bod hwn yn gyfle cadarn i ddatblygu'r sgiliau cyflogadwyedd ymarferol hynny a fyddai'n rhoi sail gadarn iddynt ar gyfer y dyfodol. Weithiau, rhoddodd y cyfyngiadau symud ffocws cliriach i ysgolion wrth ystyried y materion hyn.

‘Efallai bod nhw’n gweithio’n OK yn yr ysgol, ond wedyn pryd ma nhw’n mynd adre y disgwyl ydy iddyn nhw weithio ar y fferm neu bod yn rhaid iddyn nhw

edrych ar ôl plant. Ma pethau fel na’n dod mewn i’r peth. A ti jest yn ffeindio’r pethau ‘ma allan pryd ma ddisgwyl i weithio trwy dydd ar y we adref, a ma rhaid gofyn ‘pam dwyt ti ddim yna’ a ‘beth yw’r broblem?’ A dim ond wedyn wyt ti’n clywed nhw’n dweud fod rhaid iddyn nhw neud hyn, hyn a hyn.’ (Cyfweliad ag aelod o'r Uwch-dîm Arwain, Ysgol H)

**8.38** Nododd rhai fod y sgiliau yn sgiliau roedd y plant yn eu mwynhau a bod y rhieni yn gweld y buddiannau.

'Roedd y plant fferm nad ydynt yn hoffi'r ysgol wrth eu bodd yn gweithio ar y fferm gartref.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

'Gwnaethant ddysgu llawer o sgiliau ymarferol newydd, gyrru tractor, torri coed, codi wal.' (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol H)

**8.39** Cymerodd rai fantais o'r amser llai strwythuredig i roi cyfle i'w plant feithrin ysbryd entrepreneuraidd ag ymdeimlad cryf o hunanwella, a buddiannau cael profiadau a meithrin sgiliau ychwanegol a allai fod o gymorth iddynt yn y dyfodol.

'Sefydlodd fusnes gwneud cyffug. Gwnaeth y gwaith costio, daeth o hyd i'r cynhwysion a'u prynu, cwblhaodd gwrs hylendid bwyd lefel 2 ar-lein (gan dalu'r costau ei hun). Daeth o hyd i fanwerthwr lleol a oedd yn fodlon gwerthu ar ei ran am dâl comisiwn bach. Gwnaeth dri dosbarthiad yn ystod yr wythnosau cyn y Nadolig, gan ddyblu ei wariant cychwynnol.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol J)

**8.40** Nodwyd bod disgyblion eraill wedi meithrin sgiliau bywyd ymarferol a bod y disgyblion eu hunain yn cydnabod hynny. Coginio a garddio, yn gyffredinol, oedd yr ymdrechion mwyaf poblogaidd yn ôl pob tebyg o ran cyfoethogi profiadau dysgwyr yn ystod y cyfyngiadau symud, gan roi pwyslais, unwaith eto, ar addysg ymarferol.

'Gallu dysgu sgiliau bywyd.' (Tasg Dysgwr, Ysgol J)

'Gwneud gweithgareddau dysgu ychwanegol fel pobi a phaentio'. (Tasg Dysgwr, Blwyddyn 1, Ysgol I)

'Coginio a Darllen.' (Tasg Dysgwr, Blwyddyn 6, Ysgol K)

‘Plant wedi gallu dysgu sgiliau newydd ni fyddai amser i wneud fel arfer megis coginio, garddio. Hefyd mwy o amser teulu ac yn yr awyr agored.’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)

'Rhoddodd fwy o amser i ni ddysgu gwersi "bywyd" mwy ymarferol fel beicio a chlymu careiau.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

'Y nodweddion cadarnhaol oedd yr amser a dreuliodd fy mhlentyn â'i brawd bach a'r cyfle ychwanegol i ddysgu'n annibynnol.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol B)

**8.41** Daeth yr amgylchedd lleol a'r awyr agored yn ffocws clir ar gyfer dysgu allgyrsiol i lawer o deuluoedd a wnaeth werthfawrogi'r amser a roddwyd iddynt drwy gau'r ysgolion a hyblygrwydd gofynion y cwricwlwm i archwilio'r ardal leol, gan ddod yn gynyddol ymwybodol o fyd natur o'u cwmpas yn ogystal â threftadaeth leol. Ymddengys bod y cyfleoedd ad hoc hynny a gynigiwyd i ddysgwyr yn thema gyffredin a'u bod wedi'u hanelu at addysgu a hysbysu dysgwyr.

'Amser i archwilio'r ardaloedd cefn gwlad o'n cwmpas.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol I)

'Dysgu mwy am anifeiliaid, hanes lleol ac ati'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol L)

'Bwydo a gwylio adar'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol K)

'Dysgu am benbyliaid-brogaod'. (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

'Gwnaethom weithgareddau dysgu awyr agored gan ddefnyddio sialciau ar slabiau'r patio er mwyn gwneud sillafu a thynnu lluniau yn ogystal â choginio ac adeiladu modelau fel Lego a modelu sothach. Gwnaethom ddarllen llawer o lyfrau a chylchgronau hefyd a gwneud gweithgareddau crefft gyda'n gilydd.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol I)

‘Llawer wedi mwynhau bod yr holl deulu adref gyda’i gilydd. Ymarfer corff a cherdded wedi cynyddu ffitrwydd disgyblion. Llawer wedi dangos diddordeb mewn byd natur - gweithgareddau garddio a thyfu planhigion wedi bod yn weithgaredd poblogaidd. Dealltwriaeth disgyblion o’i cynefin a’u hardal wedi datblygu hefyd. (Ymateb i'r Arolwg Athrawon/Staff Cymorth Dysgu, Ysgol K)

'Gwnaethant helpu ei gilydd fwy, cydweithio mwy a dod yn agosach fel brodyr. Roedd cyfle iddynt osod cyflymder eu gwaith yn unol â'u galluoedd gan wneud rhai tasgau yn gyflymach a rhai'n arafach nag a fyddai wedi cael ei ganiatáu yn y dosbarth. Os oedd ganddynt ormod o egni i eistedd a chanolbwyntio, gallent wneud rhywbeth corfforol, archwilio'r coetir lleol ac wedyn dychwelyd at y dasg.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol B)

**8.42** Nid oedd rhai o'r gweithgareddau a'r dysgu allgyrsiol a nodwyd o reidrwydd yn newydd nac yn ychwanegol ond rhoddodd hyblygrwydd amser gyfle i'r plant a'u rhieni ymrwymo mwy o amser i weithgareddau yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt yn barod. Roedd datblygu sgiliau cerddorol ymhellach yn weithgaredd poblogaidd, yn ôl pob tebyg.

'Treulio mwy o amser ar y pynciau sy'n well gennyf, fel cerddoriaeth.' (Tasg Dysgwr, Blwyddyn 6, Ysgol K)

'Cefais dreulio mwy o amser yn chwarae'r piano.' (Tasg Dysgwr, Blwyddyn 2, Ysgol L)

‘Mae'n chwarae'r piano a gwnaeth hynny lawer mwy a chyfansoddi ei gerddoriaeth ei hun (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

'Treulio mwy o amser ar gerddoriaeth.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol L)

'Cawsom ychydig mwy o ryddid i wneud yr hyn roeddem am ei wneud. I mi, yn bersonol, mae hynny'n golygu ei fod yn treulio cryn dipyn o amser yn chwarae cerddoriaeth. Dysgais iddo chwarae'r piano ac mae'n cael gwersi feiolin ar-lein a ddarperir drwy'r ysgol gan y sir. Felly, mae wedi cael cryn dipyn o ymarfer cerddoriaeth, chi'n gwybod, a gwersi na fyddai wedi cael amser i'w gwneud fel arall ar ôl dod adref ar ôl diwrnod llawn yn yr ysgol. Ni fyddem wedi gofyn iddo wneud hynny gan y byddai wedi blino gormod fel arfer. Felly dyna'r fantais, chi'n gwybod.' (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

**8.43** Ymddengys fod y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl galluoedd rhieni.

'Treulio mwy o amser gyda'm teulu yn tynnu lluniau gyda mam.' (Tasg Dysgwr, Ysgol K)

‘Gwaith DIY…Symudiad atal.’ (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol H)

'Cael trwydded i hedfan drôn.' (Ymateb i'r Arolwg Rhieni, Ysgol J)

‘Mae'r plant wedi cymryd rhan mewn dysgu rhai sgiliau newydd ar lein fel creu podlediad. A mae mab wedi bod yn dysgu chwarae gitâr a'r you tube. Rwyf yn annog fy mhlant i fynd allan i gael awyr iach a ymarfer corff. Er mwyn cadw n iach yn feddyliol a chorfforol.’ (Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

**8.44** Roedd y rhieni yn cydnabod bod rhywfaint o werth i'r rhan fwyaf o dasgau allgyrsiol hyd yn oed pan oeddent o bosibl o natur lai academaidd.

'Chwaraeodd llawer o gemau ar-lein, ond a bod yn deg, maent wedi ei helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ardderchog ac mae'n sgwrsio â phobl ifanc o lawer o wahanol wledydd. Mae wedi ehangu ei ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o ran ymagweddau diwylliannol tuag at fywyd a'r pandemig.' (Ymateb mewn Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

'Rydym wedi bod yn mynd am dro, wedi chwarae llawer ar y Switch (gan helpu ei dealltwriaeth o'r Saesneg – mae'n rhan o'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol)... rhaid cyfaddef mai chwarae gwahanol gemau ar y Switch oedd y rhan fwyaf, felly Animal Crossing, Mario Party 8 (llawer o gydgysylltiad dwylo-llygaid), hen gemau SNES ar yr efelychwr, Just Dance.’ (Ymateb mewn Cyfweliad â Rhiant, Ysgol K)

**8.45** Roedd y cyfle i ddefnyddio'r amser i gyfoethogi bywydau pobl eraill yn amlwg yn sylwadau rhai o'r cyfranogwyr. Byddai hyn wedi cynnig datblygiad personol yn ogystal ag ymdeimlad o foddhad a chyflawniad personol.

‘Penderfynodd fy mhlentyn gychwyn prosiect i godi arian i elusen a roedd hyn yn rywbeth cadarnhaol iawn a wnaeth ei chysylltu hefo'r gymuned. Cododd dros £1,000 o bunnoedd at argyfwng Yemen - rhywbeth oedd wedi bod yn ei phoeni hi - a dwi'n credu roedd hyn yn dda i'w lles hi. Fel teulu roedden ni'n ei chefnogi gyda'r prosiect a roedd hyn yn beth positif iawn iddi hi ac i ni.’ [Ymateb mewn Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

'Ysgrifennu llythyrau i gartrefi gofal a theulu, gwneud llawer o gardiau i'r GIG'. (Ymateb mewn Cyfweliad â Rhiant, Ysgol H)

'Casglu sbwriel o amgylch y pentref'. (Ymateb mewn Cyfweliad â Rhiant, Ysgol L)

## Crynodeb

**8.46** Tynnodd y pandemig sylw at oblygiadau cymdeithasol addysg. Nodwyd pwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol o'r fath â'i gilydd, â'u hymarferwyr yn benodol mewn ymateb i golli'r cyfleoedd naturiol hynny a gynigir mewn ysgol.

**8.47** Roedd gwerthfawrogiad cynyddol hefyd o arferion cymdeithasol bywyd ysgol ar ôl eu colli. Roeddent yn rhoi cyfle i ddysgwyr strwythuro eu dysgu a gweithgareddau eraill. Nodwyd pwysigrwydd arferion o'r fath yn arbennig i blant ag anghenion ychwanegol amrywiol.

**8.48** O ganlyniad i gau ysgolion am gyfnod estynedig, a darparu addysg yn y cartref, lle roedd nifer o bethau yn tynnu eu sylw, tarfwyd ar arferion plant, ac, yn ogystal, mewn rhai achosion, ar eu gallu i ymgysylltu ag addysg.

**8.49** Roedd rhai disgyblion yn ffynnu ag ymdeimlad cynyddol o annibyniaeth, ond roedd eraill yn amlwg wedi syrthio ar ei hôl hi ac wedi colli eu hymdeimlad o gymhelliant a'u gallu i ganolbwyntio, ond nid oedd y darlun hwn yn gyson i bob dysgwr.

**8.50** Nodwyd diffyg datblygiad sgiliau ymarferol a chwricwlaidd rhai myfyrwyr lle mae angen ymgysylltu'n bersonol ag adnoddau.

**8.51** Nodwyd rôl rhieni wrth gefnogi ymgysylltiad addysgol eu plant hefyd. Yn arbennig, nodwyd pwysau cyflogadwyedd, gwerthfawrogiad is o werth addysg, yn arbennig ar ei ffurf yn ystod y pandemig, a gorbryder, fel ffactorau a gafodd effaith arbennig o andwyol ar y cymorth yr oeddent yn ei roi i'w plant.

**8.52** Roedd gwahaniaethau amlwg o ran lefelau ymgysylltu rhieni. I'r dysgwyr hynny a gafodd gymorth clir, roedd manteision yr amser ychwanegol a ddyrannwyd gan rieni ar gyfer dysgu allgyrsiol cynyddol yn amlwg, ac yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel rhywbeth buddiol.

**8.53** Nodwyd pwysigrwydd helpu rhieni nad iaith addysg eu plant oedd eu prif iaith. Nodwyd yr angen i wella'r ddarpariaeth i'r rheini/gwarcheidwaid hyn, gan fod ymdeimlad eu bod yn teimlo'n rhwystredig iawn nad oeddent yn gallu helpu eu plant i ymgymryd â thasgau o'r fath. Yn sicr, rhoddwyd ffocws cliriach i'r mater o ganlyniad i'r pandemig.

**8.54** O ganlyniad, roedd dealltwriaeth nad oedd cyrhaeddiad academaidd na chynnydd cwricwlaidd disgyblion yn dilyn eu llwybr arferol, ond bod y ddarpariaeth ar-lein a ddarparwyd gan ysgolion wedi bod o fudd i'r rheini a wnaeth ymgysylltu.

## 9. Prif ganfyddiadau

**9.1** Rhoddir cafeat ar y canfyddiadau, sef y cyfyngiadau ar y broses o gasglu data a graddau'r gynrychiolaeth a nodir uchod (gweler adran 2.30 - 2.36).

**Cyflwyniad**

**9.2** Roedd yr astudiaeth hon yn anelu'n bennaf at ystyried profiadau dysgwyr ledled Cymru, mewn cyd-destunau addysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19 a'r cyfnod pan gawsant eu hailagor. Mae natur newidiol y pandemig, a'r ymatebion amrywiol dros amser, yn golygu bod natur y prosiect wedi cynyddu er mwyn ystyried ymatebion amrywiol rhanddeiliaid i brofiadau newidiol a newidiadwy. Yn ein barn ni, mae ehangu ein ffocws i ystyried natur amrywiol yr anfantais a brofir gan ddysgwyr yn ystod cyfnod o ansicrwydd o'r fath wedi cyfoethogi'r gwaith ymchwil. Mae'r data yn nodi'n glir amrywiaeth o brofiadau i ddysgwyr a greodd, o ganlyniad i gyd-destun cyfnewidiol parhaus y pandemig a'i effaith ddilynol ar addysg, amrywiaeth o anfanteision i bawb, gyda heriau amrywiol yn dod yn gynyddol amlwg wrth i ni ehangu ffocws yr astudiaeth.

**9.3** Er gwaethaf y ffaith bod anfanteision gwahanol wedi dod i'r amlwg ar wahanol adegau yn ystod cyfnod yr astudiaeth, mae'n werth nodi mai anaml y nodwyd anfanteision newydd. Yn hytrach, roedd y pandemig a'i ganlyniadau yn amlwg yn gyfrifol am roi ffocws cliriach i'r anfanteision hynny a oedd eisoes yn bodoli ym meddyliau'r rhanddeiliaid hynny y gwnaethom ymgysylltu â nhw.

**9.4** Ni fyddai'n ormod nodi bod pob myfyriwr, i ryw raddau, wedi cael ei roi o dan anfantais yn sgil y pandemig. Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod digwyddiadau cyffredin a fyddai wedi rhoi dysgwyr o dan anfantais o dan amgylchiadau arferol yn llawer mwy sylweddol yn ystod oes Covid-19. Gwaethygwyd goblygiadau'r anfantais yn sylweddol yn achos rhai dysgwyr, ond i ddysgwyr eraill, nodwyd bod y pandemig wedi creu amodau buddiol.

**9.5** Gellir nodi bod Covid-19, a'i effaith ar ddarpariaeth addysgol, wedi tynnu sylw at enghreifftiau o anfantais a fyddai o bosibl wedi bod yn ymylol, a phrin y byddent wedi effeithio ar ddarpariaeth addysgol dysgwyr yn y gorffennol agos. Yn benodol, trawsnewidiwyd arwyddocâd y gofynion technolegol i ddysgwyr, y tynnwyd sylw

atynt dro ar ôl tro, a'r goblygiadau economaidd cysylltiedig, yn llwyr i lawer o randdeiliaid o ganlyniad i'r pandemig.

**9.6** Caiff prif oblygiadau'r strategaethau a fabwysiadwyd ar gyfer darpariaeth addysgol dysgwyr yn y 12 o sefydliadau addysgol a gynhwyswyd yn y prosiect ymchwil eu hystyried isod mewn perthynas â chwe thema allweddol. Roedd y themâu yn ymwneud â'r canlynol:

- Mynediad i dechnoleg
- Amgylchedd dysgu yn y cartref
- Darpariaeth ysgol
- Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol.
- Iechyd meddwl a lles
- Dysgu a chynnydd academaidd

**9.7** Nodir y goblygiadau sy'n gysylltiedig â phob thema allweddol isod.

**Mynediad i dechnoleg**

**9.8** Daeth defnyddio technoleg i gael mynediad at ddarpariaeth addysg pan oedd yr ysgolion ar gau yn norm. Datblygodd y ddarpariaeth yn y maes hwn wrth i randdeiliaid addasu, ymchwilio ac arloesi â ffurfiau amrywiol ar y ddarpariaeth. Roedd angen i bawb dan sylw ddysgu yn gyflym, ond nododd yr ymatebwyr yn gyson fod parodrwydd i addasu. Wrth i'r cyfyngiadau symud barhau, llwyddodd darpariaeth ysgolion unigol i ddatblygu o ran soffistigeiddrwydd ac effeithiolrwydd. Cofnododd amrywiaeth o gyfranogwyr fod sgiliau a galluoedd technolegol yr holl randdeiliaid wedi datblygu dros gyfnod yr astudiaeth, a bod ysgolion a chartrefi yn gallu defnyddio'r technolegau hynny yn fwyfwy effeithiol wrth ddarparu cyfleoedd dysgu i ddisgyblion. Yn ogystal, dangosodd disgyblion wydnwch cyffredinol mewn perthynas ag addasu i'r mathau o ddysgu a gynigiwyd.

**9.9** Nodwyd dro ar ôl tro bod annhegwch mynediad i galedwedd technolegol ac argaeledd band eang er mwyn gallu ymgysylltu â meddalwedd dysgu a/neu adnoddau ysgol yn rwystrau sylweddol i rai dysgwyr.

### Amgylchedd dysgu yn y cartref

**9.10** Tynnwyd sylw at natur y gefnogaeth yn y cartref fel ystyriaeth allweddol o ran lles addysgol dysgwyr yn ystod y pandemig. Nodwyd pwysigrwydd parodrwydd rhieni i fabwysiadu'r disgwyliadau newydd a oedd arnynt, fel hwyluswyr addysgol, a chefnogwyr addysgol, fel rhan o'r data. Nodwyd manteision parodrwydd rhieni i helpu eu plant. Eto, nid oedd lefelau cymorth yn unffurf, a nodwyd bod rhai dysgwyr wedi datgysylltu'n gynyddol o'u haddysg o ganlyniad i lai o gymorth yn y cartref. Roedd y ffactorau a gyfrannodd at y gostyngiad yn lefelau cymorth rhieni yn cynnwys ymrwymiadau gwaith ac ymdeimlad, nad oedd yn ymdeimlad cyffredinol, nad oedd rhai rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol gan nad oedd digon o gymorth ar gael iddynt wrth iddynt ymgymryd â'u rolau newydd fel addysgwyr a chefnogwyr addysgol. Nodwyd bod amgylchiadau unigol yn arbennig o arwyddocaol, a nodwyd pwysigrwydd cymorth rhagweithiol wedi'i deilwra gan ysgolion.

**9.11** Yn ogystal, ac er gwaethaf ymdrechion gorau ysgolion, roedd rhai rhieni yn teimlo nad oeddent yn meddu ar yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cynnal dysgwyr a'u lles addysgol gartref, o ran technoleg mewn rhai achosion penodol, ac o ran adnoddau addysgol cefnogol ychwanegol. Tynnwyd sylw at y gofyniad i ysgolion sicrhau mynediad unffurf i adnoddau o'r fath, ac i sicrhau ymwybyddiaeth ar ran rhieni bod cymorth o'r fath ar gael.

### Darpariaeth ysgol

**9.12** Cafwyd ymatebion cymysg gan randdeiliaid i'r profiadau a'r adnoddau dysgu a ddarparwyd gan ysgolion yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd llawer o rieni yn fodlon ag ansawdd ac amlder y ddarpariaeth, yn ogystal â'r amrywiaeth o ddatblygiadau arloesol, a chyflwyno sgiliau newydd yn seiliedig ar dechnoleg. Ond roedd rhai rhieni'n poeni bod yr adnoddau a ddarparwyd yn eu barn nhw o ansawdd gwaeth na'r hyn a fyddai wedi cael ei ddarparu fel arfer. Mynegwyd pryderon hefyd gan rai am effaith y ddarpariaeth hon ar gynnydd academaidd hirdymor y disgyblion. Roedd y ddarpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol, ond, yn ddiau, gallai ddangos cryn dipyn o arloesedd. Roedd rhieni'n croesawu'n arbennig y syniad o ddefnyddio adnoddau a phrofiadau dysgu digidol yn ogystal â chopïau ffisegol,

caled fel deunyddiau dysgu yn ystod y cyfyngiadau symud, ond roedd yn ddrud i ysgolion gynhyrchu a dosbarthu copïau caled, ffisegol o ddeunyddiau dysgu. Nodwyd hefyd bod lefel y cymorth bugeiliol i ddisgyblion a theuluoedd / gofalwyr yn amrywio o ran angen. Ond ymrwymodd pob ysgol i gefnogi plant a theuluoedd agored i niwed, neu ddisgyblion a theuluoedd/gofalwyr a oedd wedi dod yn agored i niwed oherwydd amodau'r cyfyngiadau symud. Roedd strategaethau yn amrywio, ond nodwyd yn benodol y dull cydweithredol a welwyd o fewn a rhwng ysgolion, yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau cymdeithasol wrth nodi'r disgyblion a'r rhieni hyn.

**Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol**

**9.13** Roedd y cyfnod rhwng y cyfyngiadau symud, pan oedd y plant wedi dychwelyd i'r ysgol, yn heriol iawn i lawer o ysgolion, yn enwedig (ond nid dim ond) y rheini â chyfran uchel o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y cyfuniad o orfod rheoli disgyblion o fewn 'swigod' a gorfod atal y disgyblion rhag cymryd rhan yn eu harferion a mynd i'w hardaloedd o ganlyniad i'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig wedi creu anawsterau i arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth dysgu, ac, yn fwy penodol, i ddysgwyr. Ystyriwyd bod yr elfennau hyn yn cael eu gwaethygu gan anawsterau wrth gael gafael ar y mathau o wasanaethau cymorth arbenigol a allai fod wedi gwella amodau i'r dysgwyr. Ystyriwyd bod trefniadau cydweithio rhwng yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion yn bwysig iawn yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Yn gyffredinol, llwyddodd yr asiantaethau hyn i nodi anghenion disgyblion a'u teuluoedd / gofalwyr, a gwnaethant ymateb er mwyn rhoi cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd / gofalwyr. Nodwyd ysgolion ac ymarferwyr addysgol yn benodol am eu rôl wrth nodi disgyblion y gallai fod wedi bod o fudd iddynt fynychu ysgolion Hyb. Ond, mae'n bosibl y caiff y diffyg gwasanaethau cymorth arbenigol i ddisgyblion, yn enwedig y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, effaith hirdymor ac andwyol ar gynnydd disgyblion unigol mewn rhai achosion.

**Iechyd meddwl a lles**

**9.14** Nododd nifer o randdeiliaid bod y cymorth, y drefn, y cyfleoedd chwarae ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a'r arweinyddiaeth ddysgu a gynigiwyd gan ysgolion yn

bwysig wrth gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr. Rhaid gwerthfawrogi pwysigrwydd hanfodion o'r fath er mwyn sicrhau cynnydd a chyflawniadau effeithiol i ddysgwyr. Rhaid cofio faint o waith a wnaed gan ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr yn ystod y pandemig, a gyflwynodd her sylweddol i weithwyr proffesiynol a oedd eisoes yn brysur ac a lwyddodd i ymdopi wrth symud yn gyflym i drefniadau dysgu o bell, yn ogystal â gorfod llunio nifer o strategaethau i gynnig darpariaeth les gynyddol berthnasol mewn perthynas â'r sefyllfa a oedd yn newid yn barhaus. Gwerthfawrogwyd yn gynyddol bod dealltwriaeth ysgolion a staff o amgylchiadau cartref dysgwyr, a'u heffaith ar iechyd meddwl a lles, yn allweddol wrth gefnogi dysgu effeithiol. Felly, dylid ystyried pwysigrwydd gwybodaeth o'r fath yn gynyddol, ac fel mater o drefn, fel rhan o Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mabwysiadwyd nifer o strategaethau i ddiogelu iechyd meddwl a lles dysgwyr, yn ogystal â lles y rhieni a'r gwarcheidwaid hynny a oedd yn gynyddol gyfrifol am ddarparu addysg cartref. Cafodd y strategaethau hyn groeso cynnes ar y cyfan, ond nodwyd bod y ddarpariaeth yn ddiffygiol mewn rhai achosion a'i bod, yn gyffredinol, o natur ymatebol. Yn ogystal, ymddengys fod rhieni wedi meithrin gwerthfawrogiad newydd/dyfnach o'r gwaith a wnaed gan athrawon a staff addysgu o ganlyniad i'w profiadau uniongyrchol o addysg cartref.

**Dysgu a chynnydd academaidd**

**9.15** Tynnodd y pandemig sylw at oblygiadau cymdeithasol addysg. Nododd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol o'r fath ac arferion cymdeithasol bywyd ysgol. Nodwyd pwysigrwydd arferion o'r fath yn arbennig i blant ag anghenion ychwanegol amrywiol. O ganlyniad i gau ysgolion am gyfnod estynedig, a darparu addysg yn y cartref, lle roedd nifer o bethau yn tynnu eu sylw, tarfwyd ar arferion plant, ac, yn ogystal, mewn rhai achosion, ar eu gallu i ymgysylltu ag addysg. Felly, yn amlwg, mae rhai bellach ar eu hôl hi ac wedi colli eu hymdeimlad o gymhelliant a'u gallu i ganolbwyntio. Ond, llwyddodd rhai disgyblion i ffynnu gan ddangos ymdeimlad cynyddol o annibyniaeth.

**9.16** Nodwyd rôl rhieni wrth gefnogi ymgysylltiad addysgol eu plant hefyd. Yn arbennig, nodwyd pwysau cyflogadwyedd, gwerthfawrogiad is o werth addysg, yn arbennig ar ei ffurf yn ystod y pandemig, a gorbryder, fel ffactorau a gafodd effaith arbennig o

andwyol ar y cymorth yr oeddent yn ei roi i'w plant. I'r dysgwyr hynny a gafodd gymorth clir, roedd manteision yr amser ychwanegol a ddyrannwyd gan rieni ar gyfer dysgu allgyrsiol cynyddol yn amlwg, ac yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel rhywbeth buddiol. Nodwyd pwysigrwydd helpu rhieni nad iaith addysg eu plant oedd eu prif iaith. Nodwyd yr angen i wella'r ddarpariaeth i'r rheini/gwarcheidwaid hyn, gan fod ymdeimlad eu bod yn teimlo'n rhwystredig iawn nad oeddent yn gallu helpu eu plant i ymgymryd â thasgau o'r fath. Yn sicr, rhoddwyd ffocws cliriach i'r mater o ganlyniad i'r pandemig.

## 10. Argymhellion

**10.1** Caiff yr argymhellion sy'n deillio o'r prosiect ymchwil eu hystyried mewn perthynas â chwe thema allweddol:

- Mynediad i dechnoleg
- Amgylchedd dysgu yn y cartref
- Darpariaeth ysgol
- Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol
- Iechyd meddwl a lles
- Dysgu a chynnydd academaidd

**10.2** Dylid ystyried bod yr argymhellion yn berthnasol i bawb, a dylai pob rhanddeiliaid eu hystyried. Ond rydym wedi ceisio tynnu sylw at rai o'n hargymhellion sy'n fwy perthnasol i rai rhanddeiliaid allweddol penodol.

**10.3** Rydym wedi defnyddio'r codau lliw canlynol:

| | |
|---|---|
| Gweithredu ar lefel ysgol | |
| Awdurdod lleol / consortia rhanbarthol | |
| Llywodraeth Cymru | |
| Yn berthnasol i bawb // lefel system | |

**Mynediad i dechnoleg**

**10.4** Dylai'r system addysg gydnabod a cheisio gwarchod ac ehangu'r gwersi a ddysgwyd am ddarpariaeth o bell yn ystod y pandemig. Gall yr hyn a ddysgwyd am ddarpariaeth o bell gynnig cyfleoedd dysgu amgen ac ychwanegol yn y dyfodol, hyd yn oed pan fydd presenoldeb amser llawn mewn ysgolion traddodiadol yn bosibl.

**10.5** Os bydd dysgu ar-lein / yn y cartref yn parhau, ar unrhyw ffurf neu am unrhyw reswm, yna rhaid ymdrin ag achosion o fynediad annheg i dechnoleg, cymorth a phrofiad, ym mhob rhan o'r system.

**10.6** Ni ddylid byth cymryd yn ganiataol bod caledwedd, gwybodaeth dechnolegol neu gysylltedd yn bodoli yn yr amgylchedd dysgu cartref. Dylai ysgolion ystyried yr adnoddau technolegol sydd ar gael yn ogystal ag adnoddau cyffredinol wrth werthuso'r hyn sydd ar gael i gefnogi dysgu o bell. Mae angen i ysgolion ddangos sensitifrwydd wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr yn hyn o beth, a dylid darparu hyfforddiant i rieni/gofalwyr ddefnyddio caledwedd a meddalwedd perthnasol.

**10.7** Dylid cynnal hyder a sgiliau ymarferwyr wrth ddefnyddio dulliau a thechnoleg addysgol newydd, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r cyfyngiadau a grëwyd gan y pandemig, a'u datblygu ymhellach, gan eu hystyried yn sgiliau addysgegol hanfodol. Rhaid hefyd cynnwys yr ystyriaethau hyn fel rhan o Addysg Gychwynnol i Athrawon, er mwyn sicrhau bod pob athro yn hyderus wrth ddarparu addysg ar-lein.

**Amgylchedd dysgu yn y cartref**

**10.8** Dylai meithrin cydberthnasau da rhwng y cartref a'r ysgol fod yn rhan greiddiol o rôl ysgol yn ei chymuned. Mae cynnwys rhieni yn addysg eu plant yn bwysig, ond yn ystod pandemig, mae'n hanfodol. Wrth ddysgu yn y cartref, dylid rhoi canllawiau clir a dealladwy i rieni ar gyfer tasgau lle mae angen cymorth gan oedolyn.

**10.9** Lle bo plant yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid rhoi cymorth ac arweiniad i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg er mwyn iddynt allu helpu eu plant i ddysgu, gan gynnwys darparu canllawiau yn Saesneg, a nodi adnoddau ar-lein hygyrch (gweler hefyd yr adroddiad: *Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig Covid-19: heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg*).

**10.10** Yn ystod cyfnodau o absenoldeb neu pan fydd ysgolion ar gau, dylid recordio gwersi 'byw' ar-lein a sicrhau eu bod ar gael i ddysgwyr gael gafael arnynt yn ddiweddarach os nad oedd modd iddynt ymuno â'r wers fyw.

**10.11** Nododd llawer o rieni nad oedd dysgwyr ag awtistiaeth ac anhwylderau cyfathrebu ac ymddygiad ychwanegol yn deall rôl newydd y cartref wrth ddarparu addysg. Dylid ystyried darpariaeth wedi'i thargedu a'i theilwra i gefnogi dysgwyr o'r fath.

**10.12** Dylai mynediad cyfartal i addysg yn y cartref fod yn un o gonglfeini darpariaeth yn y dyfodol. Dylid ystyried mynediad i hanfodion addysgol ar ddechrau unrhyw

gyfyngiadau symud yn y dyfodol, gan gynnwys papurau, peniau, pensiliau lliw, yn enwedig i ddysgwyr ysgol gynradd.

**Darpariaeth ysgol**

**10.13** Dylid ystyried y cyfleoedd a gynigir gan ddysgu cyfunol ochr yn ochr â dychwelyd at ddulliau mwy traddodiadol yn ystod y cyfnod ar ôl y pandemig, yn enwedig er mwyn darparu ar gyfer dysgwyr na allant ddod i'r ysgol yn rheolaidd am unrhyw reswm.

**10.14** Dylid llunio systemau a chamau diogelu a'u rhoi ar waith, os ceir unrhyw achosion pellach neu newydd o darfu ar y ddarpariaeth, sy'n cynnig parhad darpariaeth i'r disgyblion hynny sy'n trosglwyddo rhwng cyfnodau addysgol, ac sy'n ymgymryd ag asesiadau ffurfiol neu'n gweithio tuag at asesiadau o'r fath, fel mater o flaenoriaeth.

**10.15** Dylid ymchwilio ymhellach i rôl ysgolion fel canolfannau ar gyfer cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu (fel y dangoswyd gan y rolau a chwaraewyd gan ysgolion wrth ddarparu cymorth fel ysgolion Hyb i ddisgyblion agored i niwed a disgyblion dan anfantais yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud) a'u hystyried fel model ar gyfer darparu a datblygu yn y dyfodol.

**10.16** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cost ariannol ymatebion ysgolion i'r pandemig ar ffurf darpariaeth amgen a dylid cynnal gwaith ymchwil pellach i hyn. Dylai gwaith cynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, gan gynnwys argyfyngau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol cau ysgolion neu darfu ar ddysgu, ystyried cost rhoi dulliau gweithredu amgen ar waith.

**Argaeledd gwasanaethau cymorth arbenigol**

**10.17** Dylid cynnal y trefniadau cydweithio rhwng yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion wrth ddarparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol penodol a/neu ddysgwyr y mae eu teuluoedd yn profi heriau sylweddol, a chyllidebu ar eu cyfer, fel rhan o waith cynllunio ar ôl y pandemig ac ar gyfer unrhyw gyfyngiadau symud yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff teuluoedd gefnogaeth briodol drwy gydol cyfnodau o'r fath.

**10.18** Dylid ymchwilio ymhellach i'r mathau o arferion a threfniadau cydweithio llwyddiannus rhwng ysgolion a gwasanaethau cymorth arbenigol a nodwyd gan rai

ymatebwyr yn yr astudiaeth a'u defnyddio fel sail ar gyfer trafodaethau am ddarpariaeth yn y dyfodol.

**10.19** Dylid llunio cynlluniau ar gyfer mathau amgen o ddarpariaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny sy'n dibynnu ar gysylltiad agos â'r plentyn, neu agosrwydd ato (e.e. ffisiotherapi a therapi galwedigaethol) os ceir unrhyw achosion o darfu neu gau ysgolion yn y dyfodol.

**10.20** Dylai'r gwaith o gynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol os ceir achosion pellach o darfu gynnwys trefniadau ar gyfer cydgysylltu â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysgol (SACDA) a gweithwyr proffesiynol allweddol eraill ar gyfer y plant hynny sy'n agored i niwed o ganlyniad i gyflyrau iechyd a chyflyrau corfforol.

**Iechyd meddwl a lles**

**10.21** Rhaid cofio faint o waith a wnaed gan ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr yn ystod y pandemig. Wrth ystyried dulliau gweithredu mewn perthynas â dysgu ar-lein, dylid cydnabod pwysigrwydd y cymorth, y drefn, y cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chwarae a'r arweinyddiaeth ddysgu a gynigiwyd gan ysgolion er mwyn cefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr.

**10.22** Dylai ysgolion adeiladu ar y cydberthnasau agosach rhwng y cartref a'r ysgol a ddeilliodd o'r pandemig i gefnogi dysgwyr. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o bwysigrwydd lles rhieni er mwyn sicrhau lles cysylltiedig eu plant a chreu cydberthnasau cynhwysol a chroesawgar rhwng y cartref a'r ysgol. Dylid tynnu sylw rhieni sydd o bosibl yn ei chael hi'n anodd darparu ar gyfer eu plant at bwynt mynediad clir, yn enwedig yn ystod cyfnodau lle ceir cyfyngiadau symud.

**10.23** Dylai ysgolion werthuso eu darpariaeth ar gyfer monitro lles dysgwyr pan na fyddant yn yr ysgol os ceir achosion o darfu yn y dyfodol. Roedd strategaeth a oedd yn cael ei gwerthfawrogi'n arbennig yn cynnwys sesiynau cofrestru neu sesiynau lles byw drwy gamera. Fodd bynnag, rhaid bod gan ysgolion staff cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau lles eu dysgwyr a'u bod yn ymgysylltu wrth ddysgu o bell; ni all staff addysgu fod yn gyfrifol am gysylltu â dysgwyr unigol.

**10.24** Dylid cydnabod y ffaith nad yw pob dysgwr yn ffynnu o fewn grwpiau mawr. Mae amgylchedd yr ysgol yn heriol i rai plant ac mae'n bosibl y bydd amser i ffwrdd o'u

cyfoedion wedi bod o fudd i rai dysgwyr, gyda'r cartref yn cynnig mwy o amser yng nghwmni'r teulu a llai o elfennau sy'n tynnu eu sylw. Felly dylai ysgolion ac Addysg Gychwynnol i Athrawon ystyried gwerth dulliau cyfunol ar gyfer dysgwyr penodol yn y dyfodol.

**Dysgu a chynnydd academaidd**

**10.25** Mewn amgylchedd dysgu ar-lein, rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau y gall dysgwyr ryngweithio'n gymdeithasol â'i gilydd, â'u hymarferwyr ac â'r arferion cymdeithasol sy'n eu galluogi i strwythuro eu dysgu a'u gweithgareddau eraill. Mae hyn yn arbennig o wir i blant ag anghenion ychwanegol amrywiol.

**10.26** Dylid cynnig mwy o gymorth i rieni/gofalwyr nad iaith addysg eu plant yw eu prif iaith yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell gartref.

**10.27** Dylai gwaith ymchwil pellach ystyried pa strategaethau sy'n effeithiol wrth annog dysgwyr i ymgysylltu mewn dysgu ar-lein o ran y dysgwyr hynny a ymddieithriodd yn ystod y pandemig.

**10.28** Dylid cydnabod gwerth amser ychwanegol, yn deillio o'r cyfyngiadau symud, ar gyfer mwy o ddysgu allgyrsiol, anffurfiol y tu allan i'r ysgol.

**Goblygiadau cyffredin ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon yn y dyfodol**

**10.29** Mae nifer o ddatblygiadau a ysgogwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19 wedi cyflymu datblygiad y ddarpariaeth addysgol yng Nghymru. Gan werthfawrogi hyn, rydym yn nodi cyfres o oblygiadau cyffredin ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon yn ogystal â'r rheini a nodwyd eisoes yn yr argymhellion blaenorol, sef:

**10.30** Rhaid addysgu pob athro i fod yn gynyddol ymwybodol o'r effaith a'r dylanwad y gall yr amgylchedd dysgu yn y cartref, a all gynnwys anfantais nad yw'n gwbl hysbys, eu cael ar les a chyrhaeddiad addysgol dysgwyr.

**10.31** Rhaid i athrawon yn y dyfodol werthfawrogi'r effaith sylweddol a gaiff amser priodol i ymgysylltu â chyfleoedd dysgu a gofod addas i gymryd rhan mewn gweithgareddau

addysgol o ran yr amgylchedd dysgu yn y cartref ac yn yr ysgol a dylid ei ystyried fel rhan o'u darpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon.

**10.32** Rhaid i'r ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon sicrhau bod athrawon y dyfodol yn cael y canllawiau angenrheidiol ac yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu addysgeg ar-lein, o bell a chyfunol effeithiol fel rhan annatod o'u hyfforddiant, yn hytrach nag agwedd ymylol. Dylid sicrhau bod arferion athrawon ac ysgolion y nodwyd eu bod yn fuddiol i ddysgwyr yn yr astudiaeth hon ar gael fel enghreifftiau i fyfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon fel rhan o'u darpariaeth.

**10.33** Rhaid i Addysg Gychwynnol i Athrawon sicrhau bod pob athro yn y dyfodol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cod anghenion dysgu ychwanegol, a goblygiadau anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol penodol ar gynnydd addysgol a lles cyffredinol disgyblion, ac felly sicrhau eu bod yn barod i ddiwallu'r anghenion hynny.

## Atodiad

**Holiadur i rieni / gofalwyr:**

Yr arolwg hwn:

Mae'r arolwg hwn yn rhan o astudiaeth sy'n ystyried effaith cau ysgolion o ganlyniad i Covid-19 ar ddysgwyr. Y nod yw deall yr anfanteision a'r manteision i ddysgwyr fel y'u profwyd gan wahanol bobl yng nghymuned yr ysgol. Mae'n rhan o brosiect cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Pam y gofynnwyd i mi gymryd rhan?

Gofynnwyd i chi gymryd rhan gan fod eich plentyn/plant yn mynychu [Enw'r Ysgol], a bod yr ysgol wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Sut y caf fy nghynnwys os byddaf yn cymryd rhan?

Cewch wahoddiad i gwblhau holiadur ar-lein. Dylai gymryd tua 20 munud i'w gwblhau.

Chi fydd yn penderfynu a fyddwch am gymryd rhan ac ni fydd yn effeithio ar eich cydberthnasau yn yr ysgol nac ar unrhyw un arall. Nid oes angen i chi roi rheswm os byddwch yn dewis peidio â chymryd rhan.

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, gallwch roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. Fodd bynnag, unwaith y byddwch yn cyflwyno'r arolwg, ni allwn ddileu eich ymatebion gan eu bod yn ddienw.

A fydd fy mhenderfyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gyfrinachol?

Bydd. Caiff yr holiadur ei gyflwyno'n ddienw. Os byddwch yn darparu manylion adnabod, byddwn yn dileu'r wybodaeth hon cyn dadansoddi'r data ac adrodd arnynt. Nodwch os daw tystiolaeth o gamwedd neu niwed posibl i'r amlwg, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Brifysgol gysylltu â'r cyrff/asiantaethau statudol perthnasol.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth ymchwil?

Bydd yr astudiaeth yn ein helpu i ddeall mwy am effaith cau ysgolion ar ddysgwyr a dysgu mewn ysgolion yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i wella dulliau gweithredu mewn ymateb i sefyllfaoedd yn y dyfodol lle y bydd achosion tebyg o darfu. Yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau i Lywodraeth Cymru, mae'n bosibl y bydd yr ymchwilwyr hefyd yn defnyddio data dienw i ysgrifennu adroddiadau ac erthygl(au) ar gyfer cyfnodolion.

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r gwaith ymchwil?

Ariannwyd y gwaith ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y prosiect hwn ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil [Enw'r Brifysgol].

Manylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaeth:

Os hoffech wybod mwy am y prosiect ymchwil hwn, gallwch gysylltu â [Enw'r prif gyswllt a'i gyfeiriad e-bost].

Nodwch un o'r opsiynau isod:

Rwyf wedi darllen y wybodaeth am yr astudiaeth ac yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg YDW/NAC YDW.

NAC YDW: Diolch am roi o'ch amser i ddarllen am y prosiect hwn.

YDW: Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr arolwg. Yn gyntaf, byddwn yn gofyn cwestiynau amdanoch chi a'ch plant ac wedyn am eu dysgu yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau.

Rhowch wybodaeth amdanoch chi a'ch plentyn/plant sy'n mynychu [ENW'R YSGOL]:

Beth yw eich oedran? CWYMPLEN

- 16-20
- 21-30
- 31-40
- 41-50
- 51-60
- 60+
- byddai'n well gennyf beidio â dweud

Beth yw eich cydberthynas â'ch plant yn yr ysgol? CWYMPLEN

- Gofalwr/gwarcheidwad
- Rhiant
- Arall (nodwch TESTUN AGORED)

Cwblhewch yr isod ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol:

*Plentyn UN*

Grŵp blwyddyn yn yr ysgol: CWYMPLEN

- M/D
- Bl1
- Bl2
- Bl3
- Bl4
- Bl5
- Bl6
- Bl7

- Bl8
- Bl9
- Bl10
- Bl11
- Bl12
- Bl13

Rhywedd: CWYMPLEN

- merch
- bachgen
- arall
- byddai'n well gennyf beidio â dweud

A oes gan y plentyn hwn unrhyw anghenion dysgu ychwanegol?

- OES Os oes TESTUN AGORED, esboniwch natur yr angen ychwanegol hwn yn gryno
- NAC OES

*Plentyn DAU*

- Ailadroddwch fel uchod

*Plentyn TRI*

- Ailadroddwch fel uchod

*Plentyn PEDWAR*

- Ailadroddwch fel uchod

5. A oedd unrhyw beth arall am y tasgau a bennwyd gan yr ysgol nad oedd eich plentyn/plant wir yn ei hoffi neu a oedd yn anodd iddo/iddynt? Pa dasgau? Pam hynny, yn eich barn chi? TESTUN AGORED

6. A wnaeth eich plant, neu ddysgwyr eraill, brofi unrhyw nodweddion cadarnhaol neu fanteision yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau? Allwch chi roi enghreifftiau? TESTUN AGORED

7. Fel rhieni/gofalwyr, beth oedd eich barn chi am ddysgu eich plentyn/plant yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd COVID-19? TESTUN AGORED

8. A oes gennych unrhyw bryderon am eich plant/plentyn a'i ddysgu/a'u dysgu yn ystod y misoedd nesaf oherwydd y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau? Os felly, beth yw'r pryderon hyn? TESTUN AGORED

9. A gafodd y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd COVID-19 yr un effaith ar bob dysgwr yn yr ysgol, yn eich barn chi? Os na, pa wahaniaethau rydych yn ymwybodol ohonynt? TESTUN AGORED

10. A ydych o'r farn bod cefnogi dysgu yn y cartref yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau yn haws i'w reoli i rai teuluoedd nag eraill? Esboniwch eich ateb. TESTUN AGORED

Hoffem gynnal rhai cyfweliadau dilynol dros y ffôn/ar-lein â rhieni/gofalwyr. Os byddwch yn fodlon i ni gysylltu â chi i gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol dros y ffôn/ar-lein, nodwch eich enw a naill ai gyfeiriad e-bost neu rif ffôn. Ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. TESTUN AGORED

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

CYFLWYNO

**Holiadur i Athrawon/Staff Cymorth Dysgu**

Yr arolwg hwn:

Mae'r arolwg hwn yn rhan o astudiaeth sy'n anelu at ganfod effaith cau ysgolion o ganlyniad i Covid-19 ar ddysgwyr, o safbwynt y gymuned ysgolion. Y nod yw deall yr anfanteision a'r manteision i ddysgwyr fel y'u profwyd gan wahanol bobl yn y gymuned hon. Mae'n rhan o brosiect cydweithredol cenedlaethol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru sydd hefyd yn ystyried beth y gallwn ei ddysgu mewn perthynas ag Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Pam y gofynnwyd i mi gymryd rhan?

Gofynnwyd i chi gymryd rhan fel aelod o staff yn un o ysgolion [Enw'r Bartneriaeth] sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Sut y caf fy nghynnwys os byddaf yn cymryd rhan?

Cewch wahoddiad i gwblhau holiadur ar-lein. Dylai gymryd tua 20 munud i'w gwblhau. Chi fydd yn penderfynu a fyddwch am gymryd rhan ac ni fydd yn effeithio ar eich cydberthnasau proffesiynol o fewn [Enw'r Bartneriaeth] nac ar unrhyw un arall yn y sefydliad.

Eich penderfyniad chi a'ch penderfyniad chi yn unig yw p'un a fyddwch am gymryd rhan ai peidio; nid oes angen i chi roi rheswm os byddwch yn dewis peidio â chymryd rhan. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. Fodd bynnag, unwaith y byddwch yn cyflwyno'r arolwg, ni allwn ddiddymu eich data gan fod yr ymatebion yn ddienw.

A fydd fy mhenderfyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gyfrinachol?

Bydd. Caiff yr holiadur ei gyflwyno'n ddienw a chaiff unrhyw fanylion adnabod a gynhwysir yn eich ymatebion eu dileu cyn dadansoddi'r data ac adrodd arnynt. Nodwch y byddwn yn cydymffurfio'n gaeth â'r sicrwydd a roddir o ran cyfrinachedd oni ddaw tystiolaeth o gamwedd neu niwed posibl i'r amlwg. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd rhwymedigaeth ar y Brifysgol i gysylltu â'r cyrff/asiantaethau statudol perthnasol.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth ymchwil?

Bydd yr astudiaeth yn ein helpu i gael gwell syniad o effaith y tarfu ar arferion addysgu a dysgu arferol mewn ysgolion yng Nghymru, a achoswyd gan y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau. Mae'n bosibl y bydd y data a gesglir o gymorth o ran gwella dulliau gweithredu mewn ymateb i sefyllfaoedd yn y dyfodol lle y bydd achosion tebyg o darfu. Caiff y data a gesglir hefyd eu defnyddio i lywio a gwella'r ddarpariaeth ar raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon, mewn perthynas â materion fel ymatebion ysgolion i argyfyngau a'r defnydd o ddysgu cyfunol i gefnogi cynnydd dysgwyr.

Yn ogystal â llywio'r astudiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i effaith y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau ar ddysgwyr, mae'n bosibl y caiff y data dienw hefyd eu defnyddio fel sail ar gyfer erthygl(au) mewn cyfnodolion academaidd neu gyhoeddiadau eraill.

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r gwaith ymchwil?

Ariannwyd y gwaith ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y prosiect hwn ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil [Enw'r Brifysgol].

Manylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaeth:

Os hoffech wybod mwy am y prosiect ymchwil hwn, gallwch gysylltu â [Enw'r prif gyswllt a'i gyfeiriad e-bost].

Nodwch un o'r opsiynau isod:

Rwyf wedi darllen y wybodaeth am yr astudiaeth ac yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg YDW/NAC YDW

NAC YDW: Diolch am roi o'ch amser i ddarllen am y prosiect hwn.

YDW: Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr arolwg. Yn gyntaf, byddwn yn gofyn am eich rôl yn yr ysgol ac wedyn byddwn yn gofyn i chi roi eich barn am eich dysgwyr, a'r cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19.

Rhowch wybodaeth amdanoch chi a'ch rôl yn eich ysgol:

Beth yw eich rôl? CWYMPLEN, dewiswch un

- Uwch-dîm arwain
- Athro
- Staff cymorth

A oes gennych rôl neu gyfrifoldeb ychwanegol yn yr ysgol? Os felly, rhowch ddisgrifiad cryno TESTUN AGORED

Beth yw eich prif gyfrifoldebau addysgu? CWYMPLEN, dewiswch un

- Athro dosbarth (os felly, o'r gwymplen M/D/Bl1/Bl2/Bl3/Bl4/Bl5/Bl6/Bl7-9/Bl10-11 ticiwch bob un sy'n berthnasol)
- Athro pwnc (os felly, o'r gwymplen, dewiswch eich prif bwnc cwricwlaidd/arall)
- Cefnogi dysgwyr ag ADY (os felly, yna TESTUN AGORED: gyda pha ddysgwyr/grwpiau o ddysgwyr rydych yn gweithio'n bennaf?)
- Arall  TESTUN AGORED nodwch

Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd? CWYMPLEN

- Merch
- Bachgen
- Arall
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud

Beth yw eich oedran? CWYMPLEN

- 16-20
- 21-30
- 31-40

- 41-50
- 51-60
- 60+
- byddai'n well gennyf beidio â dweud

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19 rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, a'r effaith a gafodd hyn ar ddysgwyr yn eich ysgol.

1. Meddyliwch am ystod oedran y dysgwyr yn eich ysgol, a sut mae eich ysgol yn nodi dysgwyr a allai fod o dan anfantais. Beth yw natur yr anfantais (anfanteision) y mae dysgwyr yn eich ysgol yn ei brofi (eu profi)? TESTUN AGORED

2. Yn eich barn chi, a wnaeth y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd COVID-19 greu mathau newydd o 'anfantais' ar gyfer dysgwyr penodol? Esboniwch eich ateb.TESTUN AGORED

3. Meddyliwch sut y gwnaeth y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd COVID-19 effeithio ar eich dysgwyr. Beth yw tair effaith fwyaf arwyddocaol y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau?  TESTUN AGORED

4. Mae arolygon cenedlaethol yn honni bod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau wedi cael effeithiau gwahanol ar grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Yn eich profiad chi, pa grwpiau o ddysgwyr y cafodd y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau yr effaith fwyaf arnynt? TESTUN AGORED

5. Sut yr effeithiwyd ar y dysgwyr a grybwyllwyd gennych yn C4? TESTUN AGORED

6. Yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau, beth oedd yn ymddangos fel petai'n gweithio'n dda i'r dysgwyr hynny yr ystyriwyd eu bod o dan anfantais, a pham? TESTUN AGORED

7. A fu unrhyw fanteision i ddysgwyr yn gyffredinol, neu yn ôl grwpiau penodol o ddysgwyr, yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau? Allwch chi roi enghreifftiau?Sut y gwnaethant elwa? TESTUN AGORED

8. A ydych o'r farn bod cefnogi dysgu gartref yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau yn haws i'w reoli i rai teuluoedd nag eraill? Esboniwch eich ateb.TESTUN AGORED

9. A oes unrhyw bryderon a heriau parhaus i ddysgwyr yn eich ysgol? A oes unrhyw grwpiau o ddysgwyr y mae mwy o heriau parhaus yn eu hwynebu? Pa grwpiau a pham? TESTUN AGORED

10. Sut rydych yn gobeithio ymdrin ag unrhyw bryderon a heriau parhaus i ddysgwyr yn ystod y misoedd nesaf? TESTUN AGORED

Hoffem gynnal rhai sgyrsiau grŵp dilynol. Fe'u cynhelir ar-lein. Os ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi i gymryd rhan mewn sgyrsiau grŵp dilynol, nodwch eich enw a naill ai gyfeiriad e-bost neu rif ffôn. Ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. TESTUN AGORED

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

CYFLWYNO

**Cyfweliad Lled Strwythuredig ar gyfer yr Uwch-dîm Arwain:**

*Cyfweliad hyd at uchafswm o 45 munud i awr*

Gwybodaeth sydd ei hangen cyn y cyfweliad: **e-bost ymlaen llaw**

- Nifer ar y Gofrestr
- Categori iaith
- % ADY
- % eFMS
- % plant o gategorïau ethnig lleiafrifol
- Ieithoedd a ddefnyddir ac a siaredir gartref
- Nifer y staff addysgu
- Nifer y staff cymorth addysgu
- A oedd yr ysgol yn ysgol hyb yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau?

Cwestiwn cynhesu:

- Dywedwch wrthym am eich ysgol, y demograffeg cyffredinol a'i nodweddion/ethos.

1. Sut mae'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19 wedi effeithio ar ddysgwyr?

- Edrychwch am ddatganiadau cyffredinol a fydd yn crynhoi profiadau'r **ysgol yn gyffredinol**. Bydd cyfle i drafod grwpiau unigol yn ddiweddarach yn y cyfweliad.
- Yn gyffredinol, sut gwnaeth yr ysgol, fel cymuned, ymateb i'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau?

- Gofynnwch iddynt ystyried sut y bu'n rhaid i'r ysgol ymateb **fel sefydliad**, ac a deimlwyd bod yr ysgol yn gwneud unrhyw beth a oedd yn wahanol iawn i'r hyn a fu'n gwneud yn flaenorol.
- Mae'n bosibl y bydd trafod ymateb y gymuned i'r heriau yn ennyn ymateb emosiynol.
- (e.e. cyd-dynnu, rhaniadau amlwg)

2. A gafodd y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19 yr un effaith ar bob dysgwr yn yr ysgol? Os na, pa wahaniaethau rydych yn ymwybodol ohonynt?

- Gofynnwch iddynt ystyried y mathau o broblemau y bu'n rhaid i'r ysgol eu hystyried wrth flaenoriaethu'r ddarpariaeth, e.e. gwahanol ddarpariaeth ar gyfer grwpiau hŷn, neu'r rheini a oedd yn sefyll arholiadau neu asesiadau ffurfiol (ar y pryd), anawsterau wrth gyfleu tasgau i ddisgyblion iau (nad oedd mor hawdd eu crynhoi ar ffurf taflen waith) ac ati.
- Gofynnwch iddynt ystyried a oedd rhai grwpiau yn gallu defnyddio'r math o ddarpariaeth a gynigiwyd yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau yn haws na grwpiau eraill.

3. A allwch roi rhai enghreifftiau o wahanol brofiadau grwpiau o ddysgwyr?

- Sut y gwnaeth hyn effeithio ar y grwpiau hyn yn wahanol? A oes rhesymau penodol?
- Ee 1
- Ee 2

4. Sut y caiff 'dysgwyr o dan anfantais' eu nodi o fewn systemau'r ysgol? A newidiodd hyn yn ystod y cyfyngiadau symud? Os felly, sut?

- Diffiniad yr ysgol o 'ddysgwyr o dan anfantais' **cyn** y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau?
- A defnyddiwyd y term yn rheolaidd i ddisgrifio sefyllfa disgyblion penodol?

- A ellir dosbarthu'r unigolion hyn o fewn grŵp o dan anfantais, neu a ydynt yn rhy unigol i'w dosbarthu'n gyfunol / fel grŵp?
- A wnaeth y ffordd y mae'r ysgol yn diffinio 'dysgwyr o dan anfantais' newid yn ystod y cyfnod hwn? (oherwydd y gyfres newydd o amodau) – h.y. a ddaeth cyfres newydd o ddysgwyr o dan anfantais i'r amlwg yn sgil y cyfyngiadau symud, neu ai'r un grŵp ydoedd?

5. Yn eich barn chi, a wnaeth Covid-19 a'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau greu mathau newydd o 'anfantais' ar gyfer dysgwyr penodol? Allwch chi esbonio pam?

- Pwy yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau?
- A waethygodd profiadau'r grŵp gwreiddiol o ddysgwyr o dan anfantais yn ystod y cyfnod hwn?
- A yw'r amodau a achoswyd gan y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau yn golygu bod y grwpiau hyn neu'r unigolion hyn yr ystyrir eu bod o dan anfantais yn wynebu mwy o anfantais?
- Os felly, sut/pam?
- A oedd yn dibynnu ar natur yr anfantais i ddechrau, e.e. teuluoedd a oedd yn wynebu anawsterau economaidd, a waethygwyd gan y dybiaeth fod gan bob plentyn ddyfais i'w defnyddio, ac yn fwy heriol i deuluoedd mawr lle y byddai'n rhaid rhannu dyfeisiau (os oedd dyfeisiau ar gael).

6. Sut gwnaeth yr ysgol ddarparu ar gyfer dysgu'r plant a rheoli'r broses honno yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19?

- Strategaethau a ddefnyddiwyd gan yr ysgol i sicrhau bod addysg disgyblion yn parhau yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Dulliau o reoli'r broses, e.e. drwy gysylltu â disgyblion er mwyn gofyn sut roedd pethau'n mynd ac ati
- Unrhyw broblemau penodol mewn perthynas â hyn?

- A wnaeth yr ysgol barhau i asesu disgyblion yn ystod y cyfnod hwn yn yr un ffyrdd, yn unol â'r un meini prawf neu raddau?
- Enghreifftiau? e.e. 1. yn ogystal â chynllunio a darparu deunyddiau ar-lein, mynd â deunyddiau'n bersonol neu bostio deunyddiau at rai disgyblion ac ati.

7. A wnaeth dysgwyr yn gyffredinol brofi unrhyw nodweddion cadarnhaol neu fanteision yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau? Allwch chi roi enghreifftiau?

- A oedd y sefyllfa'n fuddiol mewn unrhyw ffordd, e.e. gweithio'n agosach ar waith ysgol â theuluoedd; effaith mathau newydd o ddysgu a dulliau dysgu, e.e. gwelliannau o ran dysgu digidol ac ati?
- A yw'r nodweddion cadarnhaol hyn yn benodol i rai grwpiau penodol yn unig, neu a wnaeth pob dysgwr brofi'r nodweddion cadarnhaol hyn?

8. A ydych yn ymwybodol o unrhyw fathau penodol o ddysgwyr neu grwpiau o ddysgwyr y bu dysgu yn y cartref yn fanteisiol iddynt? Sut y bu'n fanteisiol iddynt?

- Pwy oeddent?
- Beth oedd y manteision – allwch chi gynnig enghreifftiau?
- Pam oedd yn fanteisiol iddynt?

9. Yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau, beth oedd yn ymddangos fel petai'n gweithio'n dda i'r dysgwyr hynny yr ystyriwyd eu bod o dan anfantais, a pham?

- E.e. unigolion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, neu'r rheini y mae amgylcheddau dysgu unigol neu mewn grwpiau bach yn fwy manteisiol iddynt ac ati.
- Unrhyw fantais i ddisgyblion ag ADY (e.e. mwy o ddefnydd o dechnoleg gynorthwyol)?

10. A oes pryderon a heriau parhaus i ddysgwyr yn eich barn chi? A oes unrhyw grwpiau o ddysgwyr y mae mwy o heriau parhaus yn eu hwynebu? Pa grwpiau a pham?

- Ystyriwch yr effaith hirdymor neu barhaus ar ddysgwyr yn gyffredinol.
- Ystyriwch yr effaith hirdymor neu barhaus ar grwpiau o ddysgwyr, e.e. y rheini yr ystyrir eu bod o dan anfantais.

11. Sut rydych yn gobeithio ymdrin ag unrhyw bryderon a heriau parhaus i ddysgwyr?

- Cynlluniau a drafodwyd gan yr ysgol ar gyfer 'dal i fyny'? Rhaglen 'dysgu carlam' ac ati?
- Ystyried y cysyniad eu bod wedi 'colli 12 wythnos / 3 mis o ddysgu' (Lloegr?)
- A oes angen ailadrodd cyfnodau / gohirio cynnydd?
- Yr effaith ar baratoadau ar gyfer y cyfnod asesu ym mis Mai / Mehefin 2021 (i fyfyrwyr hŷn, uwchradd)?

12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthyf am effaith y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau ar eich dysgwyr (yn arbennig mewn perthynas â dysgwyr o dan anfantais)?

**Cyfweliad Strwythuredig ar gyfer Athrawon**

Protocol

- Trafodaeth rhwng 40 munud ac awr o hyd
- Cytuno ar reolau cyffredinol ar gyfer y drafodaeth
- Defnyddio'r swyddogaeth sgwrsio i arddangos y cwestiwn (nid ar gyfer unrhyw drafodaeth, dim ond ar gyfer arddangos y cwestiynau)
- Dylid anelu at ryw 10 munud fesul cwestiwn, er y gellir bod yn hyblyg os bydd y drafodaeth yn llifo!

1. Beth sydd wedi newid o ran y profiadau dysgu rhwng y cyfyngiadau symud cyntaf a nawr?

- Enghreifftiau (ceisiwch annog enghreifftiau o'r grŵp blwyddyn sy'n cael ei drafod)

2. Sut mae ymateb yr ysgol i gefnogi dysgu wedi newid?

3. Beth sydd wedi newid o ran eich dealltwriaeth o 'anfantais' mewn dysgu a'ch darpariaeth ar ei chyfer?

- y rheini ag anfantais dysgu,
- y rheini ag 'anfantais newydd' fel problemau cysylltedd digidol (e.e. band eang / digon o liniaduron)...sut mae'r plant hyn yn cysylltu â 'sesiynau byw'
- diffyg cymorth gan rieni wrth weithio o bell;
- teuluoedd sy'n wynebu heriau â HWB; e.e.
- Enghreifftiau

4. Beth yw goblygiadau'r flwyddyn ddiwethaf ar gyfer dyfodol dysgu yn y tymor hwy?

**Cyfweliad Strwythuredig ar gyfer Rhieni**

Protocol

- Cyfweliadau unigol
- Uchafswm o 10 fesul SAU (2 neu 3 fesul ysgol)
- Recordio drwy Skype, Teams, swyddogaeth recordio ar ffonau
- Hyd at 10-15 munud
- Faint o blant sydd yn yr ysgol a beth yw eu hoedran?

1. Beth sydd wedi newid o ran y profiadau dysgu rhwng y cyfyngiadau symud cyntaf a nawr?

- Enghreifftiau (ceisiwch annog manylion)
- Ystyriwch unrhyw faterion, anawsterau, manteision

2. Sut mae ymateb yr ysgol i gefnogi dysgu wedi newid?

- Enghreifftiau (ceisiwch annog manylion)
- Ystyriwch unrhyw faterion, anawsterau, manteision

Dewisol, os byddwch yn teimlo ei fod yn briodol ar gyfer cyd-destun y rhiant:

3. O ystyried y flwyddyn ddiwethaf, a fydd dysgu i blant oedran ysgol ar ffurf wahanol yn y dyfodol, yn eich barn chi?

- (Ar ba ffurf yr hoffech i hynny fod?)

## Adran gyfeiriadau

Andrew A, Cattan S, Costa-Dias M, Farquharson C, Kraftman L, Krutikova S, Phimister A a Sevilla A (2020) Family time use and home learning during the COVID-19 lockdown, Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Barton G., (2021) What do we need when things go back to normal? Laughter. Times Educational supplement, 5 Chwefror 2021 ar gael ar-lein: https://www.tes.com/news/what-do-we-need-when-things-go-back-normal-laughter

Comisiynydd Plant Cymru. (2021). Coronafeirws a Fi. [Ar gael yn: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf]

Yr Adran Addysg. (2021). Understanding progress in the 2020/21 academic year. [Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/962330/Learning_Loss_Report_1A_-_FINAL.pdf]

Doucet AD, Netolicky D Timmers K a Tuscano FJ (2020) Thinking about Pedagogy in an Unfolding Pandemic. An Independent Report on Approaches to Distance Learning During COVID-19 School Closures [Ar gael yn: https://issuu.com/educationinternational/docs/2020_research_Covid-19_eng].

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) (2020a) Impact of school closures on the attainment gap: Rapid Evidence Assessment, Llundain: Y Sefydliad Gwaddol Addysgol.

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF) (2020b) Remote Learning: Rapid Evidence Assessment, Llundain, Y Sefydliad Gwaddol Addysgol.

Lucas M, Nelson J, a Sims D (2020) Schools' responses to Covid-19: pupil engagement in remote learning, Llundain: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.

Pensiero N, Kelly A, a Bokhove C (2020) Learning inequalities during the Covid-19 pandemic: how families cope with home-schooling, Southampton: Prifysgol Southampton. (doi:10.5258/SOTON/P0025).

Rose, S., Twist, L., Lord, P., Rutt, S., Badr, K., Hope, C. a Styles. B. (2021). Impact of school closures and subsequent support strategies on attainment and socio-emotional well-being in Key Stage 1: Interim Paper 1. [Ar gael yn: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Impact_of_school_closures_KS1_interim_findings_paper_-_Jan_2021.pdf ]

Menter DELVE y Gymdeithas Frenhinol (2020) Balancing the Risks of Pupils Returning to Schools.

Senedd (2021) Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc. Adroddiad terfynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Ar gael ar-lein: https://senedd.cymru/media/fy4cfvbg/cr-ld14286-w.pdf

Sharp C, Nelson J, Lucas M, Julius J, McCrone T, Sims D (2020) The challenges facing schools and pupils in September 2020, Llundain: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) a Sefydliad Nuffield.

Thomson P (2020) School Scandals. Blowing the Whistle on the Corruption of our Education System, Bryste: Policy Press.

Llywodraeth Cymru (2020a) Canllawiau ar gyfer Cefnogi Dysgwyr sy'n Agored i Niwed a Dan Anfantais, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2020b) Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2020c) Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Williams Z (2020) Adolygiad o effaith tarfu mawr ar les a iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a'r ymyriadau therapiwtig posibl, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 62/2020. Ar gael ar: https://llyw.cymru/adolygiad-o-effaith-tarfu-mawr-ar-les-iechyd-meddwl-plant-phobl-ifanc